# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | | CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD MERCHER, 16 HYDREF 2024 am 2:00 y.p. | | WEDNESDAY, 16 OCTOBER 2024 at 2:00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR , SWYDDFEYDD Y CYNGOR AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM | | COMMITTEE ROOM, COUNCIL OFFICES AND VIRTUALLY VIA ZOOM |
| Swyddog Pwyllgor | Ann Holmes<br>01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES**

Geraint Bebb, Sedd Wag/Vacant Seat, Jackie Lewis, Llio A. Owen, Alwen Watkin, Sonia Williams, Arfon Wyn

**Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP**

Ieuan Williams

**LLAFUR CYMRU/ WELSH LABOUR**

Keith Roberts

**ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS**

Douglas M. Fowlie ***(Cadeirydd)***, Aled Morris Jones (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru/Welsh Liberal Democrats), R. Llewelyn Jones

**AELODAU CYFETHOLEDIG (Gyda hawl pleidleisio ar faterion Addysg) /**
**CO-OPTED MEMBERS (With voting rights when dealing with Educational matters)**

John Tierney (Yr Eglwys Gatholig / The Catholic Church)
Wenda Owen (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)
Gillian Thompson (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary Schools Sector)
Gwag/Vacant (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor-Secondary Schools Sector and ALN)

*Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod.*

## R H A G L E N

**1 ETHOL IS-GADEIRYDD**

Ethol Is-Gadeirydd i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**3 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 17 Medi 2024.

**4 ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL GOGLEDD CYMRU 2023/24** (Tudalennau 9 - 60)

Cyflwyno adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol.

**5 AROLYGIAETH GOFAL CYMRU: LLYTHYR GWIRIAD GWELLA AWDURDOD LLEOL - GWASANAETHAU OEDOLION CYNGOR SIR YNYS MÔN** (Tudalennau 61 - 88)

Cyflwyno adroddiad a chynllun gweithredu Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Pennaeth Gwasanaethau Oedolion.

**6 ENWEBIADAU PWYLLGOR - PANELAU SGRIWTINI CYLLID AC ADDYSG** (Tudalennau 89 - 100)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini.

**7 BLAEN RAGLEN WAITH** (Tudalennau 101 - 108)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Medi 2024

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Cynghorydd Douglas Massie Fowlie (Cadeirydd)<br>Cynghorydd Dyfed Wyn Jones (Is-gadeirydd)<br><br>Cynghorwyr R Ll Jones, Jackie Lewis, Llio Angharad Owen, Keith Roberts, Alwen Pennant Watkin, Arfon Wyn a Sonia Williams<br><br>Aelodau Cyfetholedig:<br><br>Mrs Wenda Owen (Yr Eglwys yng Nghymru),<br>Mr John Tierney (Yr Eglwys Gatholig)<br><br>**Aelodau**<br><br>Cynghorydd Robin Williams – Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid,<br>Cynghorydd Neville Evans – Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth a Morwrol,<br>Cynghorydd Carwyn Jones – Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmer,<br>Cynghorydd Alun Roberts – Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion a Diogelwch Cymunedol,<br>Cynghorydd Dafydd R Thomas – Aelod Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,<br>Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid,<br>Pennaeth Democratiaeth,<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd,<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai,<br>Pennaeth Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff,<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion,<br>Rheolwr Rhaglen, Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol (GP),<br>Prif Swyddog Gwarchod y Cyhoedd (TO),<br>Swyddog Sgriwtini (EA),<br>Swyddog Pwyllgorau (MEH),<br>Swyddog Gweddarlledu (FT). |
| **HEFYD YN BRESENNNOL:** | Dim |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Cynghorwyr Aled M Jones, Ieuan Williams.<br>Mrs Gillian Thompson – Rhiant Lywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd. |

Cynghorydd Gary Pritchard – Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Tai, Planc a Gwasanaethau Ieuenctid,
Cynghorydd Dafydd Roberts – Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg.

Rheolwr Sgriwtini (AD).

---

## 1 DATGAN BUDDIANT

Fe wnaeth y Cynghorydd Jackie Lewis ddatgan buddiant personol yn gysylltiedig ag unrhyw eitem sy'n cyfeirio at Fenter Môn a'r economi.

## 2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 13 Mehefin, 2024 yn gywir.

## 3 MONITRO PERFFORMIAD : Y CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CH 1 2024/25

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid, a oedd yn cynnwys y Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 1 2024/2025, i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Carwyn Jones, Aelod Portffolio Busnes y Cyngor a Phrofiad Cwsmer a nodwyd bod yr adroddiad ar gyfer 2024/25 mewn fformat newydd a'i fod yn nodi perfformiad y Cyngor yn erbyn yr amcanion strategol yng Nghynllun y Cyngor. Mae nifer o'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn newydd, nid oes gan rhai ohonynt dargedau ar hyn o bryd ac maent yno i osod gwaelodlin, gyda rhywfaint o ddata ddim ar gael tan ddiwedd y flwyddyn. Fodd bynnag bydd tueddiadau'n cael eu monitro o Chwarter 2 yn ystod 2024/25 gyda'r nod o osod targedau yn 2024/25. Nododd bod 94% o'r dangosyddion sydd â thargedau, ac a gafodd eu monitro yn ystod y chwarter, yn perfformio'n dda. Cyfeiriodd at ddau ddangosydd sydd angen sylw: Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniodd ymateb o fewn yr amserlen a chanran y busnesau risg uchel a gafodd eu harchwilio yn unol â'r safonau hylendid bwyd. Aeth y Cynghorydd Carwyn Jones ymlaen i ddweud bod 68.46% o ddisgyblion blwyddyn 11 yn astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf. Mae'r dangosydd hwn yn perfformio'n dda gyda statws Ambr, a dywedodd ei fod yn gobeithio gweld hyn yn cynyddu. Cyfeiriodd at y Gwasanaethau Plant, sy'n perfformio'n well na'r targedau ac at y Gwasanaethau Hamdden lle mae dros 130,000 wedi defnyddio'r gwasanaeth, sy'n uwch na'r targed o 115,000. Mae canran presenoldeb disgyblion ysgolion cynradd wedi cynyddu ers y pandemig. Roedd perfformiad da hefyd o ran datblygu tai Cyngor newydd gyda 22 o dai newydd yn cael eu datblygu yn ystod y cyfnod, ac o ran prynu cyn Dai Cyngor yn ôl i'w gosod fel Tai Cyngor gyda 16 o dai preifat yn dod yn dai rhent cymdeithasol unwaith eto o gymharu â tharged o 11 drwy'r ymyraethau Tai Gwag. Roedd canran y ceisiadau gorfodi cynllunio a ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod yn 97% yn erbyn targed o 80% a chanran yr unedau busnes a osodwyd

yn 86%.  Aeth ymlaen i ddweud bod canran y strydoedd sy'n lân yn 96.60% yn dilyn archwiliad gan yr Adran Briffyrdd, sy'n uwch na'r targed. Mae 12% o fflyd y Cyngor yn gerbydau carbon isel ac felly mae'r dangosydd yma'n perfformio'n dda.

Fe wnaeth yr Aelodau nodi'r perfformiadau da yn ystod Ch1 a diolch i'r Swyddogion a staff. Wrth graffu ar yr adroddiad, codwyd y pwyntiau canlynol gan y Pwyllgor a chafwyd ymateb gan yr Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad Cwsmer a'r Swyddogion.

- Mae 94% o ddangosyddion perfformiad yr Awdurdod gyda thargedau wedi'u monitro wedi perfformio'n dda, sy'n adroddiad cadarnhaol ar ddiwedd Chwarter 1. Gofynnwyd pa sicrwydd y gellir ei roi y bydd y 2 ddangosydd arall yn gwella.

    - Archwiliadau Hylendid Bwyd - nodwyd bod 22 o safleoedd wedi cael eu harchwilio yn erbyn targed o 31. Mae diffyg adnoddau i gynnal yr archwiliadau hyn wedi achosi problemau a bu'n rhaid rhoi blaenoriaeth i safleoedd bwyd risg uchel. Mae rhaglen waith wedi cael ei rhoi ar waith yn y gwasanaeth i gydymffurfio â'r safonau hylendid bwyd.

    - Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth – derbyniwyd cyfanswm o 247 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn ystod y chwarter ac mae'r ceisiadau hyn yn cynnwys nifer uchel o gwestiynau. Fel yr adroddwyd yn y cyfarfod diwethaf mae camau lliniaru wedi cael eu rhoi ar waith yn cynnwys datblygu system CRM gyda'r nod o greu dashfwrdd a fydd ar gael ar gyfer pob Rheolwr Gwybodaeth, fel y gallant weld y cerdyn sgorio yn ddyddiol ac edrych ar geisiadau, amserlenni, cynnydd ac ymatebion hwyr. Fel y nodwyd, roedd cyfanswm o 247 o geisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn ystod y cyfnod ac ymatebwyd i 205 ohonynt o fewn yr amserlen. Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn ymrwymedig i gynyddu'r gyfradd ymateb ar gyfer ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, ond oherwydd yr angen i wneud arbedion, mae rhywfaint o leihad mewn capasiti i ymdrin â thasgau o fewn y gwasanaethau yn golygu bod y targed o 90% yn parhau i fod yn un anodd.

- Er bod y Pwyllgor yn croesawu datblygu tai cymdeithasol ar yr ynys, holwyd ynglŷn ag effaith hynny ar y cymunedau Cymraeg pan fydd pobl ddi-Gymraeg yn dod i fyw i'r anheddau hynny. Dywedodd y Pennaeth Tai bod y polisi Gosod Tai yn rhoi blaenoriaeth i gyswllt 'lleol' ag Ynys Môn am gyfnod o 5 mlynedd pan fydd unigolyn(ion) yn gwneud cais am dŷ Cyngor. Fodd bynnag, nid yw'r cyswllt lleol yn golygu bod pawb sy'n ymgeisio am dŷ cymdeithasol yn siarad Cymraeg.

- Nodwyd bod 29 ysgol â statws eco-ysgol yn cynnwys 2 ysgol uwchradd. Holwyd ynglŷn â'r cynlluniau sydd ar y gweill i sicrhau bod y 3 ysgol uwchradd arall yn ennill y statws hwn.  Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc bod y Swyddog Newid Hinsawdd yn gweithio gydag ysgolion cynradd ac uwchradd ar hyd a lled yr ynys yn gysylltiedig â'r statws eco-sgolion a'r blaenoriaethau o fewn y mentrau sero net.

- Ydi'r heriau ariannol sy'n wynebu llywodraeth leol yn creu risg i berfformiad da'r Cyngor i'r dyfodol a sut mae'r Cyngor yn bwriadu lliniaru'r risg yma? Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 y bydd sefydliadau

llywodraeth leol yn wynebu heriau ariannol dirfawr dros y blynyddoedd nesaf. Bydd adroddiad ar y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cael ei drafod yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwaith a fydd yn nodi'r sefyllfa ariannol. Bydd yn rhaid i'r Cyngor leihau ei wariant os na fydd cynnydd sylweddol i ariannu'r gwasanaethau y mae'n eu darparu ar hyn o bryd. Fodd bynnag, nid yw lleihau gwariant bob amser yn golygu lleihad mewn gwasanaethau. Bydd yn rhaid i'r Cyngor ystyried darparu gwasanaethau sydd yn gost effeithiol ac ar yr un lefel ac fe allai hyn wella perfformiad mewn rhai meysydd. Dylid ystyried y targedau yn ogystal, a p'un ai a ydynt yn rhy uchel neu angen eu diwygio rhyw fymryn i gyflawni'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor. Aeth ymlaen i ddweud bod rhaid i'r Cyngor ddarparu'r gwasanaethau statudol.

- Cyfeiriwyd at y 6 ysgol sy'n derbyn cymorth ac sydd â chynllun adfer ariannol. Holwyd ynglŷn â'r cymorth y maent yn ei dderbyn. Dywedodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc bod cyfarfodydd a chymorth rheolaidd ar gael i'r ysgolion hyn a bod yr Adran Gyllid yn monitro'r cynlluniau adfer ariannol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 bod gwaith ar y gweill i gefnogi ysgolion unigol a'i bod hi'n anodd cyflawni rhai cynlluniau ariannol ymhen blwyddyn. Fe all sefyllfa ariannol ysgolion newid o un flwyddyn i'r llall wrth i fwy o blant ddechrau yn yr ysgol, sy'n gallu helpu rhai ysgolion i ddod allan o drafferthion ariannol. Fodd bynnag, pan fydd ysgolion unigol yn wynebu toriadau, darperir cymorth i sicrhau na fydd y toriadau hynny'n effeithio ar berfformiad yr ysgol.

- Mae'r adroddiad yn cynnwys y dangosydd perfformiad allweddol 'canran y strydoedd sy'n lân'. Holwyd beth y mae glân yn ei olygu yng nghyd-destun y dangosydd hwn. Dywedodd y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo bod y dangosydd perfformiad yn ymwneud â glendid strydoedd preswyl. Mae'r Safonau Cenedlaethol yn cynnwys pedwar categori, sef A i D. Mae Cadwch Gymru'n Daclus hefyd yn adolygu hylendid strydoedd yn flynyddol.

- Roedd adroddiadau blaenorol ar y cerdyn sgorio yn amlygu tueddiadau yn gysylltiedig â'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol. Holwyd a fydd gwybodaeth debyg yn cael ei chynnwys yn yr adroddiad ar gyfer y chwarter nesaf ac a oes modd cymharu'r chwarter â'r un chwarter ar gyfer y flwyddyn flaenorol. Dywedodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol y bydd yr adroddiad Ch2 yn cynnwys adran ychwanegol a fydd yn monitro'r tueddiadau ar gyfer pob chwarter. Dywedodd y bydd yn ystyried cynnwys cymhariaeth â'r un chwarter ar gyfer y flwyddyn flaenorol ond y gall gwybodaeth ychwanegol yn y cerdyn sgorio gymhlethu'r wybodaeth yn y ddogfen. Mae'r broses o ddatblygu'r Cerdyn Sgorio wedi cael ei drafod â'r Aelodau Portffolio, y Pwyllgor Gwaith a'r gwasanaethau i gadarnhau'r dangosyddion ychwanegol i fonitro perfformiad y Cyngor. Mae'r dangosyddion ychwanegol yn y Cerdyn Sgorio ar gyfer Ch1 yn seiliedig ar fesur llwyddiant yn erbyn Cynllun y Cyngor. Efallai y bydd yn rhaid addasu'r cerdyn sgorio dros y chwarteri nesaf yn ddibynnol ar yr adborth a dderbynnir.

- Mae'r cerdyn sgorio ar gyfer Ch1 yn dangos bod 1,847 o blant yn cael gwersi nofio gan Môn Actif drwy gydol y flwyddyn. Holwyd p'un ai a yw'r ffigurau'n cynnwys plant sy'n cael gwersi nofio am un tymor yn unig. Cadarnhaodd y

Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd bod y ffigwr ar y cerdyn sgorio ar gyfer un tymor yn unig.

- Cyfeiriwyd at y dangosyddion Gofal Cymdeithasol a Llesiant yn gysylltiedig â nifer y bobl hŷn (65 oed a hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal. Soniwyd am y Fforwm Dementia yng Nghaergybi ar gyfer Gofalwyr a nodwyd nad ydynt yn cael cydnabyddiaeth am y gwaith y maent yn ei wneud i gefnogi pobl â dementia. Holwyd faint o bobl sydd â Dementia ar yr ynys. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion bod nifer y bobl â Dementia ar Ynys Môn ac mewn siroedd eraill ar gynnydd. Dywedodd bod gweithgareddau tebyg yn cael eu cynnal ar hyd a lled yr Ynys. Dywedodd bod yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn cydnabod pwysigrwydd cefnogi pobl â Dementia a'u Gofalwyr, ond bod adnoddau'n brin. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn gweithio â'r Sector Gwirfoddol a'r Gwasanaeth Iechyd i gydnabod unigolion â Dementia ac i ddarparu gwasanaethau ar eu cyfer mewn cymunedau lleol.

**Ar ôl adolygu'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Ch1, 2024/2025 a nodi ymateb yr Aelod Portffolio a'r Swyddogion i'r materion a godwyd, PENDERFYNWYD:-**

- **Argymell adroddiad y cerdyn sgorio a'r mesurau lliniaru a amlinellwyd i'r Pwyllgor Gwaith.**

## 4 ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2023/24

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid, a oedd yn cynnwys yr Adroddiad Perfformiad a Llesiant Blynyddol ar gyfer 2023/2024, i'w ystyried gan y Pwyllgor.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Carwyn Jones, Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer. Dywedodd bod yr adroddiad yn nodi nifer o gyflawniadau nodedig sydd wedi cyfrannu at nifer o welliannau ac yn darparu sylfaen gadarn i gefnogi'r Cyngor er gwaetha'r heriau economaidd sydd o'i flaen. Cyfeiriodd at waith y Fforwm Iaith a nododd ei bod hi wedi bod yn bleser mynychu digwyddiad a drefnwyd gan y Fforwm yn Sioe Amaethyddol Ynys Môn ym mis Awst a bod y cydweithio i hyrwyddo'r Gymraeg yn gadarnhaol. Cyfeiriodd at y prosiectau Gofal Cymdeithasol a Llesiant, ac yn benodol at waith y gwasanaeth a'r cae 3G ym Modedern. Agorwyd trydydd Cartref Clyd er bydd ein pobl ifanc er mwyn eu galluogi i aros yn eu cymuned leol ac i sicrhau arbedion ariannol i'r Cyngor. Prosiectau Addysg – mae'r Cwricwlwm i Gymru wedi cael ei gyflwyno ym mhob ysgol ac mae systemau wedi cael eu datblygu i fesur effaith gwaith yn gysylltiedig â llesiant, cynhwysiant a lles plant, pobl ifanc a'r gweithlu. Tai – mae'r gwaith o ddatblygu Tai Gofal Ychwanegol yn Nhyddyn Mostyn , Porthaethwy yn mynd rhagddo. Yr Economi – mae'r unedau busnes ychwanegol wedi cael eu cwblhau yn Llangefni a Chaergybi. Newid Hinsawdd – buddsoddi yn ein hadeiladau i'w gwneud yn fwy effeithlon, lleihau'r ynni a ddefnyddir a lleihau allyriadau carbon y Cyngor. Diolchodd i staff y Cyngor am eu cyflawniadau a'u gwaith caled yn ystod y flwyddyn.

Wrth graffu ar yr adroddiad, codwyd y pwyntiau canlynol gan y Pwyllgor a chafwyd ymateb gan yr Aelod Portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer a'r Swyddogion.

- Mae'r adroddiad yn cyflwyno cyflawniadau nodedig sydd wedi cyfannu at nifer o welliannau ar yr Ynys. Holwyd ynglŷn â'r trefniadau i hyrwyddo a rhannu'r cyflawniadau hynny ar draws yr Awdurdod a thu hwnt. Dywedodd yr Aelodau Portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer bod Uned Gyfathrebu'r Cyngor yn gyfrifol am hyrwyddo'r cyflawniadau nodedig drwy gyhoeddi datganiadau i'r wasg a negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol. Dywedodd y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio a Pherfformiad Corfforaethol y bydd yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2023/2024 yn cael ei ystyried gan y Cyngor llawn ddiwedd y mis ac y bydd datganiad i'r wasg yn cael ei gyhoeddi i hyrwyddo cyflawniadau'r Cyngor yn ystod 2023/2024.

- Holwyd ynglŷn â'r meysydd perfformiad penodol y dylid eu blaenoriaethu ar sail risg yn ystod 2024/25. Cyfeiriodd y Rheolwr Cynllunio, Rhaglen a Pherfformiad Corfforaethol at yr Hunanasesiad Corfforaethol ar gyfer 2023/24 a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ym mis Gorffennaf. Mae'r Hunanasesiad Corfforaethol Blynyddol yn nodi'r chwe maes blaenoriaeth y bydd y Cyngor yn eu rhoi ar waith er mwyn gwella. Bydd diweddariad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ddechrau'r flwyddyn ar hynt y meysydd allweddol sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad. Wrth ymateb i'r sylwadau ynglŷn â'r meysydd perfformiad y dylid eu blaenoriaethu ar sail risg yn ystod 2024/25 dywedodd y Prif Weithredwr y bydd adnoddau ariannol y Cyngor a'r galw am wasanaethau yn ffactor risg oherwydd bod y boblogaeth yn heneiddio a'r pwysau ar y gwasanaethau plant a thai.

- Mae'r adroddiad yn trafod mai'r prif reswm dros yr oedi cyn lansio'r Porth Tenantiaid Digidol oedd gwaith uwchraddio TG ychwanegol yr oedd ei angen ar y tîm Tai. Holwyd pa ffactorau eraill (os o gwbl) a gyfrannodd at yr oedi hwn a pha ddiweddariadau cyfathrebu a ddarparwyd i denantiaid yn eu hysbysu am yr oedi cyn lansio'r porth. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai bod y gwasanaeth wedi gorfod blaenoriaethu'r gwaith o uwchraddio ei systemau a bod hynny wedi arwain at oedi wrth lansio'r Porth Tenantiaid Digidol. Cafodd y Gwasanaethau Tai gyfle i gyfrannu at y CRM Corfforaethol ac mae systemau'r Gwasanaethau Tai wedi gwella o ganlyniad. Mae'r Cyngor wedi cyfathrebu â'i denantiaid drwy'r Panel Tenantiaid Digidol a'r Fforwm Tenantiaid i'w diweddaru ynglŷn â'r oedi gyda'r porth tenantiaid digidol.

- Mae'r adroddiad yn amlygu bod y gwaith o osod pontynau glanio newydd ym Mhorth Amlwch a Phier San Siôr wedi cael ei ohirio. Holwyd ynglŷn â'r hyn a gyfrannodd at y penderfyniad hwn. Dywedodd y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd bod y gwelliannau i'r pontynau glanio wedi cael eu gohirio oherwydd bod y costau wedi cynyddu a felly roedd yn rhaid adolygu'r costau hynny. Bydd y gwaith o osod y pontŵn newydd ym Mhier San Siôr yn dechrau ddiwedd y flwyddyn ariannol. Ym Mhorth Amlwch bydd yn rhaid ystyried dyluniad mwy addas oherwydd natur y Porth. Bydd yn rhaid dod o hyd i ffynonellau cyllid eraill yn ogystal er mwyn ymorol am y costau cynnal a chadw yn y dyfodol.

- Mae'r argyfwng costau byw wedi creu heriau ariannol sylweddol i'r Cyngor. Codwyd cwestiynau ynglŷn â sut mae'r her yma'n cael ei adlewyrchu yn yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol.  Dywedodd y Prif Weithredwr mai'r Cyngor yw'r unig lwybr i bobl pan fyddant mewn caledi. Mae'r galw am wasanaethau yn cynyddu ac mae hyn yn rhoi pwysau ar adnoddau'r Cyngor.  Aeth ymlaen i ddweud y bydd y Dashfwrdd Tlodi a'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol yn amlygu'r tueddiadau pan fydd cynnydd yn y galw am wasanaeth.

- Mae'r adroddiad yn nodi tri maes sy'n tanberfformio yn erbyn y targedau a osodwyd yn ystod 2023/2024 (Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, Pobl Ifanc sydd ddim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant a'r Grant Cyfleusterau i'r Anabl). Gofynnwyd am ddiweddariad ar y dangosyddion hyn. Dywedodd y Rheolwr Cynllunio, Rhaglen a Pherfformiad Corfforaethol ei bod hi'n rhy fuan ar hyn o bryd gan fod cynlluniau'n cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â'r meysydd sy'n tanberfformio.

**Ar ôl adolygu'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2023/2024 a nodi ymatebion yr Aelod Portffolio a'r Swyddogion i'r pwyntiau a godwyd, PENDERFYNWYD:-**

- **Cytuno bod cynnwys Adroddiad Perfformiad 2023/24 yn adlewyrchiad teg a chyflawn o waith yr Awdurdod dros y cyfnod hwn ac argymell bod y Pwyllgor Gwaith yn ei fabwysiadu ar ôl ei ystyried ymhellach.**

**5 BLAEN RAGLEN WAITH**

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Sgriwtini, a oedd yn cynnwys Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/2025, i'w ystyried gan y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD cadarnhau'r fersiwn ddiweddaraf o'r Flaen Raglen Waith ar gyfer 2024/25 fel y'i cyflwynwyd.**

**CYNGHORYDD DOUGLAS FOWLIE**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

# CYNGOR SIR YNYS MÔN
## Adroddiad Sgriwtini

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 16eg Hydref 2024 |
| **Pwnc:** | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol – Adroddiad Blynyddol |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Rhoi diweddariad blynyddol i'r Pwyllgor Sgriwtini |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cynghorydd Douglas Fowlie |
| **Aelod(au) Portffolio:** | Cynghorydd Dyfed W. Jones – Plant a Theuluoedd<br>Cynghorydd Alun Roberts – Oedolion |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Fon Roberts- Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | Gethin Morgan, Pennaeth Cydweithredu Rhanbarthol<br><br>Dafydd Jones – Rheolwr Trawsnewid a Datblygu<br>01248 752394<br>DafyddJones4@ynysmon.llyw.cymru |
| **Aelodau lleol:** | Amherthnasol |

| **1 – Argymhelliad/ion** |
|---|
| **Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, yn deall ac wedi ystyried y gwaith y mae'n ofynnol i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ei wneud.**<br><br>**Bod y Pwyllgor yn nodi'r gwaith a'r cynnydd a wnaed yn 2023-24 yn feysydd gwaith sy'n cael eu datblygu drwy Fwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru.** |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall** |
|---|
| Nod Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru yw gweithio ar y cyd ar draws y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i helpu i gefnogi cymunedau gwydn a hefyd sicrhau gwasanaeth di-dor ar gyfer unigolion sydd angen gofal a chymorth.<br><br>Mae hyn yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau a nodir yng Nghynllun Cyngor newydd Cyngor Sir Ynys Môn 2023-28 - y mae un ohonynt wedi'i nodi fel 'Gofal Cymdeithasol a Lles - darparu'r cymorth cywir ar yr amser iawn'. Mae hefyd yn sail i'r Gwerthoedd da nodir yn y Cynllun newydd - Cydweithio - 'Rydym yn gweithio fel tîm, gyda'n cymunedau a'n partneriaid i gyflawni'r canlyniadau gorau i bobl Ynys Môn'. |

**3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu'r pwnc:-**

Hwn yw Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer 2022-23. Yn unol â Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mae'n rhaid i bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol baratoi, cyhoeddi a chyflwyno ei adroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru (Atodiad 1).

Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu gwybodaeth i bartneriaid am Fwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru a'i weithgareddau yn ystod 2022-23.

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

Pwrpas Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yw gwella canlyniadau a lles pobl yn ogystal â gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn narpariaeth gwasanaethau. Gellir felly disgrifio amcanion allweddol cydweithredu, partneriaeth ac integreiddio fel a ganlyn:

- Gwella gofal a chymorth, gan sicrhau bod gan bobl fwy o lais a rheolaeth
- Gwella canlyniadau ac iechyd a lles.
- Darparu gofal a chymorth cydlynol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau, sgiliau ac arbenigedd.

Pan fydd y Bwrdd yn datblygu adroddiadau, strategaethau neu ddogfennau rhanbarthol, mae swyddogion ac aelodau etholedig sy'n eistedd ar y Bwrdd yn dod â'r rhain i gyfarfodydd perthnasol o fewn eu sefydliadau eu hunain i'w cytuno'n ffurfiol. Nid oes gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol drefniadau ar gyfer craffu rhanbarthol, a gwneid hyn yn lleol.

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

Pwrpas yr Adroddiad Blynyddol yw amlinellu'r cynnydd y mae Byrddau Partneriaeth Ranbarthol wedi ei wneud ac edrych ar sut y mae'r bwrdd yn cyflawni egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

Gwelwch 5.8 isod.

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

Gweler Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (Gweler Atodiad 1)

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

1. I ba raddau mae'r Bwrdd wedi cyflawni ei flaenoriaethau allweddol ar gyfer 2023/24?

2. Mae'r adroddiad yn cyflwyno blwyddyn o lwyddiant gan y Bwrdd Partneriaeth. Pa drefniadau sydd ar waith i hyrwyddo a rhannu'r llwyddiannau?

3. Beth ydy prif flaenoriaethau allweddol y Bwrdd ar gyfer 2024/25?

4. Mae'r adroddiad yn trafod yr heriau parhaus yn wynebu'r sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol heb unrhyw arwydd bydd y sefyllfa'n newid yn sylweddol yn y tymor canol. Sut gall y Bwrdd Partneriaeth gyfrannu i liniaru rhai o'r heriau hyn?

5. I ba raddau y cafodd gwaith y Bwrdd Partneriaeth effaith uniongyrchol ar drigolion a chymunedau Ynys Môn?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

**5.1 Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Yr adroddiad hwn yw Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer 2023/24 (Atodiad 1). Mae'n ofynnol yn rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 bod pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn paratoi, yn cyhoeddi ac yn cyflwyno ei adroddiad blynyddol i Lywodraeth Cymru.

**5.2 Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?**

Bwriad yr adroddiad hwn yw rhoi gwybodaeth i bartneriaid am Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru a'i weithgareddau yn ystod 2023/24.

**5.3 Manylion yr adroddiad**

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn mynnu bod pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn cynhyrchu ac yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ei waith ac yn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Ym mis Mawrth 2018 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ganllaw ar gyfer cwblhau adroddiadau Blynyddol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ac roedd y Byrddau i ddefnyddio'r canllaw hwn ar gyfer cwblhau ei adroddiad. Mae'r adroddiad atodedig yn cynnwys yr holl wybodaeth yr oedd yn ofynnol ei chynnwys yn y Canllawiau hynny. Mae adroddiad Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi'i ysgrifennu mewn fformat sy'n cyfleu'r holl wybodaeth sy'n ofynnol.

Y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yw'r Bwrdd a sefydlwyd i fodloni gofynion Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad â'u partneriaid perthnasol ac eraill, mewn perthynas ag oedolion ag anghenion am ofal a chymorth, gofalwyr a phlant. Mae'n gosod dyletswydd ar bartneriaid perthnasol i gydweithredu, a darparu gwybodaeth i'r awdurdodau lleol at ddibenion eu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.

Mae Rhan 9 o'r Ddeddf hefyd yn cynnwys trefniadau partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol i gyflawni eu swyddogaethau. Mae'r Ddeddf hefyd yn rhoi pwerau i Weinidogion Llywodraeth Cymru wneud rheoliadau mewn perthynas â threfniadau partneriaeth ffurfiol, adnoddau ar gyfer trefniadau partneriaeth (gan gynnwys cronfeydd cyfunol) a byrddau partneriaeth.

Pwrpas Rhan 9 y Ddeddf yw gwella canlyniadau a lles pobl, yn ogystal â gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ddarparu gwasanaethau. Felly, gellir disgrifio amcanion allweddol cydweithredu, partneriaeth ac integreiddio fel a ganlyn:

- Gwella gofal a chymorth, gan sicrhau bod gan bobl fwy o lais a rheolaeth
- Gwella canlyniadau ac iechyd a lles
- Darparu gofal a chymorth cydlynol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau, sgiliau ac arbenigedd.

Pwrpas yr adroddiad Blynyddol yw nodi'r cynnydd y mae Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi'i wneud ac mae'n ystyried sut mae'r bwrdd yn cyflawni egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**5.4 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Bydd gweithio mewn partneriaeth ar draws y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn helpu i gefnogi cymunedau gwydn a hefyd yn sicrhau gwasanaeth di-dor ar gyfer unigolion sydd angen gofal a chefnogaeth.

**5.5 Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae'r 6 Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd PBC yng Ngogledd Cymru yn cronni cyllid i gefnogi gweithio rhanbarthol ar draws y Rhanbarth. Mae hyn hefyd yn ariannu'r Tîm Cydweithio Rhanbarthol ac mae cytundeb partneriaeth ffurfiol i ategu hyn.

Drwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, mae Llywodraeth Cymru yn sianelu ffrydiau ariannu grantiau megis y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r cronfeydd cyfalaf Tai â Gofal ac Integreiddio ac Ail-gydbwyso. Lle mae'n bosibl codi tâl gweithgaredd partneriaeth rhanbarthol ar y grantiau hyn, mae hyn yn cael ei weithredu.

**5.6 Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?**

Nid oes asesiad effaith llesiant cyffredinol wedi'i gwblhau ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol ond bydd Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'u cwblhau ar gyfer yr elfennau unigol a gynhwysir ynddo.

**5.7 Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?**

Bydd yr aelodau'n ymwybodol o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a byddant wedi cael gwybodaeth am Ran 9 o'r Ddeddf a datblygiad Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Ni fu unrhyw ymgynghori ffurfiol, ac eithrio gydag aelodau o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol sy'n cynnwys ystod eang o aelodaeth ac sy'n cynnwys dinasyddion a gofalwyr.

**5.8 Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Y risg yw sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a gyda'r Canllawiau ar adroddiadau blynyddol y bwrdd partneriaeth

| |
|---|
| rhanbarthol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2018 wrth gynhyrchu'r adroddiad blynyddol. Y prif risg yw bod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn gallu mynd ymlaen gyda'r amrywiol ofynion fel sy'n ofynnol yn Rhan 9 o'r Canllawiau, a bod y bartneriaeth yn datblygu er mwyn galluogi gweithio ymhellach mewn partneriaeth ac integreiddio gwasanaethau yn y dyfodol.<br><br>**5.9 Pŵer i wneud y Penderfyniad**<br><br>Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, Rhan 9 |

| **6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| Does dim Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gynnal ar gyfer y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol |

| **7 – Oblygiadau Ariannol** |
|---|
| Gwelwch baragraff 5.5 uchod. |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Atodiad 1 – Adroddiad Blynyddol |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Dim papurau cefndir eraill. |

BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL
**GOGLEDD CYMRU**
**NORTH WALES**
REGIONAL PARTNERSHIP BOARD

# Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

## Adroddiad blynyddol

## 2023 - 2024




Mae'r adroddiad hwn wedi'i lunio i fodloni'r gofynion a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

## Cynnwys

1. Rhagair gan gadeirydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (BPRhGC) 3

2. Uchafbwyntiau a chyflawniadau yn ystod y flwyddyn 4

3. Rôl, pwrpas ac aelodaeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru 10

4. Gofynion cyfreithiol a chyfeiriad strategol 12

5. Trefniadau Partneriaeth a Llywodraethu 21

6. Partneriaethau integredig a chyfrannu at well canlyniadau 24

7. Darpariaethau Statudol 27

8. Blaenoriaethau'r Bwrdd wrth symud ymlaen: 28

Atodiad 1 – Aelodaeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru 42

Atodiad 2: Mesurau Perfformiad Fframwaith RIF Cymru Gyfan 45

# 1. Rhagair gan gadeirydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (BPRhGC)



Cyng Dilwyn Morgan,
Cadeirydd BPRhGC
Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Lles, Cyngor Gwynedd

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Blynyddol 2023-24 sef yr un cyntaf i mi fel Cadeirydd presennol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru. Gyda'n gilydd, rydym yn parhau i gydweithio i wella ein gwasanaethau a galluogi pobl yng Ngogledd Cymru i fyw y bywydau gorau y gallan nhw.

Mae'r adroddiad hwn yn amlygu rhywfaint o'r gwaith mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi'i gyflawni i wella bywydau pobl sy'n byw yng Ngogledd Cymru. Hoffwn ddiolch i bawb sy'n ymwneud â'n gwaith am eu hymrwymiad i gydweithio i ddarparu gwasanaethau di-dor sy'n canolbwyntio ar anghenion cymunedau lleol.

Mae yna gymaint i'r Bwrdd a'i bartneriaid ymfalchïo ynddo eleni ac weithiau gallwn golli golwg o'r pethau da a wnaed. Mae'r adroddiad hwn felly yn ffordd dda o'n hatgoffa i gyd o'r hyn a gyflawnwyd gyda'n gilydd yn ystod y 12 mis diwethaf.

Mae'n parhau i fod yn gyfnod heriol i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol ac ymddengys nad oes unrhyw newid ar y gorwel wrth i ni symud i 2024/25. Mae hyd yn oed yn fwy hanfodol ein bod yn parhau i gydweithio i ymdrin â'r materion hyn ac i adeiladu ar y gwaith rhagorol a gyflawnwyd eisoes.

Yn ogystal â'n Hadroddiad Blynyddol, mae gwybodaeth bellach ar gael drwy ymweld â'n gwefan https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/bwrdd-partneriaeth-rhanbarthol-gogledd-cymru/

Un o fy mhrif flaenoriaethau fel Cadeirydd yw ceisio codi ymwybyddiaeth am waith y Bwrdd drwy glywed a rhannu straeon iechyd a gofal cymdeithasol yn uniongyrchol gyda phobl Gogledd Cymru. Rwy'n gwybod yn iawn fod straeon yn gallu bod yn bwerus ac yn cyffwrdd, ond rwy'n credu ei bod yn bwysig mynd y tu hwnt i gyffwrdd yn emosiynol, i symud i weithredu drwy ddysgu a datblygu. Credaf fod hyn yn cael ei gyflawni orau drwy drafod ar y cyd a meddwl gyda'n gilydd a sicrhau fod pobl Gogledd Cymru yn gwybod am ein gwaith, fydd gyda llawer mwy o fewnbwn i gyd-ddylunio gwasanaeth yn y pen draw yn ein galluogi i gyflawni'r deilliannau sydd o bwys iddyn nhw.

Yn olaf, ar ran fy nghydweithwyr BPRh, hoffwn ddiolch i bawb sydd wedi cefnogi gwaith y BPRh yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Gyda'n gilydd gallwn gyflawni deilliannau sy'n llawer mwy na'r hyn y gallwn ei wneud ein hunain.

Dymuniadau gorau,
Cyng Dilwyn Morgan,

## 2. Uchafbwyntiau a chyflawniadau yn ystod y flwyddyn

Cyhoeddodd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (BPRhGC) ei Gynllun Ardal Rhanbarthol ym mis Ebrill 2023. Mae hwn yn nodi sut y bydd partneriaid yn cydweithio i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac ymateb i ganfyddiadau Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru ac Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad. Cyhoeddodd y bwrdd hefyd ddiweddariad i Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad.

Prif ffocws y cynllun yw sut mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn rhoi blaenoriaeth i weithio mewn ffordd integredig rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar sail ranbarthol, ar gyfer y grwpiau poblogaeth:

- Plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth
- Pobl hŷn gan gynnwys pobl sydd â dementia
- Pobl ag anableddau dysgu ac anhwylderau niwroddatblygol.
- Gofalwyr di-dâl
- Pobl ag anghenion lles emosiynol ac iechyd meddwl

Cafodd cynnydd yn erbyn y cynllun ei rannu drwy gydol y flwyddyn mewn cyfarfodydd BPRh ac mae cynllun diwygiedig wedi'i gynnwys o dan bwynt 8 yn yr adroddiad hwn.

**Y Gronfa Integreiddio Ranbarthol**

Mae Cronfa Integreiddio Ranbarthol Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gronfa bum mlynedd (Ebrill 2022 - Mawrth 2027) i gefnogi integreiddio a gweithio mewn partneriaeth ar gyfer y grwpiau poblogaeth blaenoriaeth a nodir uchod.

Mae BPRhGC wedi arwain ar ddatblygu a gweithredu'r Gronfa.

Mae rhaglen Cronfa Integreiddio Ranbarthol Gogledd Cymru 2023/24 yn cynnwys 35 cynllun ar draws y 6 Model Gofal cenedlaethol.

Cyfanswm y buddsoddiad i'r cynlluniau a'r gwasanaethau (ac eithrio costau isadeiledd a rheoli rhaglen) am y flwyddyn yw £57,169,751

Mae hyn yn cynnwys £29,705,054 gan Lywodraeth Cymru a £27,464,697 o gyllid craidd partneriaid.

Mae £5,413,163 wedi'i fuddsoddi mewn cynlluniau sy'n cefnogi gofalwyr di-dâl yn uniongyrchol. Buddsoddir £5,671,244 mewn cynlluniau gwerth cymdeithasol.

Mae pob cynllun yn adrodd yn erbyn set o ddangosyddion perfformiad Cymru Gyfan (Atodiad 2).

**Gogledd Cymru Gyda’n Gilydd: Gwasanaethau di-dor ar gyfer pobl sydd ag anableddau dysgu**

Mae Gogledd Cymru Gyda’n Gilydd yn brosiect a ariennir drwy’r Gronfa Integreiddio Ranbarthol, sy’n cefnogi pobl a sefydliadau i sicrhau bod pobl sydd ag anableddau dysgu yn gallu byw bywyd da.   Mae’r tîm yn gweithio gyda nifer o bobl a sefydliadau gwahanol i ddarganfod beth sy’n gweithio’n dda, a sut y gallwn ni gefnogi newidiadau pan fo eu hangen.

Mae’r cynnydd yn ystod 2023/24 yn cynnwys:

- datblygu strategaeth Cyflogaeth â Chymorth Ranbarthol ac yn yr ardal ganolog, treialu model sy'n cefnogi pobl ag anableddau dysgu i gael mynediad at waith â chyflog. Cyflwynir y model hwn ar draws y rhanbarth yn 24/25;
- 1 i 1, cefnogaeth hwb a hyfforddiant hygyrch wedi'i gynllunio i godi ymwybyddiaeth o dechnoleg ar gyfer y rhai ag anableddau dysgu a'r gweithlu sy'n eu cefnogi;
- gweithio gyda chydweithwyr ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gynllun gweithredu integredig Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol;
- ariannu swydd rheoli prosiect yn is-adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu BIPBC i fwrw ymlaen â’r gwaith o ailgynllunio gwasanaethau nyrsio preswyl presennol. Byddai hyn yn galluogi gofal yn nes at y cartref i bobl ag anghenion cymhleth. Llety wedi'i ddatblygu i Ddwyrain a Gorllewin y rhanbarth gyda lleoliadau ar gael 24/25;
- comisiynu gweithgareddau i Oedolion, Plant ag anableddau dysgu a'u teuluoedd;
- datblygu pecyn cymorth Taliadau Uniongyrchol a hyrwyddo Taliadau Uniongyrchol
- comisiynu gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn seiliedig ar y trydydd sector ar gyfer pobl ifanc a'u teuluoedd sy'n cael profiad o drosglwyddo i wasanaethau oedolion.
- Comisiynu a chyd-ariannu prosiect gwiriadau iechyd a sgrinio a arweinir gan gymheiriaid.

**Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i Blant**

Gan ei fod yn un o’r grwpiau poblogaeth â blaenoriaeth, ffurfiwyd is-grŵp Plant ym mis Ionawr 2022 gyda’r bwriad o adolygu a diwygio’r strwythur llywodraethu cysylltiedig. Fe’i mabwysiadwyd i ddatblygu a gweithredu ffrydiau gwaith er mwyn diwallu anghenion Plant a Phobl Ifanc ag anghenion cymhleth ar draws y rhanbarth.

Cytunwyd ar strwythur llywodraethu diwygiedig yn ystod y flwyddyn a chafodd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Plant newydd ei weithredu ym mis Ionawr 2024.  Mae'r strwythur yn cynnwys Bwrdd Trawsnewid Rhanbarthol Plant, i roi tryloywder o ran pa raglenni sy'n cael eu darparu, osgoi unrhyw ddyblygu a gweithio i'r egwyddorion yn fframwaith NYTH/NEST.

Roedd yr adolygiad llywodraethu yn gam adfyfyriol i bartneriaid, gan ganiatáu iddynt adolygu eu blaenoriaethau fel rhan o'r broses o weithredu’r llwybr cywir. O'r herwydd, mae gan bob ardal isranbarthol, er bod ganddynt themâu cyffredin, ffocws ychydig yn wahanol erbyn hyn ar gyfer y cam nesaf yn eu darpariaeth. Ym mhob un o’r tri maes mae ffocws penodol ar ddarparu cymorth i’r rhai sy’n niwroamrywiol ac sydd naill ai ar y rhestr aros am ddiagnosis neu sydd wedi cael diagnosis.

Mae ardal y Dwyrain wedi cytuno i ganolbwyntio ar y plant a'r bobl ifanc hynny sy'n trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Mae'r ardal ganolog yn canolbwyntio ar 0-7 oed.

Yn y Gorllewin, mae Gwynedd a Môn yn gweithio ar wahanol garfanau, gan flaenoriaethu niwroamrywiaeth hefyd.

- Ffocws Ynys Môn yw ymyrraeth gynnar ac atal ac mae'n cyflwyno Teulu Môn i gyflwyno dull Tîm Amlddisgyblaethol yn seiliedig ar y 5 ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd ym mhob dalgylch.

- Mae Gwynedd yn canolbwyntio ar achosion cymhleth, ac wedi sefydlu tîm amlddisgyblaethol gydag ethos ataliol i gefnogi plant a phobl ifanc, gyda'r nod o'u hatal rhag mynd i ofal lle y bo'n bosibl.

Bydd y ffocws gwahanol yn galluogi'r gwaith i nodi'r heriau a'r cyfleoedd a wynebir gan y carfannau hyn, gan rannu arfer da ar draws y rhanbarth.

Yn ogystal â'r adolygiad, yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd gweithdai cyd-gynhyrchu ac adrodd straeon a, thrwy gyfres o ymarferion creadigol a chyfranogol, cafwyd cyfnod bywiog a chyfoethog o drafod:

- Sefydlwyd y dylai gwerthoedd ac egwyddorion arweiniol danategu a llywio pob agwedd ar y gwaith wrth symud ymlaen.
- Cyd-ddiffiniwyd cenhadaeth y byrddau.
- Cyflwynwyd dulliau dysgu deialog er mwyn darparu ffordd ddifyr ac ymarferol o ddod â straeon yn fyw.
- Adolygwyd a chadarnhawyd y meysydd blaenoriaeth ar gyfer rhaglen waith 2 flynedd.

**Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol**

Nod yr hwb yw cydlynu gweithgareddau ymchwil, arloesi a gwella iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn cefnogi gwaith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru a'i bartneriaid.

Mae uchafbwyntiau 2023-24 yn cynnwys y canlynol -

- Casglu tystiolaeth a dod â phobl ynghyd i ddod o hyd i ddatrysiadau i broblemau cymhleth, gan gynnwys: Rhwydwaith Defnyddwyr RITA i drafod defnyddio technoleg hel atgofion ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia; ffyrdd o ddefnyddio technegau cyd-gynhyrchu ac adrodd straeon i wella gwasanaethau a gweithio mewn partneriaeth; a gwella cymorth i blant a phobl ifanc â chyflyrau niwroddatblygiadol.
- Gwella mynediad at dystiolaeth drwy ddarparu mewnwelediad i ystadegau ac ymchwil ar gyfer sawl pwnc, yn amrywio o niwroamrywiaeth a dementia i Ddeallusrwydd Artiffisial a wardiau rhithwir.
- Cychwyn gwaith ar gyfer y Bwrdd Digidol, Data a Thechnoleg o dan themâu –
  - cael y pethau sylfaenol yn iawn

    - arloesi
    - cynhwysiant digidol
    - cofnodion iechyd a gofal integredig.

  Roedd hyn yn cynnwys mapio prosiectau digidol ar draws y rhanbarth.

- Darparu cymorth ymchwil gan gynnwys sesiynau cyngor ac awgrymiadau astudiaethau achos a fframwaith caniatâd a moeseg ar gyfer y Gronfa Integreiddio Ranbarthol; dylunio dangosfwrdd i fesur cynnydd rhanbarthol yn erbyn Cod Ymarfer Awtistiaeth; a dadansoddi cannoedd o ymatebion meddylgar i Ymgyrch Gwrando ar Ddementia ar draws chwe thref yng Ngogledd Cymru.

I gael mwy o wybodaeth, dilynwch yr hwb ar Twitter/X @_NW_RICH, cofrestrwch ar gyfer ein newyddlen ac ewch i weld tudalennau gwe hwb CARh.

**Cronfa Ddatblygu a Chynllun Cyfalaf Strategol**

Yn ystod y flwyddyn datblygodd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru Gynllun Cyfalaf Strategol 10 mlynedd sy’n dwyn ynghyd –

- Iechyd
- gofal cymdeithasol
- tai
- y trydydd sector
- addysg
- partneriaethau adfywio

i ddatblygu cyfleusterau darparu gwasanaeth integredig a datrysiadau integredig sy’n seiliedig ar lety.

Fel rhan o ddatblygiad y Cynllun Cyfalaf Strategol, mae’r tîm rhanbarthol wedi datblygu offeryn blaenoriaethu sydd ar gael i bartneriaid er mwyn cynorthwyo gyda’r broses, gan alluogi partneriaid i gyflwyno cynlluniau bob chwarter i geisio cymeradwyaeth gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

Mae pob prosiect yn mynd drwy broses 5 cam sy'n cynnwys blaenoriaethu’r cynllun, ac os caiff ei gymeradwyo bydd yn symud ymlaen i ddatblygu achos busnes a cheisiadau a chyflawni'r prosiect, yn amodol ar ddyfarnu cyllid.

Cwblhawyd Cynllun Cyfalaf Strategol y rhanbarth ym mis Gorffennaf 2023, gyda 35 o gynlluniau â blaenoriaeth yn cael eu cymeradwyo gan y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Cafodd prosiectau eu datblygu ar draws iechyd a gofal cymdeithasol.

Amcangyfrifir mai cyfanswm gwerth y cynlluniau â blaenoriaeth hyn yw £440m, a rhagwelir y bydd angen £303m o gyllid LlC.

Yn ogystal, dyfarnwyd £3m o gyllid pellach yn ystod y flwyddyn i gefnogi cynlluniau ar wahanol gamau, o barhad datblygiad achos busnes i’r cam caffael, adnewyddu ac adeiladu cyfleusterau newydd.

Roedd y prosiectau y dyfarnwyd cyllid iddynt yn cynnwys -

- Datblygu hwb integredig yng ngorllewin Conwy (symud ymlaen i'r cam achos busnes nesaf),
- gofal yn nes at y cartref ar draws y rhanbarth
- adnewyddu lleoliadau gofal ychwanegol yn Sir Ddinbych
- canolfannau dementia ar draws y rhanbarth
- byw â chymorth i bobl ag anableddau dysgu yng Nghonwy a Sir y Fflint a
- chartrefi gofal i blant ar draws y rhanbarth.

Bydd y cynlluniau hyn yn cynorthwyo pobl i fyw'n annibynnol yn hirach, yn rhyddhau gwelyau mewn ysbytai ac yn darparu gwell darpariaeth gwasanaeth ar draws rhanbarth Gogledd Cymru.

**Ystyriaethau radical gyda'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol**

> "Mae bod yn wirioneddol radical yn golygu gwneud gobaith yn bosibl yn hytrach nag anobaith yn argyhoeddedig"
> Raymond Williams

Archwilio syniadau radical a allai helpu i fynd i'r afael â heriau sy'n wynebu iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol wedi cael ei gynnal yn ystod y flwyddyn. Ar ôl gwylio llwyth o TED Talks, darllen llyfrau ac erthyglau llawn ysbrydoliaeth, daeth i'r amlwg mai'r lle gorau i ddechrau yw dwyn pobl ynghyd.

Dechreuodd y gweithdy cyntaf drwy ddiffinio ystyriaethau radical - mae'n ymwneud ag amharu, arloesi, cymryd risg, angerdd ac effaith. Bu i ni drafod nad yw bod yn 'radical' yn ddiwedd ynddo'i hun gan y gallai achosi niwed yn ogystal â budd i bobl. I liniaru hyn, bu i ni lunio cyfres o egwyddorion arweiniol o ran sut a ble y gellir bod yn radical yn bwrpasol er gwell. Mae hyn yn cynnwys **casglu straeon** gan y rhai sydd â phrofiad bywyd er mwyn hysbysu dyluniad a darpariaeth gwasanaethau, **trefnu sgyrsiau** i gysylltu â'r holl bartneriaid sydd â diben a rennir yn yr heriau ar y cyd, archwilio ffyrdd newydd o wneud mwy gyda'r **cyllid a'r adnoddau** sydd ar gael, rhoi **caniatâd i bobl weithredu**, a **rhannu cyfrifoldeb** rhwng aelodau'r bwrdd.

**Cymunedau sy'n Gyfeillgar i Ddementia**

Dechreuodd cynllun cydnabyddiaeth ac achrediad Cymunedau sy'n Gyfeillgar i Ddementia Gogledd Cymru ar 1 Ionawr 2024 ar ôl i gynllun y Gymdeithas Alzheimer ddod i ben ar 31 Rhagfyr 2023.

Mae 6 Chyngor Gwirfoddol Sirol, 6 Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda'i gilydd gyda chefnogaeth y Tîm Cefnogi Busnes BPRh a'r Rheolwr Prosiect Dementia Rhanbarthol i ddarparu Cynllun Cymunedau sy'n Gyfeillgar i Ddementia Gogledd Cymru.

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych (CGGSDd) yw'r partner Cyngor Gwirfoddol Sirol arweiniol oherwydd yr ystod o wybodaeth a phrofiad sydd ganddynt. Mae CGGSDd yn darparu cyngor a chefnogaeth i bartneriaid a bydd yn rhan o'r panel asesu achrediad. Er hynny, bydd y 6 Chyngor Gwirfoddol Sirol (CGS) yn darparu cyngor ac arweiniad ar gyfer Cymunedau sy'n Deall Dementia newydd a sefydlwyd gan gynnwys rhedeg digwyddiadau ymgynghori, cyfarfodydd a chefnogaeth gyda sut i lunio cyfansoddiad a sefydlu rhwydweithiau Cymunedau sy'n Deall Dementia.

Yn ogystal, bydd y partneriaid Awdurdod Lleol hefyd yn darparu gwybodaeth a chefnogaeth i

Gymunedau sy'n Deall Dementia presennol a rhai sydd newydd eu sefydlu.  Yn ogystal â darparu cefnogaeth i rwydweithiau Cymuned sy'n Deall Dementia ar draws y sir, bydd yn rhan o'r panel asesu achrediad.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cytuno i fod yn rhan o'r panel asesu achrediad.  Mae'r tîm Cefnogi BPRh yn darparu cefnogaeth rheoli prosiect a gweinyddol ar gyfer y broses dogfennau asesu ac ymgeisio a hefyd yn rhan o'r paneli asesu achrediad a rhwydweithiau a fforymau Cymunedau sy'n Deall Dementia rhanbarthol.

Mae'r fenter Cymunedau sy'n Deall Dementia ar y trywydd i ddechrau cam 2 ym mis Mehefin 2024, fydd yn datblygu cynllun Gogledd Cymru ymhellach drwy nodi unrhyw fylchau a rhwystrau i atal y cynllun newydd rhag datblygu.   Bydd grŵp ymgynghori yn cael ei sefydlu, ynghyd â digwyddiadau yn cael eu cynnal gyda phobl sy'n byw gyda dementia i adolygu cynnydd cynllun y rhanbarth a chydgynhyrchu cynllun gwell.

# 3. Rôl, pwrpas ac aelodaeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

## Datganiad o weledigaeth

Gwella iechyd a lles pobl a chymunedau gyda’n gilydd

## Egwyddorion arweiniol

Cytunodd BPRhGC ar ei egwyddorion arweiniol ym mis Tachwedd 2016 ac mae’r rhain yn parhau i fod yn addas i’r diben:

- Newid y system gyfan ac ail-fuddsoddi adnoddau i fodel ataliol sy’n hyrwyddo iechyd a lles da, ac sy’n defnyddio tystiolaeth o'r hyn sy’n gweithio orau yn effeithiol
- Mae gofal yn cael ei ddarparu mewn dulliau cydlynol sy’n canolbwyntio ar anghenion, dewisiadau, ac asedau cymdeithasol pobl (defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr a chymunedau)
- Mae pobl yn cael eu galluogi i ddefnyddio eu hyder a'u sgiliau i fyw’n annibynnol, gan dderbyn cefnogaeth gan ystod o ddewisiadau o ansawdd uchel yn y gymuned
- Ymgorffori cydgynhyrchu yn y broses o wneud penderfyniadau er mwyn i ddinasyddion a’u cymunedau lunio’r gwasanaethau;
- Rydym yn cydnabod yr ystod eang o ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd a lles a phwysigrwydd cysylltiadau â'r meysydd hyn (gan gynnwys addysg, tai, lles, lleihau digartrefedd, twf economaidd, adfywio, hamdden a'r amgylchedd).

## Rôl BPRhGC

Mae ein Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) yn cynnwys cynrychiolwyr o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Môn, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, tai, y trydydd sector a’r sector annibynnol, cynrychiolwyr gofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth.

Rydym yn gweithio gyda’n poblogaeth, yn cydnabod ei amrywiaeth a chydweithwyr ar draws ein rhanbarth i wella iechyd a lles pawb sy’n byw yng Ngogledd Cymru.

Rydym yn rhannu adnoddau, sgiliau a gwasanaethau i sicrhau fod pobl yn gallu cael mynediad i’r gwasanaeth cywir, yn y lle cywir, ar yr amser cywir, fel y gallwch wneud y pethau sydd o bwys mwyaf i chi, yn ystod pob cam o’ch bywyd.

Adolygir Cylch Gorchwyl Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru yn flynyddol, ond mae rôl y Bwrdd yn aros yr un fath sef:

- Sicrhau bod cydweledigaeth gytunedig a chyfeiriad clir o ran datblygiad y gwasanaeth ac integreiddiad iechyd, gofal a lles
- Sicrhau bod cynlluniau a rennir a strategaethau ar waith (wedi’u cefnogi gan achosion busnes priodol) i gyflawni’r weledigaeth

- Sicrhau bod y cynlluniau strategol yn cael eu gwerthuso a'u hadolygu yn erbyn y canlyniadau a dangosyddion perfformiad cytunedig a dealladwy
- Arwain ymagwedd strategol at gyfathrebu a hyrwyddo'r cyfeiriad y symudir iddo a'r cynnydd a wnaed
- Sicrhau y cedwir at egwyddorion y Bwrdd
- Cynnal trosolwg effeithiol o'r adnoddau a ddyrannwyd
- Adrodd i'r Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol ar gynnydd, materion allweddol ac eithriadau, gan uwchgyfeirio unrhyw rwystr i gynnydd o fewn y Bwrdd er mwyn eu datrys
- Sicrhau bod adroddiad blynyddol ar gynnydd yn cael ei baratoi a'i gyflwyno yn unol â gofyniad Llywodraeth Cymru.

Mae aelodaeth BPRhGC (ar ddiwedd mis Mawrth 2024) i'w gweld yn Atodiad 1.

Rheolir busnes Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru a'r is-grwpiau rhanbarthol gan y Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol ac aelodau Tîm Cydweithio Rhanbarthol Gogledd Cymru.

# 4. Gofynion cyfreithiol a chyfeiriad strategol

Gosodir gofynion y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol allan yn Rhan 9 y Canllawiau Statudol (Trefniadau Partneriaeth); mae'r adroddiad blynyddol hwn hefyd yn cynnwys elfennau penodol sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru i'w cynnwys yn ei adroddiad blynyddol.

Yn unol â gofynion y Ddeddf, yn ystod 2023-24 parhaodd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i ddatblygu ei ddulliau gwaith o ran gwasanaethau integredig yn y meysydd blaenoriaeth canlynol:

- Pobl hŷn gydag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, gan gynnwys dementia
- Pobl ag anableddau dysgu
- Gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc
- Gwasanaethau Cefnogi Teuluoedd Integredig
- Plant ag anghenion cymhleth oherwydd anabledd neu salwch.

## Cynllun Ardal Gogledd Cymru

Mae'r Cynllun Ardal yn pennu'r meysydd blaenoriaeth ar gyfer integreiddio gwasanaethau rhwng iechyd a gofal cymdeithasol ac mae hyn yn gosod y cyfeiriad i'r Bwrdd. Mae'r Cynllun Ardal yn nodi sut y bydd y rhanbarth yn ymdrin â'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd yn yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth, sef yr edefyn aur sy'n dal i gysylltu meysydd gwaith penodol yn y rhanbarth. Rydym yn ychwanegu gwerth pan fyddwn yn dod â phartneriaid ynghyd i fynd i'r afael â materion neu gyflwyno newid na all yr un sefydliad fynd i'r afael ag ef ei hun.

## Pobl hŷn gydag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, gan gynnwys dementia

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i flaenoriaethu integreiddio gwasanaethau pobl hŷn gydag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, yn cynnwys dementia. Mae cefnogaeth i bobl sy'n byw gyda dementia yn flaenoriaeth i Gynllun Rhanbarthol BPRhGC.

Mae Strategaeth Ddementia Gogledd Cymru yn darparu cyfeiriad o'r fath. Mae'n nodi sut y byddwn yn darparu'r Cynllun Gweithredu Dementia (CGD) drwy ddatblygu gwasanaethau dementia integredig. Datblygwyd y strategaeth ar y cyd gan y chwech Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) gyda chefnogaeth gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, Prifysgol Bangor a defnyddwyr gwasanaeth dementia a gofalwyr yn ogystal â phartneriaid eraill. Mae yna 31 o gamau o fewn strategaeth Gogledd Cymru.

<u>Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia</u>

Yn 2018 cyflwynodd Llywodraeth Cymru Gynllun Gweithredu Dementia Cymru gyfan (DAP) ac mae Gogledd Cymru yn derbyn ychydig dros £2.1miliwn o gyllid DAP i gefnogi gwaith partneriaeth integredig ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia Mae'r cyllid DAP yn rheolaidd ac wedi cael ei glustnodi.

Llwybr Safonau Gofal Dementia Cymru Gyfan

Yn 2020, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Lwybr Gofal Dementia Cymru Gyfan o Safonau i gynnig cefnogaeth i ddarparu'r Cynllun Gweithredu Dementia (DAP). Datblygwyd y safonau yn dilyn ymgynghori â phobl sy'n byw â dementia, sefydliadau trydydd sector a'r sector gwirfoddol a gweithwyr proffesiynol gofal iechyd, i ddynodi beth mae pobl sy'n byw â dementia yn feddwl fydd yn gwneud newid cadarnhaol i ofal dementia.

Mae yna 20 o safonau ac mae Gwella Cymru yn arwain ar y gwaith hwn yn genedlaethol.

Gwella Llwybr Cymorth Cof (LICC)

Yn 2021, roedd Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod yna amseroedd aros sylweddol ar gyfer clinigau'r cof ar draws Cymru oherwydd materion gallu a phroses ac felly roedd cyllid Gwasanaeth Asesu'r Cof (MAS) ar gael i wella Llwybr Cefnogi'r Cof. Mae Gogledd Cymru yn derbyn £678k o gyllid. Mae'r llwybr yn cynnwys darparu cyngor a chefnogaeth cyn-asesu, amseroedd asesiad clinigol a diagnosis gwell a darparu cyngor a chefnogaeth yn dilyn diagnosis. Gweledigaeth y llwybr yw tegwch a mynediad hawdd i holl breswylwyr Gogledd Cymru. Mae'r cyllid yn rheolaidd ac wedi cael ei glustnodi.

Cymunedau sy'n Deall Dementia


Yn 2023 gwnaeth y Gymdeithas Alzheimer gyhoeddi eu bod yn dod â'r cynllun Cymunedau sy'n Deall Dementia ar draws y DU i ben ym mis Rhagfyr 2023. Roedd BPRhGC wedi gweithio i ddatblygu cynllun cydnabyddiaeth ac achrediad rhanbarthol i sicrhau y gall Cymunedau sy'n Deall Dementia barhau yng Ngogledd Cymru. Roedd cynllun BPRhGC wedi dechrau ym mis Ionawr 2024.

Mae'r gwaith dementia rhanbarthol yn cael ei reoli drwy bartneriaeth yn gwneud penderfyniadau ac yn cael ei ddarparu drwy grwpiau gweithredol a strategol rhanbarthol. Mae'r gwaith yn cael ei arwain gan Reolwr Prosiect Dementia Rhanbarthol a ariannwyd gan DAP a'r Rheolwr Gwella MAS Rhanbarthol a ariannwyd gan MAS.

## Strategaeth Anabledd Dysgu Gogledd Cymru

Sylfaen y rhaglen yw Strategaeth Anableddau Dysgu Gogledd Cymru.  Mae'r strategaeth yn cael ei rhoi ar waith gan y tîm drwy 6 ffrwd waith: Strwythurau integredig, datblygu'r gweithlu, comisiynu a chaffael, newid cymunedol a diwylliannol, technoleg gynorthwyol a chyflogaeth.



## Comisiynu

Mae Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol Gogledd Cymru yn cefnogi ac yn ategu datblygiad a'r arfer o gomisiynu strategol ar draws Gwasanaethau Cymdeithasol ac Iechyd yng ngwasanaethau Oedolion a Phlant yng Ngogledd Cymru gan adnabod arferion gorau a darparu ymagwedd strategol gyson ar draws y rhanbarth.

### Ffioedd Gofal Rhanbarthol

Mae Ffioedd Gofal Rhanbarthol yn ddarn o waith parhaus ar gyfer y Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol ac er bod yna ffi ranbarthol a argymhellwyd wedi'i gymeradwyo ar gyfer 2023/24, roedd newidiadau lleol yn anochel, ond roedd yn hanfodol fod y grŵp yn gallu adrodd yn ôl i'r Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol ynglŷn â'r rhesymau busnes pam bod rhai ALI yn gwyro i allu cael darlun cywir o beth yw'r gost ar gyfer darparu gofal mewn cartref gofal yng Ngogledd Cymru.

Mae awdurdodau lleol Gogledd Cymru a BIPBC i gyd o dan bwysau ariannol sylweddol. Wrth symud ymlaen, mae trafodaethau wedi bod yn parhau am osod ffioedd yn y dyfodol ac i ddeall a oes yna ddymuniad i gael methodoleg ffi ranbarthol. Mae hyn wedi bod yn gadarnhaol ac mae trafodaethau yn y camau cynnar o'r fethodoleg a ddefnyddiwyd a'r gefnogaeth i ddarparwyr ar gyfer ymarfer 'gadewch i ni gytuno i gytuno' llawn a chynhwysfawr.

### Cytundeb Gofal Cartref Gogledd Cymru

Cafodd y Cytundeb Gofal Cartref Gogledd Cymru presennol ei sefydlu yn 2019 ac mae'n weithredol tan 31 Mawrth 2025.

Ar gyfer adnewyddu'r Cytundeb (yn weithredol o 1 Ebrill 2025), mae cwmpas y gwasanaethau sy'n cael eu tendro nawr yn cael ei ymestyn i gynnwys gofal cartref safonol a chymhleth / estynedig ar gyfer plant a phobl ifanc, nad oes gan y cytundeb presennol o fewn cwmpas.

Bydd y gwasanaethau hyn yn cael eu tendro drwy wahoddiad i dendro 'Agored' yn yr haf 2024.

### Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad

Rydym wedi cyhoeddi ein Hadroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad cyntaf sy'n cynnwys gwybodaeth am argaeledd gofal a chefnogaeth ar draws y rhanbarth.

Mae'r Cod Ymarfer MSR yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol weithio gyda phartneriaid BPRh i adolygu'r adroddiad yn rheolaidd o leiaf yn flynyddol ac i gyhoeddi unrhyw newidiadau sylweddol fel adroddiad diwygiedig neu
atodiad.

Roedd y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi cytuno i'r adolygiad llai manwl ym mis Gorffennaf 2023 ac ers yr amser hwn, mae aelodau'r grŵp llywio wedi adolygu eu hadrannau perthnasol ac amlygu unrhyw newidiadau mawr ers i'r adroddiad cyntaf gael ei gyhoeddi.

Cafodd hyn ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2023
https://www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/comisiynu/asf2022/

**Gweithlu**

Mae Bwrdd Gweithlu Gogledd Cymru yn arwain ar ran y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ar unrhyw faterion strategol yn ymwneud â chynllunio'r gweithlu, trawsnewid a chynaliadwyedd.

Fel Bwrdd integredig, bydd Bwrdd Gweithlu Gogledd Cymru yn symud ymlaen i gynllunio a datblygu ar y cyd y gweithlu gofal cymdeithasol ac iechyd cymunedol, gan gynnal trosolwg strategol ar gyflawni strategaeth gweithlu rhanbarthol.

Mae'r strategaeth gweithlu rhanbarthol wedi cael ei adolygu yn ddiweddar.   Cytunwyd ar y tri phrif flaenoriaeth mewn gweithdy rhanddeiliaid a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2023 ble gwahoddwyd partneriaid newydd i fod yn bresennol a rhoi cyfle i drafod beth oedd partneriaid yn feddwl y dylai'r blaenoriaethau fod ar gyfer y rhanbarth wrth symud ymlaen.   Mae gwaith wedi'i wneud ar y strategaeth o fewn cyd-destun y strategaeth genedlaethol sydd wedi ei datblygu ar y cyd rhwng Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru.

Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gweithlu Gogledd Cymru 2023/24.  Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys cyflawniadau'r bwrdd yn 2023/24 a hefyd yn manylu'r strategaeth ar gyfer 2023-25.

**Grŵp Llywio Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru**

Mae Fforwm Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru wedi tyfu ers iddo gael ei ffurfio yn 2016 ac mae aelodau newydd wedi ymuno ers hynny.  Mae Aelodaeth yn cynnwys partneriaid o BIPBC, awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol/trydydd sector. Bydd y grŵp hwn yn dal i gefnogi darpariaeth gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd Fforwm Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru hefyd yn parhau i weithio gyda Rhwydwaith Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru i hyrwyddo datblygiad sefydliadau dielw preifat (yn cynnwys mentrau cymdeithasol, sefydliadau cydweithredol, trefniadau cydweithredol, gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector) i ddarparu gofal a chefnogaeth i ofalwyr, a gwasanaethau ataliol.

Bydd y grŵp yn hyrwyddo gwaith ar y cyd, partneriaeth a chyfleoedd rhwydweithio ar draws sectorau, gyda'r nod o gynyddu gwerth cymdeithasol a chyd-gynhyrchu ar draws yr holl ddarparwyr sy'n darparu gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a/neu wasanaethau lles yng Ngogledd Cymru.

Gyda datblygiad Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 roedd y grŵp wedi gweld cyfle i archwilio gweithredu a chyflwyno'r ddeddf hon yng Ngogledd Cymru. Felly, yn 2024 (yn gweithio mewn partneriaeth gyda Phartneriaeth Dealltwriaeth ac Ymchwil Gogledd Cymru) mae'r grŵp yn datblygu cynhadledd Gwerth Cymdeithasol.   Diben y digwyddiad hwn yw dod â darparwyr ynghyd, Swyddogion Caffael a Chomisiynu a Rheolwyr ar draws Gogledd Cymru i sicrhau y rhennir dealltwriaeth am y ffordd orau i gynyddu lles dinasyddion a chymunedau drwy weithgareddau comisiynu. Mae'r ffocws ar gyflawni "beth sydd o bwys" i bobl Gogledd Cymru a sut y gallwn fynd i'r afael ag anghenion cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol drwy weithgareddau caffael a chomisiynu.

Dros y 3 blynedd nesaf, bydd y grŵp yn canolbwyntio ar:

- Rhaglen dysgu a datblygu
- Cynhadledd Flynyddol Gwerth Cymdeithasol
- Gweithio gyda Rhwydwaith Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru.
- Mesur effaith gwerth cymdeithasol a sut y cyflawnir yng Ngogledd Cymru.
- Gan weithio gyda Chynghorau'r Gwasanaethau Gwirfoddol, bydd y Fforwm yn canolbwyntio ar brosiectau Trydydd Sector, yn arbennig gan ddefnyddio arian y Gronfa Gofal Integredig i gyflawni'r budd mwyaf posibl.

**Grwpiau Gofalwyr Gogledd Cymru**

Mae Grŵp Gweithredol Gofalwyr a Gofalwyr Ifanc Gogledd Cymru wedi parhau i ddarparu Strategaeth Gofalwyr Rhanbarthol Gogledd Cymru. Mae'r grŵp wedi cytuno y bydd y cynllun gweithredu sy'n cefnogi Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Gofalwyr Di-dâl a'r blaenoriaethau cenedlaethol yn cael eu hadolygu a'u hadnewyddu ar gyfer y flwyddyn nesaf gan y grŵp gweithredol.

Mae ein Gwasanaeth Hwyluso Meddygon Teulu ac Ysbytai a ariannwyd gan Grant Blynyddol Gofalwyr Llywodraeth Cymru, wedi parhau i gefnogi gofalwyr di-dâl mewn gofal sylfaenol ac eilaidd. Bu pwyslais penodol ar yr Hwyluswyr Gofalwyr Ysbyty a rhoddwyd cefnogaeth pan oedd rhywun yn cael ei ryddhau o'r ysbyty. Bydd y pwyslais yn parhau yn ystod y flwyddyn nesaf, ac mae Grant Blynyddol Gofalwyr Llywodraeth Cymru yn nodi y dylai'r pwyslais fod ar gefnogi gofalwyr di-dâl pan fydd y sawl maen nhw'n gofalu amdano yn cael ei dderbyn neu ei ryddhau o'r ysbyty. Bwriad y newid hwn yw helpu i ryddhau cleifion yn gyflym o'r ysbyty drwy gefnogi a chynnwys eu gofalwyr di-dâl yn y broses.

Drwy weithio mewn partneriaeth gyda'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr, mae egwyl byr ar gyfer gofalwyr di-dâl yn parhau i gael ei ddarparu yn defnyddio'r cyllid Amser ar draws y rhanbarth. Bu darpariaeth o wasanaethau traddodiadol ynghyd ag egwyl mwy hyblyg a chreadigol wedi'i deilwra i'r gofalwr er mwyn darparu egwyl ystyrlon, seibiant o'u cyfrifoldebau gofalu a gwella neu gynnal eu lles, gan helpu'r gofalwr i gynnal eu rôl gofalu. Mae cyllid sydd ar gael yn cael ei ddefnyddio i geisio sicrhau bod y sawl sydd angen egwyl fwyaf yn gallu gwneud hynny.

**Gofalwyr Ifanc Gogledd Cymru**

Mae nifer y gofalwyr ifanc sydd wedi eu nodi yng Ngogledd Cymru wedi tyfu dros y blynyddoedd diwethaf oherwydd cynnydd mewn atgyfeiriadau drwy ymgyrchoedd llwyddiannus i godi ymwybyddiaeth a pherthnasoedd cadarnhaol gydag asiantaethau partner. Ym mis Tachwedd 2021, pan gasglwyd y data ar gyfer yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth, roedd 1,752 o ofalwyr ifanc yn cael eu cefnogi ar draws Gogledd Cymru.

Mae Ynys Môn a Gwynedd wedi treialu ap, AIDI i ofalwyr ifanc, sy'n cynnwys cerdyn adnabod digidol yn ogystal â nodwedd gyfathrebu "Cysylltu â fy Ysgol", os ydynt yn cael problemau ac angen cefnogaeth gyda'u gwaith ysgol oherwydd eu rôl gofalu gartref yn mynd o nerth i nerth. Mae AIDI yn hygyrch ar gyfer holl ofalwyr ifanc ar draws y ddwy sir ac mae wedi'i gynnwys mewn newyddlen sy'n mynd allan i 4,000 o fusnesau lleol i godi ymwybyddiaeth a rhoi cyfle i gael

mynediad i ostyngiadau ar gyfer gofalwyr.  Mae WCD a Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr Gogledd Ddwyrain Cymru yn gweithio ar brosiect arweinwyr ifanc Gogledd Ddwyrain Cymru sy'n canolbwyntio ar y cardiau adnabod ac yn cael y bobl ifanc i arwain arno fel eu bod yn mynd allan i fusnesau lleol a 'chwifio'r faner'.  Aeth cylchgrawn allan yn chwarter diwethaf 2024 i bob aelwyd fel bod pob gofalwr ifanc yn derbyn gwybodaeth.

Mae gwaith yn parhau ar draws y rhanbarth i godi ymwybyddiaeth mewn lleoliadau addysg.  Mae data'r cyfrifiad diweddaraf yn dangos bod 4,411 o ofalwyr ifanc yng Ngogledd Cymru ac mae'r gwaith hwn yn anelu i ddod o hyd i ofalwyr ifanc 'cudd' yn ogystal â chefnogi gofalwyr ifanc hysbys.  Ble bo'n bosibl mae partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i fynychu gwasanaethau a chysylltu gydag ysgolion ar draws eu hardaloedd i drafod beth yw gofalwyr ifanc ac i godi ymwybyddiaeth (mae'r trafodaethau hyn yn cael eu cefnogi gyda ffilm a llyfryn), ac mae adnodd gweithdy newydd ar gyfer cyfnod allweddol 2 a 3 wedi cael ei dreialu gyda'r bwriad hefyd i roi'r grym i athrawon allu darparu'r adnoddau hyn.  Roedd gofalwyr ifanc hefyd yn gallu cael blas o Fywyd Prifysgol ar daith breswyl a drefnwyd gan Brifysgol Bangor a'r tîm Ymestyn yn Ehangach yn ogystal â mynychu dyddiau agored sydd wedi creu dyheadau.

## Ymgysylltiad BPRh

Mae BPRhGC yn parhau i ymgysylltu â phobl mewn gwahanol ffyrdd e.e. y cyfryngau cymdeithasol; ar-lein; dros Teams/Zoom ac ati. Cynhaliwyd gwaith ymgysylltu wyneb yn wyneb yn 2023/24.  Mynychwyd digwyddiadau lleol i hybu gwaith y BPRh yn Sioe Môn, Sioe Dinbych a Fflint yn ogystal â gwaith ymgysylltu ar Ymgyrch Gwrando Dementia Cymru gyfan yn y Sioe Frenhinol yn 2023.  Roedd amrywiol Ddigwyddiadau Ymgyrch Gwrando Dementia wedi eu cynnal ar draws y rhanbarth.

Ffurfiwyd perthnasoedd gwaith rhagorol, sy'n caniatáu i ni ymgysylltu â grwpiau nes clywir ganddynt yn aml, grwpiau lleiafrifoedd ethnig a grwpiau â nodweddion gwarchodedig.  Mae ymgysylltu parhaus â'n pobl, partneriaid a budd-ddeiliaid yn hanfodol ar gyfer gwaith y BPRh.

## Grŵp Llywio Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru

Mae Fforwm Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru wedi tyfu ers iddo gael ei ffurfio yn 2016 ac mae aelodau newydd wedi ymuno ers hynny.  Mae'r aelodau newydd hyn yn cynnwys partneriaid o BIPBC, awdurdodau lleol a'r trydydd sector/sector gwirfoddol, fodd bynnag, mae'n amser da i edrych eto ar aelodaeth a chylch gorchwyl y grŵp hwn.  Gwneir y gwaith hwn ym mis Mai mewn cyfarfod wyneb yn wyneb.  Bydd y grŵp hwn yn dal i gefnogi darpariaeth gofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Bydd Fforwm Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru yn parhau i weithio gyda Rhwydwaith Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru i hyrwyddo datblygiad sefydliadau dielw preifat (yn cynnwys mentrau cymdeithasol, sefydliadau cydweithredol, trefniadau cydweithredol, gwasanaethau a arweinir gan ddefnyddwyr a'r trydydd sector) i ddarparu gofal a chefnogaeth i ofalwyr, a gwasanaethau ataliol.

Bydd y grŵp yn parhau i hyrwyddo gwaith ar y cyd, partneriaeth a chyfleoedd rhwydweithio ar draws sectorau, gyda'r nod o gynyddu gwerth cymdeithasol a chyd-gynhyrchu ar draws yr holl ddarparwyr sy'n darparu gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a/neu wasanaethau lles yng Ngogledd Cymru.

## Fforwm Mwy na Geiriau Gogledd Cymru

Dychmygwch y sefyllfa, mae gwraig oedrannus wedi byw mewn cymuned Gymraeg agos ar hyd ei hoes yn dioddef yn gynyddol gyda dementia ac yn cael ei derbyn yn sydyn i'r ysbyty neu gartref gofal ble mai'r prif iaith yw Saesneg.

Nid yw'n deall yn iawn beth sy'n digwydd iddi gan nad yw ei gofalwyr yn gallu siarad ei hiaith - mae'n debyg o fod yn fwy rhwystredig a allai effeithio ar ei deilliannau clinigol. Pan mae'n dod i drafod ein hanghenion iechyd a gofal, rydym yn anelu i roi'r dewis o ddarparu'r gwasanaethau hyn yn gynyddol drwy gyfrwng y Gymraeg. Dyna pam yn dilyn pum mlynedd cyntaf Mwy Na Geiriau o gyflawni gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal drwy gyfrwng y Gymraeg mae'r angen i gynnig mwy ac yn gynt yn amlwg.

Mae'r her o gyflawni miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn galw am newidiadau pell-gyrhaeddol.

Ond mae'n rhaid gwthio'r ffiniau ac rydym yn cymryd camau uchelgeisiol i ysbrydoli a galluogi mwy o bobl i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg. Mae'r Fforwm yn adeiladu ar sylfeini sy'n bodoli'n barod ac yn symud ymlaen i gamau nesaf ein siwrnai iaith, gan nodi tri nod strategol i gyflawni'r weledigaeth hon:

- Cynyddu'r nifer o siaradwyr Cymraeg.
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg.
- Creu amodau ffafriol - isadeiledd a chyd-destun.

Bydd y camau a nodwyd yn y cynllun 'Cynnig Rhagweithiol' yn cynorthwyo'r Bwrdd Iechyd, Awdurdodau Lleol, y Trydydd Sector a'r Sector Preifat i gyflawni'r amcanion hyn gan gynnwys ymgorffori newid diwylliannol sy'n cefnogi cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg o fewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol dros y pum mlynedd nesaf. Gyda'i gilydd, bydd pob partner yn creu isadeiledd a dull i alluogi hyn wrth i ni ffynnu i greu diwylliant ble mae'r Gymraeg yn perthyn i ni gyd; ble mae yna falchder mewn gweithio mewn system iechyd a gofal cymdeithasol dwyieithog sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan gynnig dewis Cymraeg rhagweithiol.

Cafodd grŵp tasg a gorffen ei sefydlu yn yr Hydref gydag aelodaeth o Awdurdodau Lleol, Grŵp Llandrillo Menai, BIPBC a'r tîm rhanbarthol i drafod syniadau gwahanol ar sut i ddefnyddio £10k i hybu MNG ar draws y rhanbarth.

## Hwb Cydlynu Ymchwil ac Arloesi

Nod yr hwb yw cydlynu gweithgareddau ymchwil, arloesi a gwella iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn cefnogi gwaith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru.

### Uchafbwyntiau ar gyfer 2023-24

- Casglu tystiolaeth a dod â phobl ynghyd i ddod o hyd i ddatrysiadau i broblemau cymhleth, gan gynnwys: Rhwydwaith Defnyddwyr RITA i drafod defnyddio technoleg hel atgofion ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia; ffyrdd o ddefnyddio technegau cyd-gynhyrchu ac adrodd straeon i wella gwasanaethau a gweithio mewn partneriaeth; a gwella cymorth i blant a phobl ifanc â chyflyrau niwroddatblygiadol.
- Gwella mynediad at dystiolaeth drwy ddarparu mewnwelediad i ystadegau ac ymchwil ar gyfer

sawl pwnc, yn amrywio o niwroamrywiaeth a dementia i Ddeallusrwydd Artiffisial (AI) a wardiau rhithwir.

- Dechrau'r gwaith ar gyfer y Bwrdd Digidol, Data a Thechnoleg o dan y themâu cael y pethau sylfaenol yn iawn, arloesi, cynhwysiant digidol a chofnodion iechyd a gofal integredig. Roedd hyn yn cynnwys nodi prosiectau digidol ar draws y rhanbarth a chynorthwyo i hwyluso cais SBRI llwyddiannus am £200,000 i brofi model darparu gofal cartref modern, newydd yn Nhorfaen, Gwynedd, a Sir Ddinbych, wedi'i danategu gan system TG pwrpasol.
- Darparu cymorth ymchwil gan gynnwys sesiynau cyngor ac awgrymiadau astudiaethau achos a fframwaith caniatâd a moeseg ar gyfer y Gronfa Integreiddio Ranbarthol; dylunio dangosfwrdd i fesur cynnydd rhanbarthol yn erbyn Cod Ymarfer Awtistiaeth; a dadansoddi cannoedd o ymatebion meddylgar i Ymgyrch Gwrando ar Ddementia ar draws chwe thref yng Ngogledd Cymru.

Gan gydweithio'n agos â hybiau rhanbarthol eraill a sefydliadau cenedlaethol, aethom ati i rannu, hyrwyddo a datblygu syniadau newydd, gan gynnwys fel rhan o Rwydwaith Arloesi Gogledd Cymru. Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd nifer dilynwyr ein cyfrif Twitter/X wedi cynyddu i 450, gyda dros 200 o bobl wedi tanysgrifio i restr bostio'r hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol (CARh).

Dilynwch ni ar Twitter/X @_NW_RICH, cofrestrwch i dderbyn ein newyddlen ac ewch draw i dudalennau gwe hwb CARh i gael rhagor o wybodaeth.

## 5. Trefniadau Partneriaeth a Llywodraethu

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn adrodd yn ffurfiol i Fwrdd Arweinyddiaeth Gogledd Cymru. Rheolir busnes Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru a'r is-grwpiau rhanbarthol gan y Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol ac aelodau Tîm Cydweithio Rhanbarthol Gogledd Cymru.


Ym mis Chwefror 2024, cafodd arolwg ei rannu gydag aelodau BPRhGC i gasglu adborth ar drefniadau llywodraethu a phartneriaeth. Mewn ymateb, awgrymwyd bod angen adolygu'r strwythur llywodraethu a blaenoriaethau. Roedd y rhan fwyaf o gyfranogwyr yn dweud bod y bwrdd yn gweithio'n strategol ac yn gwybod ac yn deall blaenoriaethau'r bwrdd ynghyd â chyfeiriad teithio. Mae hwn yn ddarn o waith parhaus fydd yn datblygu drwy gydol 2024/25.

Isod mae'r Strwythur Llywodraethu ar gyfer BPRhGC:


# Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (BPRh)
## Cyflawni integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol

CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE



**Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru (RPB):**
**Strwythur llywodraethu plant**




# 6. Partneriaethau integredig a chyfrannu at well canlyniadau

### Canlyniadau partneriaeth ar gyfer y 6 model gofal


Roedd cyfanswm o 146,073 o bobl wedi cael mynediad i un o'r gwasanaethau o fewn y rhaglen o leiaf unwaith yn ystod y flwyddyn. Roedd 26,571 o bobl wedi cael mynediad i un o'r gwasanaethau nad oedd wedi cael mynediad o'r blaen ac roedd 4,055 o bobl wedi mynychu o leiaf un o'r 405 o sesiynau hyfforddiant a ddarparwyd.

29,026 o bobl wedi derbyn Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (GCCh) yn ystod y flwyddyn gyda 10,921 yn derbyn cefnogaeth a chymorth buan, sy'n anelu i leihau effaith ar wasanaethau lleol. Roedd 4,299 o bobl wedi derbyn Cefnogaeth Ddwys a 5,263 wedi derbyn Ymyrraeth Arbenigol gan wasanaethau a gefnogir gan gyllid RIF.




**Gofal yn y Gymuned - Model Gofal Atal a Chydlynu**

Mae'r Model Gofal hwn yn cynnwys £9,309,043 o fuddsoddiad sy'n 17% o gyfanswm y rhaglen. Mae yna 13 o raglenni rhanbarthol (haen 2) a gefnogir gan gyllid RIF o fewn model gofal CBC PC. Mae yna 60 o brosiectau lleol (haen 3) o fewn yr 13 o raglenni rhanbarthol.





**Gofal yn y Gymuned - Model Gofal Cymhleth yn agosach at adref**

Mae'r model gofal hwn yn cynnwys £23,975,899 o fuddsoddiad sy'n 42% o gyfanswm y rhaglen.
Mae yna 6 o raglenni rhanbarthol (haen 2) a gefnogir gan gyllid RIF o fewn model gofal CBC CC. Mae yna 20 o brosiectau lleol (haen 3) o fewn y 6 o raglenni rhanbarthol.

**Adref o'r Ysbyty**
**Model Gofal**

Mae'r model gofal hwn yn cynnwys £4,635,868 o fuddsoddiad sy'n 8% o gyfanswm y rhaglen. Mae yna 3 o raglenni rhanbarthol (haen 2) a gefnogir gan gyllid RIF o fewn model gofal Adref o'r Ysbyty. Mae yna 10 o brosiectau lleol (haen 3) o fewn y 3 o raglenni rhanbarthol.





**Model Gofal Cefnogi Teuluoedd a Phlant i aros gyda'i gilydd yn ddiogel**

Mae'r Model Gofal hwn yn cynnwys £15,740,956 o fuddsoddiad sy'n 28% o gyfanswm y rhaglen.

Mae yna 6 o raglenni rhanbarthol (haen 2) a gefnogir gan gyllid RIF o fewn model gofal CBC PC.

Mae yna 39 o brosiectau lleol (haen 3) o fewn y 6 o raglenni rhanbarthol.





**Datrysiadau yn seiliedig ar Lety Model Gofal**

Mae'r Model Gofal Datrysiadau yn Seiliedig ar Lety yn cynnwys £1,100,977 o fuddsoddiad sy'n 2% o gyfanswm y rhaglen.

Mae yna 3 o raglenni rhanbarthol (haen 2) a gefnogir gan gyllid RIF o fewn model gofal Datrysiadau yn Seiliedig ar Lety.

Mae yna 5 o brosiectau lleol (haen 3) o fewn y 3 o raglenni rhanbarthol.




**Model Gofal Hyrwyddo Iechyd a Lles Emosiynol Da**

Mae'r Model Gofal hwn yn cynnwys £2,539,416 o fuddsoddiad sy'n 4% o gyfanswm y rhaglen.
Mae yna 4 o raglenni rhanbarthol (haen 2) a gefnogir gan gyllid RIF o fewn model Hyrwyddo Iechyd a Lles Emosiynol.
Mae yna 11 o brosiectau lleol (haen 3) o fewn y 4 o raglenni rhanbarthol.

# 7. Darpariaethau Statudol

Mae partneriaid y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi mynd i gytundeb cyfreithiol – “Cytundeb Integreiddio” – sy’n cadarnhau ei ymrwymiad i gydweithio ar brosiectau allweddol a nodwyd fel rhai addas ar gyfer gwasanaethau integredig a threfniadau cyllideb gyfun.

Caniateir defnyddio’r darpariaethau statudol canlynol i danategu gwaith BPRhGC:

> Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 – adrannau 166 a 167 yn benodol a rheoliadau cysylltiol (Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015).

Dibynnwyd ar bwerau cyfreithiol eraill i gefnogi partneriaethau rhanbarthol yr ymunwyd â hwy, gan gynnwys:

> Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 – adrannau 1, 2, 10, 33, 38 ac 82 yn bennaf.
>
> Pwerau Adran 9 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 mewn perthynas â chydweithio gydag awdurdodau lleol eraill.
>
> Deddf Llywodraeth Leol 1972 - yn enwedig adran 2, sy’n rhoi pwerau i awdurdodau wneud unrhyw beth y maent yn ystyried ei fod yn debygol o gyflawni un neu fwy o’r buddion canlynol: hyrwyddo neu wella lles economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol yr ardal, ac adran 113 sy’n galluogi un awdurdod lleol i gynnig ei staff i awdurdod iechyd neu Fwrdd Iechyd arall.
>
> Mae A111 Deddf Llywodraeth Leol 1982 yn caniatáu i awdurdod lleol gael y pŵer i wneud unrhyw beth sy’n cael ei bennu i hwyluso, neu'n ffafriol neu’n ddamweiniol i ryddhad eu swyddogaethau.

### 8. Blaenoriaethau'r Bwrdd wrth symud ymlaen:

# Cynllun Rhanbarthol Gogledd Cymru 2023 i 2028

## Cynllun Cyflawni Blynyddol Ebrill 2024/25

Mae pob ffrwd waith yn ystyried y themâu trawsbynciol: Y Gymraeg - 'Cynnig Rhagweithiol', cydraddoldeb a hawliau dynol, anfantais economaidd-gymdeithasol, tai, digartrefedd, unigrwydd ac arwahanrwydd, gwerth cymdeithasol, cyd-gynhyrchu a llais y dinesydd, atal, diogelu, trais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol a Covid-19.

Tudalen 41

| **Ffrwd Waith** | **Cam Gweithredu** | **Statws** | **Diweddariad neu'r dyddiad mae'r adroddiad wedi'i drefnu ar gyfer BPRh** |
|---|---|---|---|
| Cronfa Integreiddio Ranbarthol | Cyflwyno Rhaglen Gynlluniau'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer pob Model Gofal [Tudalennau gwe y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol] | Parhaus | C4 adroddiad drafft perfformiad wedi'i gyflwyno 30 Ebrill 2024 (diweddarwyd 03/05/24) |
| Cronfa Integreiddio Ranbarthol | Sefydlu fframwaith canlyniadau sy'n galluogi adrodd cyson ar fesurau perfformiad ar draws yr holl brosiectau a Modelau Gofal fel y gellir monitro'r gwahaniaeth a wnaed a'r pellter a deithiwyd. | Parhaus | Cytunwyd ar Fframwaith Canlyniadau Cymru Gyfan a ddatblygwyd gan arweinwyr BPRh. Fframwaith adrodd ar ddeilliannau perfformiad rhanbarthol wedi'i ddatblygu a fydd yn cefnogi'r fframwaith Cymru gyfan. Data perfformiad blwyddyn lawn wedi'i gynnwys yn adroddiad perfformiad Q4 (diweddarwyd 06/05/24) |

| Ffrwd Waith | Cam Gweithredu | Statws | Diweddariad neu'r dyddiad mae'r adroddiad wedi'i drefnu ar gyfer BPRh |
|---|---|---|---|
| Cronfa Integreiddio Ranbarthol | Datblygu fframwaith gwerthuso i alluogi gwerthusiad cadarn rheolaidd o gynlluniau i lywio'r gwaith o gynllunio rhaglenni yn y dyfodol | Parhaus | Fframwaith gwerthuso a chynllun o dan ddatblygiad gyda pheilot ar 2 ddull. Peilot ar 'Fapio Effaith Cadarnhaol' ar gyfer gwerthusiad MoC gyda'r gweithdy cyntaf ym mis Mehefin 2024. Peilot ar baneli 'Newid Mwyaf Sylweddol' ar gyfer cynlluniau Plant a Phobl Ifanc (diweddarwyd 06/05/24) |
| Plant a phobl ifanc | Gweithredu'r dull Drws Cywir (mewn ymateb i'r Strategaeth Dim Drws Anghywir) | Parhaus | Cynllun gweithredu drafft wedi'i ddatblygu a bydd nawr yn cael ei rannu o fewn y strwythur llywodraethu (diweddarwyd 03/05/24) |
| Plant a phobl ifanc | Datblygu blaenoriaethau ar gyfer plant a phobl ifanc, gan ystyried gwahanol anghenion ar gyfer gwahanol grwpiau oedran.<br><br>Tudalennau gwe Is-grŵp Plant y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol | Parhaus | Strwythur llywodraethu diwygiedig wedi cael ei weithredu ym mis Ionawr 2024, cytunwyd ar gynllun gwaith dwy flynedd, gweithdai datblygu chwarterol wedi dechrau (diweddarwyd 03/05/24) |
| Plant a phobl ifanc | Fframwaith NYTH/NEST::dull system gyfan ar gyfer iechyd meddwl | Parhaus | Dull ar gyfer cwblhau hunan-asesiadau ar draws y rhanbarth yw i bob un o'r Rhaglenni Trawsnewid Rhanbarthol unigol, wedi'i agregu i un rhanbarthol a chyflwyno i LIC erbyn 14 Hydref 2024.<br><br>Partneriaid ar draws y rhanbarth i ddechrau cyflwyno'r hyfforddiant Nyth/Nest fesul cam yn dechrau ym mis Mai 2024 (diweddarwyd 03/05/24) |

| Ffrwd Waith | Cam Gweithredu | Statws | Diweddariad neu’r dyddiad mae’r adroddiad wedi’i drefnu ar gyfer BPRh |
|---|---|---|---|
| Dementia | Anghenion llety dementia yn y Cynllun Cyfalaf Strategol | Parhaus | Mae hyn wedi cael ei ymgorffori yn y Cynllun Cyfalaf Strategol a gytunwyd gan y BPRh a chyflwynwyd i Lywodraeth Cymru. Mae nifer o gynlluniau gan gynnwys canolfannau dementia a thai â chymorth ychwanegol yn y cynllun 10 mlynedd (diweddarwyd 06/05/24) |
| Anableddau dysgu | Gweithredu Rhaglen Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd, wedi'i ategu gan waith cyd-gynhyrchu sy'n canolbwyntio ar gymunedau a newid diwylliannol, llety, technoleg gynorthwyol, cyflogaeth a phlant a phobl ifanc. | Parhaus | Adroddiad cynnydd wedi’i drefnu (diweddarwyd 7/5/24) |
| Awtistiaeth | Gweithredu'r cod ymarfer statudol ar gyflwyno Cynllun Cyflawni Gwasanaethau Awtistiaeth 2021-22 | Parhaus | Mae adroddiad ffrwd waith Awtistiaeth diwedd y flwyddyn ar gyfer 2023/24 yn manylu cyflawniadau a chynnydd gyda Chod Ymarfer Awtistiaeth a Chynllun Gwella Niwrowahaniaeth. I fynd i BPRh Mehefin 2024 (diweddarwyd 06/05/24) |
| Iechyd Meddwl | Adolygu a gweithredu strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl ar gyfer Gogledd Cymru | Parhaus | Paratoi strategaeth i fynd ar wefan BPRh (diweddarwyd 7/5/24) |

| Ffrwd Waith | Cam Gweithredu | Statws | Diweddariad neu'r dyddiad mae'r adroddiad wedi'i drefnu ar gyfer BPRh |
|---|---|---|---|
| 'Ymhellach, Ynghynt' - Ein nod o adeiladu Gwasanaeth Gofal Cymunedol Integredig ar gyfer Cymru | Cefnogi datblygiad Gwasanaeth Gofal Cymunedol ar gyfer Cymru | Parhaus | Cynllun rhanbarthol ar gyfer cyllid 2023/24 wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Cyllid wedi'i wario i gyd.<br><br>Mae cynllun rhanbarthol ar gyfer 2024/25 wedi cael ei ddrafftio drwy broses o 4 gweithdy integredig a gynhaliwyd rhwng Chwefror ac Ebrill. Mae'r cynllun yn cwrdd â disgwyliadau Llywodraeth Cymru, wedi cael ei gymeradwyo gan yr Arweinyddiaeth, yn aros i'w gymeradwyo gan Fwrdd Gweithredol BIPBC ar hyn o bryd (diweddarwyd 06/05/24) |
| Cynllun Cyfalaf Strategol | Datblygu Cynllun Cyfalaf Strategol 10 mlynedd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru | Parhaus | Mae'r Cynllun Cyfalaf Strategol (CCS) wedi cael ei ddatblygu a'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Mae Adroddiad Cyfalaf diwedd y flwyddyn ar gyfer 2023/24 yn manylu cyflawniadau a chynnydd gyda 31 o gynlluniau wedi eu blaenoriaethu ar gyfer cylch cyllid 1. Adroddiad i fynd i BPRh Mehefin 2024. Gwaith wedi dechrau ar gam 2 o'r CCS (diweddarwyd 06/05/24) |

| **Ffrwd Waith** | **Cam Gweithredu** | **Statws** | **Diweddariad neu'r dyddiad mae'r adroddiad wedi'i drefnu ar gyfer BPRh** |
|---|---|---|---|
| Comisiynu | Adolygiadau blynyddolAdroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad | Parhaus | Adolygiad llai manwl wedi cael ei gwblhau ar gyfer 2023, ei gymeradwyo a'i gyhoeddi ar wefan BPRh gyda chopi wedi'i anfon at Lywodraeth Cymru. Gweithgor i gynllunio a chwmpasu adolygiad 2024. (diweddarwyd 24/04/24) |

Tudalen 45

| Ffrwd Waith | Cam Gweithredu | Statws | Diweddariad neu'r dyddiad mae'r adroddiad wedi'i drefnu ar gyfer BPRh |
|---|---|---|---|
| Comisiynu | Gweithredu Cytundeb Cyn Lleoli ar gyfer Darparwyr Gwasanaeth i gynnwys cydlynu'r Gweithdai a sefydlu proses ar gyfer coladu'r CCLl gorffenedig. | Parhaus | Dyddiad gweithredu wedi'i ohirio. Cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol gyda Fforwm Gofal Cymru o amgylch y materion oedd yn weddill ac awgrymwyd newidiadau. Mae trafodaethau cyfreithiol yn parhau rhwng comisiynwyr a chynrychiolwyr cyfreithiol ar gyfer BT ac ALl a thrafodir gydag adran gyfreithiol Fforwm Gofal Cymru cyn gynted ag y cytunir ar gytundeb gan y 7 partner mewn perthynas â phroses ar gyfer EPA gydag awgrymiadau i newid geiriau cymalau atodol. Bydd yn parhau fel risg uchel oherwydd nad oes yna gontract byw. (diweddarwyd ar 24/04/24) |
| Comisiynu | Adolygu trefniadau Gwir Gost Gofal ar gyfer y rhanbarth | Parhaus | Grŵp Llywio a Gweithgor wedi cael ei sefydlu i edrych ar wir gost gofal, gyda gwaith i edrych ar y casglu tystiolaeth. Fodd bynnag, cafodd hyn ei atal ym mis Rhagfyr. Dogfen gwerthuso dewisiadau a gweithdy wedi'i gynllunio ar gyfer y Grŵp Arweinyddiaeth a NWASH ym mis Ebrill, gyda chyflwyniadau gan Laing Buisson a CareCubed yn ogystal â dysgu gan Gonwy a Gwynedd. Cynhelir trafodaeth bellach a gwneir penderfyniad am y ffordd ymlaen yn rhanbarthol a pha un a fydd dull rhanbarthol ar gyfer methodoleg ffioedd yn cael ei fabwysiadu (diweddarwyd 24/04/24) |

| Ffrwd Waith | Cam Gweithredu | Statws | Diweddariad neu'r dyddiad mae'r adroddiad wedi'i drefnu ar gyfer BPRh |
|---|---|---|---|
| Mwy Na Geiriau | Ysgogi cynnydd o dan thema gyffredinol **diwylliant ac arweinyddiaeth** a'r tair thema<br><br>1. Cynllunio a pholisïau Cymraeg gan gynnwys data<br><br>2. Cefnogi a datblygu sgiliau Cymraeg y gweithlu presennol a gweithlu'r dyfodol<br><br>3. Rhannu arferion gorau a dull o alluogi<br><br>Mwy Na Geiriau: Cynllun 5 Mlynedd 2022 - 2027 | Parhaus | Gyda chymorth ariannol gan y BPRh yn 2023, adnoddau wedi eu cynhyrchu mewn cydweithrediad â BIPBC ar gyfer staff iechyd a gofal cymdeithasol di-Gymraeg. Yn dosbarthu'r deunyddiau ar draws y rhanbarth ar hyn o bryd.<br><br>Symud ymlaen yn 2024/25 - tri chyfarfod y flwyddyn i gynnal momentwm ynghyd â chasglu data gan GCC am gynnydd/gostyngiad mewn staff sy'n siarad Cymraeg o fewn amgylchedd Gofal Cymdeithasol. |
| Diogelu | Ymateb yn effeithiol i'r hyn a ddysgwyd o'r adolygiadau Ymarfer Oedolion/ Plant Rhanbarthol, y fforwm proffesiynol Amlasiantaethol Rhanbarthol ac adolygiadau Cenedlaethol a'r DU. | Parhaus | Mae hyn yn dod o dan gyfrifoldeb y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol. Cynlluniau yn cael eu datblygu i ddod â'r 2 Fwrdd Diogelu ynghyd fel un Bwrdd ar gyfer pob oed yn 2024. Wrth symud ymlaen o fis Mai 2024 mae gennym un bwrdd ar y cyd. Mewn perthynas â dysgu o adolygiadau, mae gan y BDGC gynllun gweithredu ar gyfer y canfyddiadau o APR/CPR thematig sy'n cael ei ddiweddaru bob chwarter (diweddarwyd 28/4/24) |

| Ffrwd Waith | Cam Gweithredu | Statws | Diweddariad neu'r dyddiad mae'r adroddiad wedi'i drefnu ar gyfer BPRh |
|---|---|---|---|
| Diogelu | Ymgysylltu a chyfathrebu yn effeithiol: Gwella ymgysylltu ac ymgynghori gyda phlant ac oedolion mewn risg, grwpiau diamddiffyn, gweithwyr proffesiynol a phartneriaethau | Parhaus | Mae hyn yn dod o dan gyfrifoldeb y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol. Yn y cyfarfodydd Bwrdd ar y Cyd, byddwn yn cynnwys ffocws ar straeon diogelu personol fel tystiolaeth ar gyfer newid effeithiol (diweddarwyd 28/4/24) |
| Diogelu | Cefnogi proses weithredu'r ddeddfwriaeth newydd a chyfredol, gan gynnwys Stopio Cosbi Corfforol a Threfniadau Amddiffyn Rhyddid ochr yn ochr ag ymateb i gynlluniau gweithredu cenedlaethol ar Gam-drin Plant yn Rhywiol ac atal achosion o gam-drin Pobl Hŷn. | Parhaus | Mae gwaith wedi'i wneud ar draws y rhanbarth ar weithredu deddfwriaeth newydd. Bydd cynllun gweithredu wedi'i ddiweddaru ar Gam-drin Plant yn Rhywiol yn cael ei lansio yn 24/25 ac rydym yn ymateb i'r cynllun gweithredu ar atal cam-drin Pobl Hŷn (diweddarwyd 28/4/24) |
| Diogelu | Parhau i sicrhau dull cadarn, cryf a chyson o ran arfer diogelu. | Parhaus | Bydd adroddiadau blynyddol asiantaethau partner y Bwrdd yn cael eu cyflwyno i BDGC ym mis Mehefin '24. Bydd archwiliad atgyfeirio yn cael ei gynnal ym mis Gorffennaf - Medi '24 mewn ymateb i adroddiad arolygu AGC a hefyd archwiliad thematig o achosion hunan-esgeuluso yn y rhanbarth (diweddarwyd 28/4/24) |
| Partneriaeth Ranbarthol | Datblygu cytundeb partner i gynnwys y gwaith partneriaeth rhanbarthol i gynnwys strategaeth ariannol. | Parhaus | |

| Ffrwd Waith | Cam Gweithredu | Statws | Diweddariad neu'r dyddiad mae'r adroddiad wedi'i drefnu ar gyfer BPRh |
|---|---|---|---|
| Partneriaeth Ranbarthol | Cysylltiadau â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus | Parhaus | Dechreuodd trefniadau cymharu cynlluniau a thrafodaethau cychwynnol gyda BGCau (diweddarwyd 25/04/2024) |
| Trawsnewid Data Digidol | Datblygu dull Gogledd Cymru o ddefnyddio data digidol a thechnoleg i alluogi gwasanaethau integredig, di-dor | Parhaus | Adroddiad wedi'i drefnu ar gyfer BPRh Mai 2024 (diweddarwyd 25/04/24) |
| Gofalwyr di-dâl | Diweddaru Strategaeth Gofalwyr Gogledd Cymru, darparu Cynllun Gweithredu Grŵp Gweithredol Gofalwyr a Gofalwyr Ifanc Gogledd Cymru<br><br>Y diweddaraf ar Strategaeth Gofalwyr a chynlluniau gweithredu | Parhaus | Mae diweddariadau ar y cynllun gweithredu wedi cael eu huno a gyda digwyddiadau yn cael eu cynnal drwy gydol Wythnos Gofalwyr ym mis Mehefin, bydd yn gyfle i sicrhau bod llais y gofalwyr yn cael ei gynnwys yn y cynlluniau a'r strategaeth. Bydd hwn yn cael ei gyflwyno i'r BPRh dim hwyrach na Medi 2024 i'w gymeradwyo. (diweddarwyd 24/04/24) |

| Ffrwd Waith | Cam Gweithredu | Statws | Diweddariad neu’r dyddiad mae’r adroddiad wedi’i drefnu ar gyfer BPRh |
|---|---|---|---|
| Fforwm Gwerth Cymdeithasol | Cwmpasu a datblygu’r ffordd ymlaen i ddatblygu fforymau adran 16 fel rhan o’r gofynion statudol newydd. | Parhaus | Fforwm Gwerth Cymdeithasol Gogledd Cymru presennol yn parhau. Fodd bynnag, mae rhai trafodaethau yn cael eu cynnal yn lleol i sefydlu neu gynnwys sefydliadau a16 mewn cyfarfodydd presennol e.e. Fforwm Gwasanaethau Integredig CSDd. Trafodaethau lleol a rhanbarthol pellach i gael eu cynnal i sicrhau ein bod yn cefnogi gofynion fforwm a15 newydd a sut y gallwn gynnig y gefnogaeth orau i hybu mentrau lleol ac i sicrhau’r newidiadau yn y gofyniad statudol o dan Adran 2 o’r Ddeddf.<br><br>(diweddarwyd 24/04/24) |
| Cydraddoldeb, hawliau dynol ac anfantais economaidd-gymdeithasol | Parhau i wreiddio o fewn prosesau gwaith gan gynnwys asesiadau o effaith ar gydraddoldeb a gwblhawyd ar strategaethau a phrosiectau newydd a diwygiedig. | Parhaus | |
| Tai a digartrefedd | Ysgrifennu adran tai a digartrefedd ychwanegol ar gyfer Asesiad o Anghenion y Boblogaeth. | Parhaus | Trefnwyd ar gyfer 31 Mawrth 2024 ond wedi cael ei ohirio oherwydd y gwaith arall sy’n cymryd blaenoriaeth. Gwaith ar y gweill. (diweddarwyd 24/04/2024) |
| Unigrwydd ac arwahanrwydd | Cysylltiad â blaenoriaethau’r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus. | Parhaus | |

Tudalen 50

| **Ffrwd Waith** | **Cam Gweithredu** | **Statws** | **Diweddariad neu'r dyddiad mae'r adroddiad wedi'i drefnu ar gyfer BPRh** |
|---|---|---|---|
| Trais yn erbyn merched, camdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol. | Cefnogi gwaith Bwrdd Pobl Ddiamddiffyn a Cham-fanteisio Gogledd Cymru a Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru | Parhaus | Mae arweinydd Diogelu Plant Rhanbarthol nawr yn aelod o'r BPRhP a pharhau gyda thrafodaethau i archwilio cysylltiadau pellach.<br><br>(diweddarwyd 03/05/24) |
| Covid-19 | Parhau i gefnogi Proses Adfer Covid-19. | Parhaus | (diweddarwyd 7/05/24) |
| Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol | Cydlynu ymchwil, arloesi a gweithgareddau gwella<br><br>Y diweddaraf ar asesiad o anghenion y boblogaeth.<br><br>Tudalennau gwe hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol | Parhaus | Adroddiad blynyddol wedi'i drefnu ar gyfer BPRh Mai 2024<br>(diweddarwyd 25/04/24) |
| Ymgysylltu | Adolygu trefniadau ymgysylltu, cydlynu a llais presennol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.<br><br>Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu | NEWYDD | Strategaeth Ymgysylltu a Chyfathrebu BPRh i gael ei diweddaru yn 2024 i adlewyrchu newidiadau ers ei chyhoeddi yn ystod Covid yn 2021<br><br>Cafodd Siarter Ymgysylltu a Llais BPRh ei mabwysiadu gan y Bwrdd gan roi llais a chyfartaledd i bob partner o amgylch y bwrdd. |

| Ffrwd Waith | Cam Gweithredu | Statws | Diweddariad neu'r dyddiad mae'r adroddiad wedi'i drefnu ar gyfer BPRh |
|---|---|---|---|
| Datblygiad Clwstwr Carlam (DCC) | Cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r Datblygiad Clwstwr Carlam i gynnwys llywodraethu.<br><br>Datblygu perthynas rhwng y Grŵp Cynllunio Gofal Sylfaenol (GCGS). | NEWYDD | Hwb CARh wedi cyflwyno canfyddiadau Asesu Anghenion Poblogaeth i Glystyrau Conwy a Sir Ddinbych i lywio cynllunio ar y cyd. Mae angen trafodaeth bellach ar y cynigion DCC gydag adroddiad i gael ei gyflwyno i BPRh yn y dyfodol (diweddarwyd 21/12/23) |
| Comisiynu | Adnewyddu tendr Cytundeb Gofal Cartref Gogledd Cymru yn llwyddiannus I ddechrau Ebrill 2025. | NEWYDD | Mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn, gyda sesiynau cwrdd â'r prynwr wedi eu cwblhau ac mae'n debyg y bydd y tendr yn mynd yn fyw ar ddechrau'r haf 2024 (diweddarwyd 24/04/24). |
| Gweithlu | Gweithredu Strategaeth Gweithlu Gogledd Cymru diwygiedig. | NEWYDD | Mae cynllun gweithredu ar gyfer blaenoriaeth strategol 1 yn cael ei ddatblygu ac mae gwaith ar y gweill. Mae blaenoriaethau eraill yn parhau a bydd yn cael ei gasglu gan amrywiol is-grwpiau o'r Bwrdd Gweithlu (diweddarwyd 24/04/24) |
| Presgripsiynu Cymdeithasol | I weithredu [fframwaith cenedlaethol ar gyfer presgripsiynau cymdeithasol] | NEWYDD | Mae cefnogwyr presgripsiynau cymdeithasol wedi cael eu nodi ac wedi cyfarfod gyda Llywodraeth Cymru. LIC yn casglu gwybodaeth llinell sylfaen fydd yn penderfynu ar gwmpas y gwaith (diweddarwyd 24/04/24) |
| Dementia | Gweithredu Strategaeth Dementia Gogledd Cymru | Wedi'i gwblhau | Mae adroddiad ffrwd waith dementia diwedd blwyddyn ar gyfer 2023/24 yn manylu cyflawniadau a chynnydd gyda holl ffrydiau gwaith Dementia. I fynd i BPRh Mehefin 2024 (diweddarwyd 06/05/24) |

| Ffrwd Waith | Cam Gweithredu | Statws | Diweddariad neu’r dyddiad mae’r adroddiad wedi’i drefnu ar gyfer BPRh |
|---|---|---|---|
| Comisiynu | Cwblhau'r Polisi Uwchgyfeirio Pryderon a'i roi ar waith | Cwblhawyd | CWBLHAWYD (diweddarwyd 24/04/24) |
| Partneriaeth Ranbarthol | Gweithredu Canllawiau Rhan 2 a Rhan 9 diwygiedig. | Cwblhawyd | Rhoddwyd cyflwyniad i’r BPRh gan Lywodraeth Cymru ar 10 Gorffennaf 2023. Ymateb wedi’i gyflwyno ar yr ymarfer ymgynghori a ddaeth i ben ar 14 Awst (diweddarwyd 29/11/23) |
| Comisiynu | Cwblhau Cynllun Gweithredu Archwilio Pobl Hŷn Cymru i gynnwys drafftio, cytuno a gweithredu Strategaeth Gomisiynu Ranbarthol | Cwblhawyd | CWBLHAWYD Roedd y Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol wedi cytuno ym mis Mawrth bod yna ddyblygu yn cynhyrchu Strategaeth Gomisiynu pan fyddai’r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad wedi cynnwys yr un wybodaeth. Cytunwyd y dylai’r tîm rhanbarthol geisio caniatâd gan Archwilio Cymru ynglŷn â’u cytundeb i newid yr argymhelliad hwn a pha un a fyddai’r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad yn ddigonol. (diweddarwyd 24/04/24) |
| Gweithlu | Rhaglen Blas ar Ofal: yn rhoi cipolwg ar y sector gofal i bobl sydd â diddordeb mewn gyrfa newydd | Cwblhawyd | CWBLHAWYD (diweddarwyd 24/04/24) |
| Gweithlu | Cwmpasu rhaglen waith ffrwd waith y gweithlu. I gynnwys:<br><br>recriwtio a chadw gan gynnwys yr Ymgyrch Gofalwn. | Cwblhawyd | CWBLHAWYD (diweddarwyd 24/04/24) |

| Ffrwd Waith | Cam Gweithredu | Statws | Diweddariad neu'r dyddiad mae'r adroddiad wedi'i drefnu ar gyfer BPRh |
|---|---|---|---|
| 'Ymhellach, Ynghynt' - Ein nod o adeiladu Gwasanaeth Gofal Cymunedol Integredig ar gyfer Cymru | Adolygu Rhaglen y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol i nodi unrhyw gyfleoedd i gynyddu capasiti cymunedol ymhellach fel rhan o'r gwaith Ymhellach Ynghynt | Cwblhawyd | CWBLHAWYD<br><br>Mae cynllun rhanbarthol ar gyfer 2024/25 yn cynnwys ymestyn / adeiladu ar gynlluniau RIF presennol i gynyddu capasiti cymunedol. Mae holl gynlluniau o fewn 2024/25 yn cynyddu capasiti cymunedol. (diweddarwyd 06/05/24) |

ALLWEDD -

Melyn - parhau â ffrwd waith yn 2024/25

Glas - ffrwd waith newydd ar gyfer 2024/25

Gwyrdd - cwblhawyd ffrwd waith ar gyfer 23/24

## Atodiad 1 – Aelodaeth Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru

Ar 31 Mawrth 2024

**Alwyn Jones**
Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Chief Officer Social Care, Wrexham County Borough Council

**Ann Woods**
Prif Swyddog, Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint
Chief Officer, Flintshire Local Voluntary Council

**Carol Shillabeer**
Cyfarwyddwr Gweithredol, BIPBC
BCUHB, Executive Director

**Caroline Tudor James**
Prif Swyddog Gweithredol, The Rainbow Foundation
Chief Executive Officer, The Rainbow Foundation

**Cyng/Cllr Alun Roberts,**
Cyngor Sir Ynys Môn
Isle of Anglesey County Council

**Cyng/Cllr Christine Jones**
Cyngor Sir y Fflint
Flintshire County Council

**Cyng/Cllr John Pritchard**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Wrexham County Borough Council

**Cyng/Cllr Liz Roberts**
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Conwy County Borough Council

**Cyng/Cllr Dilwyn Morgan**
Cyngor Gwynedd

**Cyng/Cllr Elen Heaton**
Cyngor Sir Ddinbych
Denbighshire County Council

**Dr Lowri Brown**
Pennaeth Gwasanaethau Addysg, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Head of Education Services, Conwy County Borough Council

**Darren Murray**
Pennaeth Gweithrediadau Cymunedol, Ambiwlans Sant Ioan
St John's Head of Community Operations

**Dylan Owen**
Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Gwynedd
Statutory Director of Social Services, Cyngor Gwynedd

**Estelle Hitchon**
Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu, WAST
WAST (Welsh Ambulance Services NHS Trust), Director of Partnerships and Engagement

**Ffion Johnstone**
Cyfarwyddwr Cymunedau Iechyd Integredig (y Gorllewin) BIPBC
BCUHB Integrated Health Community Director (West)

**Fôn Roberts**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Sir Ynys Môn
Director of Social Services, Isle of Anglesey County Council

**Gethin Morgan**
Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol
Head of Regional Collaboration

**Helen Douglas**
Uwcharolygydd Diogelwch Cymunedol, Heddlu Gogledd Cymru
Superintendent Community Safety, North Wales Police

**Jenny Williams**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Director of Social Services, Conwy County Borough Council

**Karen Higgins**
Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Gofal Lliniarol a Gwasanaethau Plant, BIPBC
BCUHB, Director of Primary Care, Palliative Care & Children's Services

**Libby Ryan-Davies**
Cyfarwyddwr Cymunedau Iechyd Integredig (Ardal y Canol) BIPBC
BCUHB Integrated Health Community Director (Central)

**Liz Grieve**
Pennaeth Tai a Gwasanaethau Cymunedol, Cyngor Sir Ddinbych
Head of Housing & Communities Service, Denbighshire County Council

**Liz Thomas**
Pennaeth Cyllid ac Archwilio, Cyngor Sir Ddinbych
Head of Finance and Audit, Denbighshire County Council

**Mary Wimbury**
Prif Swyddog Gweithredol ac Uwch Gynghorydd Polisi, Fforwm Gofal Cymru
Chief Executive Officer and Senior Policy Advisor, Care Forum Wales

**Michelle Green**
Cyfarwyddwr Cymunedau Iechyd Integredig (Dwyrain) BIPBC
BCUHB Integrated Health Community Director (East)

**Neil Ayling**
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Sir y Fflint
Director of Social Services, Flintshire County Council

**Nicola Stubbins**
Cyfarwyddwr Corfforaethol: Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg, Cyngor Sir Ddinbych
Corporate Director: Social Services & Education, Denbighshire County Council

**Paul Kay**
Pennaeth Diogelwch Tân, Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru
Head of Fire Safety, North Wales Fire Service

**Rhun ap Gareth,**
Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Chief Executive, Conwy County Borough Council

**Roger Seddon**
Cynrychiolydd Defnyddwyr Gwasanaeth
Service User Representative

**Sue Last**
Cynrychiolydd Gofalwyr
Carer Representative

**Teresa Owen**
Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus BIPBC
BCUPB Executive Director of Public Health

## Atodiad 2: Mesurau Perfformiad Fframwaith RIF Cymru Gyfan

| Faint? | Diffiniad |
|---|---|
| 1. **Nifer o atgyfeiriadau a dderbyniwyd** | Nifer yr unigolion a atgyfeiriwyd at y prosiect. |
| 2. **Nifer y bobl newydd sy'n cael mynediad at y gwasanaeth.** | Nifer yr unigolion sy'n cael mynediad at y prosiect am y tro cyntaf. |
| 3. **Nifer y bobl sy'n cael mynediad at y gwasanaeth (cyfanswm bob chwarter).** | Cyfanswm yr unigolion sy'n cael mynediad at y prosiect yn ystod chwarter. |
| 4. **Nifer y cysylltiadau (cyfrifwch gysylltiadau lluosog fesul unigolyn)** | Nifer yr adegau mae unigolion wedi cael cyswllt â'r prosiect. |
| 5. **Nifer y bobl sy'n cael Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth (cyffredinol)** | Nifer yr unigolion sy'n cael gwasanaethau Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth. |
| 6. **Nifer y bobl sy'n cael Cymorth a Chefnogaeth Gynnar (Wedi'u targedu)** | Nifer yr unigolion sy'n cael gwasanaethau cymorth a chefnogaeth gynnar sy'n targedu anghenion a materion penodol. Gallai hyn gynnwys grwpiau a digwyddiadau. |
| 7. **Nifer y bobl sy'n cael Cefnogaeth Ddwys (Wedi'i thargedu)** | Nifer yr unigolion sy'n cael gwasanaethau cefnogaeth ddwys sydd wedi'u teilwra i fodloni eu hanghenion penodol a mwy cymhleth. |
| 8. **Nifer y bobl sy'n cael Ymyrraeth Arbenigol (Arbenigwr)** | Nifer yr unigolion sy'n cael ymyriadau arbenigol sydd angen gwybodaeth ddatblygedig ac arbenigedd i'w darparu. |
| 9. **Nifer y bobl sy'n cael hyfforddiant** | Nifer yr unigolion sy'n cael sesiynau hyfforddi a gynigir gan y prosiect. |
| 10. **Nifer y sesiynau hyfforddi a ddarperir** | Nifer y sesiynau hyfforddi a ddarparwyd gan y prosiect. |
| **Pa mor dda?** | **Diffiniad** |
| 11. **Nifer yr atgyfeiriadau a dderbynnir** | Nifer yr atgyfeiriadau a dderbynnir gan y prosiect. |
| 12. **Nifer y bobl sy'n fodlon â'r wybodaeth a roddwyd** | Nifer yr unigolion sy'n dweud eu bod yn fodlon â'r wybodaeth a gawsant gan y prosiect. |
| 13. **Nifer y bobl sy'n cwblhau hyfforddiant wedi'i dargedu.** | Nifer yr unigolion sy'n cwblhau hyfforddiant wedi'i dargedu a ddarparwyd gan y prosiect. |
| 14. **Nifer y bobl sy'n dweud eu bod wedi cael profiad da gyda'r gefnogaeth a gawsant** | Nifer yr unigolion sy'n dweud eu bod wedi cael profiad positif gyda'r gefnogaeth a gawsant gan y prosiect. |

| Gwahaniaeth a wnaed | Diffiniad |
| --- | --- |
| 15. **Nifer y bobl sy'n cyflawni canlyniadau personol** | Nifer yr unigolion sydd wedi cyflawni canlyniadau personol o ganlyniad i'r prosiect. |
| **15a. Nifer y bobl y gofynnwyd y cwestiwn hwn iddynt** | Nifer yr unigolion y gofynnwyd iddynt adborth ar pa un a oeddent wedi cyflawni canlyniadau personol o ganlyniad i'r prosiect. |
| 16. **Nifer y bobl sy'n teimlo'n llai ynysig** | Nifer yr unigolion sy'n dweud eu bod yn teimlo'n llai ynysig ar ôl cael cefnogaeth gan y prosiect. |
| **16a. Nifer y bobl y gofynnwyd y cwestiwn hwn iddynt** | Nifer yr unigolion y gofynnwyd iddynt roi adborth ar pa un a oeddent yn teimlo'n llai ynysig o ganlyniad i'r prosiect. |
| 17. **Nifer y bobl sy'n cynnal neu wella eu hiechyd a'u lles emosiynol.** | Nifer yr unigolion sy'n dweud eu bod yn cynnal neu wella eu hiechyd a'u lles emosiynol ar ôl cael cefnogaeth gan y prosiect. |
| **17a. Nifer y bobl y gofynnwyd y cwestiwn hwn iddynt** | Y nifer o unigolion y gofynnwyd iddynt ac atebwyd pa un a oeddent yn cynnal neu'n gwella eu hiechyd a'u lles emosiynol o ganlyniad i'r prosiect. |
| 18. **Nifer y bobl sy'n cael cymhorthion ac addasiadau** | Nifer yr unigolion sy'n cael cymhorthion ac addasiadau sy'n eu helpu. |
| 19. **Nifer y bobl sy'n dechrau Pecyn Technoleg Gynorthwyol** | Nifer yr unigolion sy'n dechrau pecyn technoleg gynorthwyol a ddarperir gan y prosiect. |
| 20. **Nifer y bobl sy'n teimlo eu bod wedi dylanwadu ar y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt** | Nifer yr unigolion sy'n dweud eu bod yn teimlo eu bod wedi dylanwadu ar y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. |
| **20a. Nifer y bobl y gofynnwyd y cwestiwn hwn iddynt** | Nifer yr unigolion y gofynnwyd iddynt adborth ar pa un a oeddent yn teimlo eu bod wedi gallu dylanwadu ar y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt o ganlyniad i'r prosiect. |
| 21. **Nifer y bobl gyda mwy o wybodaeth am y gwasanaethau/cefnogaeth sydd ar gael iddynt** | Nifer yr unigolion sy'n dweud bod ganddynt fwy o wybodaeth am y gwasanaethau a chefnogaeth sydd ar gael iddynt. |
| **21a. Nifer y bobl y gofynnwyd y cwestiwn hwn iddynt** | Nifer yr unigolion y gofynnwyd iddynt adborth ar pa un a oeddent yn teimlo fod ganddynt fwy o wybodaeth am y gwasanaethau a'r gefnogaeth sydd ar gael iddynt o ganlyniad i'r prosiect. |

| Mesurau Penodol ar gyfer Dementia | Diffiniad |
| --- | --- |
| 22. **Nifer y gofalwyr a gefnogwyd gan y gwasanaeth (cyfanswm fesul Chwarter)** | Cyfanswm y nifer o ofalwyr sy'n cael mynediad i'r gwasanaeth yn ystod chwarter |

| | |
|---|---|
| 23. **Nifer o bobl sy'n byw gyda Dementia sy'n derbyn trafodaethau beth sydd o bwys** | Y nifer o unigolion wnaeth dderbyn trafodaethau beth sydd o bwys |
| 24. **Nifer o bobl sy'n byw gyda Dementia sy'n mynychu gweithgareddau/grwpiau/canolfannau** | Nifer o unigolion sy'n mynychu gweithgareddau / grwpiau / canolfannau dementia |
| 25. **Nifer a % y bobl gyda dementia sydd wedi cyflawni beth sydd o bwys iddyn nhw** | Y nifer a % o unigolion wnaeth ddweud eu bod wedi cyflawni'r hyn oedd o bwys iddyn nhw |
| 26. **Nifer a % y gofalwyr sy'n teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i barhau yn eu rôl gofal** | Nifer a % y gofalwyr sy'n dweud eu bod yn cael eu cefnogi i barhau yn eu rôl gofal |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol |
| **Dyddiad:** | 16/10/24 |
| **Pwnc:** | Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW) - Ymweliad Gwiriad Gwella â Chyngor Sir Ynys Môn – Gwasanaethau Oedolion |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Rhannu llythyr Arolygiaeth Gofal Cymru â'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, sy'n crynhoi canfyddiadau'r ymweliad gwiriad gwella â'r Gwasanaethau Oedolion ym mis Mehefin 2024,. |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | Cynghorydd Douglas Fowlie |
| **Aelod(au)Portffolio:** | Cynghorydd Dyfed Wyn Jones – Gwasanaethau Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd<br>Cynghorydd Alun Roberts – Gwasanaethau Oedolion |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | Fôn Roberts, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a Phennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, ac<br>Arwel Owen, Pennaeth Gwasanaethau Oedolion. |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Ffôn:**<br>**Ebost:** | Emma Edwards, Rheolwr Busnes<br>01248 751887<br>emmaedwards@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | |

**1 - Argymhelliad/Argymhellion**

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried:

**A1:** llythyr Arolygiaeth Gofal Cymru yn gysylltiedig â'i ymweliad gwiriad gwella â Gwasanaethau Oedolion Cyngor Sir Ynys Môn, a gyhoeddwyd ar 22 Awst 2024.

**A2:** Argymhellir bod yr aelodau yn:

a) cynnig sylwadau ar gynnwys yr adroddiad;

b) sicrhau bod y cynllun datblygu sydd ynghlwm, ac sydd wedi cael ei ddrafftio gan y Gwasanaeth, yn ystyried y meysydd gwella allweddol (sydd wedi'u crynhoi isod) a'r ffordd orau o gefnogi'n gwaith yn y dyfodol.

**2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall**

Mae gan bob darn o waith sy'n cael ei gwblhau gan y Gwasanaethau Cymdeithasol gysylltiad uniongyrchol â'r chwe amcan strategol yng Nghynllun Cyngor Sir Ynys Môn 2023-2028.

Pwrpas ein rheoleiddiwr annibynnol, Arolygiaeth Gofal Cymru yw:

1) cyflawni swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru i gynnig sicrwydd ar ansawdd a diogelwch gwasanaethau
2) penderfynu pwy sy'n gallu darparu gwasanaethau
3) arolygu a llywio gwelliannau mewn gwasanaethau rholiedig a gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol

4) cynnal adolygiadau thematig o wasanaethau gofal cymdeithasol
5) cymryd camau i sicrhau bod gwasanaethau'n bodloni'r gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol
6) ymateb i bryderon ynghylch gofal cymdeithasol a gwasanaethau plant

Yn dilyn yr Adolygiad Gwerthuso Perfformiad blaenorol o'n hadrannau Gwasanaethau Cymdeithasol gan Arolygiaeth Gofal Cymru, a gyhoeddwyd ar 14 Rhagfyr 2022, fe wnaethom ddiweddaru aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini drwy ddarparu cynllun gwaith. Heddiw rydym yn cyflwyno cynllun gwaith wedi'i ddiweddaru sy'n amlinellu'n cynnydd. Bydd yr adroddiad hefyd yn helpu i lunio cynllun nesaf y cyngor yn ogystal â hunanasesiadau a chynlluniau busnes adrannol.

**3 – Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Aelodau Sgriwtini**

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**:
Mae'r adroddiad yn rhoi sicrwydd i aelodau a dinasyddion bod Gwasanaethau Cymdeithasol CSYM yn perfformio'n dda – mae'r adroddiad yn nodi cryfderau, arfer da a datblygiadau gwasanaeth ac nid yw'n amlygu risgiau na materion diogelu sylweddol.

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**
Mae'r Cyngor yn llwyr ymwybodol o'r heriau ariannol, ac rydym ni yn y gwasanaethau cymdeithasol yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr Cyllid i gwrdd â'r heriau hyn, tra hefyd yn cwrdd ag anghenion ein dinasyddion.

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**
Mae'n adran gwasanaethau cymdeithasol yn dal i adolygu'r gofrestr risg yn rheolaidd.

**3.4** Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

Bydd yr adroddiad yn cael ei rannu gyda'r Pwyllgor Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Pwyllgor Sgriwitini Corfforaethol, a bydd y cynllun datblygu gwasanaethau oedolion hefyd yn cael ei rannu gyda hwy maes o law. Byddwn yn dal i gynnig tystiolaeth o'n perfformiad a'n taith tuag at welliant.

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effaith bosib y penderfyniad ar:
- grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)

- cyfle i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a’r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

1. Mae’r adroddiad yn gadarnhaol iawn ar y cyfan. Pa gynlluniau sydd ar waith i fonitro cynnydd yn erbyn y meysydd sydd angen sylw?
2. Beth ydy’r prif gryfderau a sut allwn ni roi cyhoeddusrwydd i’r rhain er mwyn dathlu ein llwyddiannau?

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

### 1. Cefndir:

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) arolwg o adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor, y Gwasanaetha Plant a Theuluoedd a’r Gwasanaeth Oedolion, rhwng 10-14 Hydref 2022, fel rhan o’u rhaglen Gwerthuso Perfformiad reolaidd.

Mae’r adroddiad dilynol gan AGC yn nodi cryfderau, arferion da a datblygiadau gwasanaeth ac nid yw’r nodi unrhyw risgiau a materion diogelu sylweddol.

**Cafwyd Ymweliad Gwiriad Gwella gan AGC rhwng 24 a 26 Mehefin 2024, a oedd yn canolbwyntio ar y cynnydd o ran y meysydd gwella a amlygwyd yn ystod yr Arolwg Gwerthuso Perfformiad ym mis Hydref 2022.**

**Mae’r Llythyr Gwella’n nodi’r canlynol:**

***2. Crynodeb – Gwasanaethau Oedolion***

1. Mae tîm arwain cryf yng ngwasanaethau oedolion Cyngor Sir Ynys Môn, sydd wedi cyflwyno newidiadau cadarnhaol a'u rhoi ar waith. Mae'r tîm arwain yn ymwybodol o feysydd y mae angen eu hatgyfnerthu ymhellach. Mae wedi gweithio'n galed i bennu cyfeiriad clir ar gyfer newid, gan lunio dogfennau strategol a gweithredol perthnasol, gyda chefnogaeth ymarferwyr cymwys ac ymroddedig, er mwyn rhoi'r newidiadau gofynnol ar waith yn ymarferol.

2. Mae'r ymarferwyr yn disgrifio aelodau'r tîm arwain fel unigolion gweladwy, hygyrch a chefnogol. Disgrifir hefyd ddiwylliant y gwasanaeth fel diwylliant iach a chadarnhaol, gyda pholisi drws agored yn cael ei hyrwyddo'n gyson. Mae'r arweinwyr yr un mor gadarnhaol ynghylch ymarfer ac ymrwymiad yr ymarferwyr.

3. Mae mwy o sefydlogrwydd yn y timau staff, ac ymhlith timau'r darparwyr cymorth cartref a chartrefi gofal. Mae hyn wedi arwain at wasanaeth gwell a mwy amserol i'r bobl, a hynny ar adeg lle y cafwyd cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau a chynnydd o ran cymhlethdod anghenion pobl.

4. Mae'r gwasanaeth wedi parhau i elwa ar gymorth corfforaethol a gwleidyddol. Mae'n hanfodol bod hyn yn parhau, er mwyn sicrhau bod y cynnydd a wneir yn cael ei gynnal, a bod y meysydd y mae angen eu gwella ymhellach yn cael cefnogaeth ddigonol. Mae hyn er mwyn sicrhau bod yr awdurdod lleol yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol yn gyson.

***3. Canfyddiadau allweddol a thystiolaeth***

Cyflwynir canfyddiadau allweddol ac enghreifftiau o dystiolaeth isod yn unol â phedair egwyddor Deddf Gofal Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. *Sylwch na wnaeth AGC arolygu unrhyw feysydd o dan y bedwaredd egwyddor, Partneriaethau, gan nad oedd unrhyw feysydd gwella o dan y pennawd hwn yn Arolwg Gwerthuso Perfformiad 2022.*

**Pobl -**

***Cryfderau***

1. Mae'r rhestrau aros ar gyfer asesiadau gwaith cymdeithasol wedi lleihau'n sylweddol. Mae trefniadau clir ar waith bellach ar gyfer monitro rhestrau o'r fath, gyda'r awdurdod lleol yn cysylltu â phobl sy'n aros i gael asesiad fel mater o drefn i holi ynghylch eu diogelwch a'u llesiant.

2. Mae'r rhestrau aros ar gyfer gwasanaethau therapi galwedigaethol yn uchel o hyd. Fodd bynnag, mae'r trefniadau wrth y drws ffrynt wedi cael eu hatgyfnerthu yn ddiweddar. Mae Therapydd Galwedigaethol bellach yn craffu ar atgyfeiriadau ac yn eu goruchwylio'n fanylach. Rhoddir ystyriaeth i gadarnhau a yw'r atgyfeiriad wedi'i wneud i'r gwasanaeth cywir, neu a fyddai math arall o wybodaeth, cyngor neu gymorth o bosibl yn fwy priodol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod pobl yn cael y cymorth cywir mewn modd mwy amserol, pan fydd yr ymarfer wedi'i roi ar waith yn llawn.

3. Ar y cyfan, mae'r prosesau ar gyfer cyfathrebu â phobl wedi gwella. Ceir enghreifftiau o wybodaeth yn cael ei rhannu'n briodol â phobl, gan gynnwys diweddariadau cynnydd am wasanaethau, cyfarpar a newidiadau o ran gweithwyr allweddol.

4. O ran cysylltu â'r gwasanaeth, nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr (68%) i arolwg pobl a gyhoeddwyd ei fod yn 'hawdd iawn' neu'n 'hawdd', gyda nifer bach (18%) yn nodi 'ddim yn hawdd nac yn anodd', a nifer bach o ymatebwyr eraill (14%) yn nodi ei fod 'ddim yn hawdd' neu'n 'anodd iawn'. Mae'r gwasanaethau drws ffrynt i blant ac oedolion bellach wedi cael eu cydleoli, gan gynnig mwy o gydnerthedd o ran gallu'r gwasanaeth i ymateb i bobl, sydd wedi cyfrannu at wella safon ac amseroldeb y broses o gyfathrebu â phobl. Mae'r sylwadau cyffredinol ynghylch cysylltu â'r awdurdod lleol yn gadarnhaol. Mae'r safonau ymarfer a luniwyd ac a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer y gwasanaeth, y cyfrannodd y staff atynt, yn esbonio'r disgwyliad o ran y terfynau amser ar gyfer ymateb i bobl. Gallai hyn lywio gwelliannau pellach mewn perthynas ag amseroldeb a safon y broses gyfathrebu.

5. Dangosodd canlyniadau ein harolwg hefyd fod y rhan fwyaf o bobl yn fodlon ar y broses gyfathrebu. Er enghraifft, nododd 96.5% o'r ymatebwyr eu bod yn cael eu trin ag urddas “bob amser” neu “y rhan fwyaf o'r amser”, a dywedodd 89% eu bod yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt “bob amser” neu “y rhan fwyaf o'r amser.”

6. Yn unol â'r Cynllun Darparu Gwasanaethau, mae'r gwasanaeth wedi ehangu ei adnoddau i hyrwyddo'r opsiwn taliadau uniongyrchol sy'n ymarfer cadarnhaol. Gwelwyd tystiolaeth bod taliadau uniongyrchol yn cael eu trafod â phobl fel opsiwn iddynt ei ddefnyddio i ddiwallu eu hanghenion cymwys. Mae nifer y bobl sy'n cael taliadau uniongyrchol wedi cynyddu. Soniodd un gofalwr y siaradwyd ag ef am fanteision taliadau uniongyrchol iddo. Mae wedi gallu nodi a dewis unigolyn y mae'n gyfarwydd ag ef i'w gefnogi ar adeg addas ac mewn lleoliad addas er mwyn diwallu anghenion y person sy'n derbyn gofal a'r gofalwr.

***Meysydd i’w gwella***

**1.** Mae tystiolaeth o lais a dewis pobl mewn asesiadau a chynlluniau gofal a chymorth yn anghyson o hyd. Mae enghreifftiau da lle ceir cyfeiriadau amlwg at ddymuniadau, teimladau a chanlyniadau pobl. Mewn enghreifftiau eraill, mae llais a dewis unigolion yn gyfyngedig ac nid yw'n glir. Yn yr un modd, mae tystiolaeth o leisiau aelodau o'r teulu ac eiriolwyr anffurfiol hefyd yn anghyson. Os bydd yr unigolyn yn cytuno i hynny, dylai safbwyntiau'r teulu a gofalwyr di-dâl hefyd lywio'r asesiadau a'r cynlluniau gofal a chymorth. **Yn unol â'r Cod Ymarfer, Rhan 3 (asesu anghenion unigolion), rhaid i asesiadau gynnwys y pum elfen allweddol ac adlewyrchu sgyrsiau sy'n seiliedig ar gryfderau a gynhelir â phobl er mwyn nodi beth sy'n bwysig iddynt. Rhaid iddynt hefyd gynnwys y canlyniadau personol y maent am eu cyflawni a pha gyfraniad y gallan nhw a'u teulu, eu ffrindiau a'r gymuned leol ei wneud tuag at gyflawni'r canlyniadau hynny.**

**2.** Mae enghreifftiau o wasanaeth eirioli yn cael ei gynnig yn briodol i bobl. Mae'n amlwg bod pobl yn cael budd o wasanaeth eirioli proffesiynol annibynnol, gan gynnwys yng nghyd-destun materion diogelu. Fodd bynnag, nid yw'r ymarfer hwn yn gyson ac mae enghreifftiau sy'n dangos bod cyfleoedd yn cael eu colli i drafod a fyddai pobl yn cael budd o gael eiriolwr, boed hynny'n ffurfiol neu'n anffurfiol. Mae angen nodi mwy o fanylion hefyd pan gaiff cynigion o'r fath eu gwrthod. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod pobl yn cael eu grymuso'n gyson i fynegi eu hanghenion ac i gymryd rhan lawn fel partneriaid cyfartal, gyda'r opsiwn o gael eiriolaeth yn cael ei esbonio'n glir.**

**3.** Mae'r awdurdod lleol yn ymrwymedig i gefnogi gofalwyr di-dâl ac mae'n mynd ati i fonitro ei berfformiad o ran cynnig asesiadau i ofalwyr. Cafwyd cynnydd cadarnhaol yn nifer yr asesiadau a gynigir i ofalwyr. Mae cofnodion gofal cymdeithasol hefyd yn Nhudalen 6 o 12 cadarnhau bod gofalwyr yn cael cynnig asesiadau a'u bod yn cael cymorth i ddiwallu eu hanghenion cymwys. Fodd bynnag, nid yw'r ymarfer hwn yn gyson, ac mae ansawdd asesiadau gofalwyr yn amrywiol. **Mae'r awdurdod lleol yn gweithio ar dempled drafft ar gyfer asesu anghenion gofalwyr, a bydd y templed diwygiedig yn helpu i sicrhau bod yr asesiadau yn bodloni'r gofynion**

**statudol. Rhaid i'r awdurdod lleol asesu'n fwy cyson yn unol â chanllawiau statudol a oes gan ofalwr anghenion cymorth (neu a yw'n debygol y bydd ganddo anghenion o'r fath yn y dyfodol) ac os felly, beth yw'r anghenion hynny neu'r anghenion tebygol hynny (Cod Ymarfer (Rhan 3) o Ddeddf 2014).**

4. Ni chaiff adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth pobl eu cynnal yn gyson o fewn y terfynau amser statudol gofynnol. **Er y cydnabyddir bod rhywfaint o waith cadarnhaol i oruchwylio a rhoi sicrwydd ynghylch amgylchiadau rhai pobl drwy drafodaethau wythnosol â darparwyr ac yn ystod cyfarfodydd wythnosol y Tîm Adnoddau Cymunedol amlddisgyblaethol, rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau nad yw'r dyddiad adolygu fwy na 12 mis yn ddiweddarach er mwyn sicrhau bod cynlluniau gofal a chymorth yn dal i fod yn briodol ac yn berthnasol i'r unigolyn. Rhaid sicrhau hefyd y caiff adolygiadau eu cynnal gan ddefnyddio'r fformat mwyaf priodol i'r unigolyn.**

**5.** Cadarnhaodd ymarferwyr eu bod yn cael amser i fyfyrio ar eu hymarfer yn ffurfiol ac yn anffurfiol. Fodd bynnag, o'r sampl o gofnodion goruchwylio ysgrifenedig a welwyd, dim ond cyfeiriadau cyfyngedig ac anghyson yr oeddent yn eu cynnwys at drafodaethau ynghylch ymarfer myfyriol, llesiant staff, anghenion datblygu a'r cynnydd a wnaed â phobl. Mae'n galonogol nodi bod Cyngor Sir Ynys Môn wedi drafftio polisi goruchwylio wedi'i ddiweddaru. Nodir bod y fersiwn ddrafft yn atgyfnerthu'r ffocws ar ymarfer myfyriol wedi'i lywio gan fframwaith cysyniadol ar gyfer goruchwyliaeth effeithiol. Mae Cynllun Darparu Gwasanaethau'r awdurdod lleol yn cyfeirio at ragor o strategaethau i wella ymarfer myfyriol ac mae'n cynnwys trefniadau ar gyfer monitro ac adolygu ffeiliau goruchwylio a hyfforddiant pellach gan ganolbwyntio ar fentora. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau tystiolaeth gyson i ddangos bod ymarfer, llesiant staff, ac anghenion hyfforddiant a datblygiad yn cael eu goruchwylio, a bod trafodaethau myfyriol yn cael eu cynnal**.

**Atal**

***Cryfderau***

1. Mae'r awdurdod lleol wedi gwneud buddsoddiadau cyfalaf sylweddol gan wella'r amrywiaeth o wasanaethau gofal a chymorth a'u hargaeledd. Mae'r rhain yn cynnwys buddsoddi mewn safleoedd byw â chymorth anableddau dysgu newydd sy'n fwy addas i anghenion pobl nawr ac yn y dyfodol; a'r Ganolfan Dementia yng Nghanolfan Glanhwfa, Llangefni, sydd wedi cael ei hadnewyddu. **Caiff nifer o wasanaethau trydydd sector eu cyd-leoli yn y ganolfan gan gynnig gwybodaeth, cyngor a gweithgareddau gwahanol i bobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr mewn un lleoliad <u>sy'n arfer cadarnhaol</u>**.

2. Mae'r rhestrau aros ar gyfer gwasanaethau cymorth cartref wedi lleihau'n sylweddol, a cheir prosesau cadarnach ar gyfer goruchwylio sefyllfaoedd pobl sy'n aros am wasanaeth. O ganlyniad, mae mwy o bobl yn cael gofal a chymorth mwy amserol yn eu cartrefi eu hunain.

3. Mae un o'r Timau Adnoddau Cymunedol yn treialu prosiect bregusrwydd, gyda chefnogaeth y Gronfa Integreiddio Ranbarthol. Mae'r prosiect yn canolbwyntio'n benodol ar roi cymorth ymatebol wedi'i deilwra er mwyn atal achosion lle bydd pobl yn gorfod mynd i'r ysbyty. **Mae tystiolaeth ystadegol yn dangos bod nifer y bobl yn yr ardal y mae angen gofal brys heb ei gynllunio arnynt wedi lleihau, gyda phobl yn cael eu cefnogi i aros yn eu cartrefi gyda chymorth amlddisgyblaethol. Mae hyn yn enghraifft o <u>arfer cadarnhaol</u>.**

***Meysydd i'w gwella***

**1.** Mae heriau wrth ddarparu gofal seibiant byr addas, a lleoliadau arbenigol ar gyfer pobl ag anghenion nyrsio a dementia. Clywsom fod rhai pobl wedi gorfod defnyddio gwasanaethau o'r fath y tu allan i ardal yr awdurdod lleol, oherwydd diffyg argaeledd yn lleol. **Rhaid i'r awdurdod lleol barhau i weithio ar ei ddatblygiadau strategol a gweithredol mewn partneriaeth ag eraill, er mwyn sicrhau bod pobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir mewn modd amserol a hynny mor agos â phosibl at eu cartref.**

**2.** Mae enghreifftiau o bobl yn cael budd o dechnoleg gynorthwyol i hyrwyddo eu hannibyniaeth a'u diogelwch. Fodd bynnag, mae enghreifftiau eraill lle nad oes unrhyw dystiolaeth bod hyn wedi'i ystyried. **Yn ystod y broses asesu a'r broses o gynllunio gofal a chymorth, rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod ymarferwyr yn ystyried yn gyson a fyddai gwasanaethau ataliol o fudd i bobl, gan gynnwys technoleg gynorthwyol.**

**Llesiant**

***Cryfderau***

1. Mae ymarfer diogelu oedolion wedi gwella. Sefydlwyd grŵp ymarfer da ym maes diogelu sydd wedi ysgogi gwelliannau mewn perthynas ag ymarfer diogelu oedolion. Caiff gwelliannau o ran ymarfer diogelu gweithredol eu cefnogi gan gynlluniau strategol a gweithredol sy'n cynnwys y canlynol, ymhlith eraill: cynllun darparu gwasanaethau, cynllun gwella diogelu oedolion a chanllawiau ymarfer ar gyfer gwasanaethau oedolion - ymgymryd ag ymholiadau diogelu oedolion.

2. Caiff adroddiadau oedolion sy'n wynebu risg eu sgrinio'n briodol, a chynhelir ymholiadau mewn modd amserol yn unol ag a. 126 o Ddeddf 2014. Ymgynghorir yn briodol â phartneriaid perthnasol a chânt eu cynnwys ar gamau gwahanol o'r broses ddiogelu gan gynnwys yn ystod prosesau sgrinio, wrth ymgymryd ag ymholiadau ac yn ystod cyfarfodydd strategaeth. Mae'r cofnodion yn glir ac yn gynhwysfawr, gan ddangos cydymffurfiaeth gryfach â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

3. Ystyrir pwy yw'r gweithiwr proffesiynol gorau i arwain yr ymholiad, gan ystyried pwy sy'n gyfarwydd i'r bobl a pharhad. Ceir ffocws ar hyrwyddo diogelwch yr oedolyn sy'n wynebu risg, ar sicrhau bod ei lais yn cael ei ystyried fel rhan ganolog o'r broses a bod rhesymeg glir pan gaiff ei lais a'i ddewisiadau eu diystyru. Caiff gwasanaeth eirioli annibynnol ffurfiol ei gomisiynu, gan sicrhau dull sy'n seiliedig ar hawliau.

4. Mae safon a chynnwys asesiadau o alluedd meddyliol wedi gwella gan sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r Cod Ymarfer. Yn yr enghreifftiau gorau, defnyddir dulliau cyfathrebu priodol wedi'u teilwra at yr unigolyn, ac ystyrir pwy fyddai'r person gorau i gefnogi'r unigolyn, gan adlewyrchu dull sy'n canolbwyntio ar y person. Caiff dogfennaeth berthnasol ei hystyried ac ymgynghorir â'r bobl allweddol hefyd er mwyn helpu i wneud penderfyniadau hyddysg a chadarn. Fodd bynnag, dylid ystyried yr iaith a ddefnyddir wrth nodi'r rheswm dros yr asesiad, gan sicrhau bod pob parti perthnasol yn ei ddeall, lle y bo'n bosibl. Mewn un enghraifft, nid oedd unrhyw dystiolaeth bod asesiad o alluedd meddyliol wedi'i gynnal lle byddai wedi bod yn briodol gwneud hynny. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau y caiff yr angen am Asesiad o Alluedd Meddyliol ei ystyried yn gyson ac y caiff asesiad o'r fath ei gynnal pan na fydd yn glir a oes gan unigolyn y galluedd meddyliol i wneud penderfyniad penodol.**

5. Cynhelir archwiliadau mewnol ar safon a chynnwys asesiadau o'r fath, gan nodi meysydd o ymarfer da a meysydd i'w cryfhau, gan ysgogi rhagor o welliannau.

**4) Cynnydd ers cyhoeddi’r Adroddiad**

Yn unol â gofynion y llythyr, rydym wedi paratoi cynllun datblygu i fonitro ein cynnydd a’n gwelliannau yn erbyn y meysydd a nodwyd gan AGC. Mae copi o’r llythyr ynghlwm i’w ystyried a’i gymeradwyo gennych.

**Mae’r wybodaeth fewnol sydd gennym ni am y gwasanaeth yn sgil cwblhau archwiliadau, dysgu o gwynion a gwrando ar adborth unigol yn golygu nad oedd canfyddiadau AGC yn syndod i ni yma yn Ynys Môn, ac mae hyn yn rhoi hyder i ni o ran ein hymarfer a’r gwasanaethau yr ydym ni’n eu darparu.**

| **6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb** **[cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Effeithiau posib ar grwpiau gwarchodedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| **Nid oes asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb wedi cael ei gwblhau.** |
| **6.2 Effeithiau posib ar y rhai hynny sy’n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| |
| **6.3 Effeithiau posib ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg** |
| Mae’r adroddiad ar gael yn y Gymraeg a’r Saesneg.<br><br>Mae AGC yn cynnig Arolygon yn y naill iaith, ac fe wnaeth sawl aelod o’r staff fanteisio ar y cynnig rhagweithiol i ddefnyddio eu hiaith ddewisol. |

| |
|---|
| Mae ein hadran Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ymrwymo i sicrhau ein bod ni'n cynnig dewis iaith wrth ddarparu gwasanaethau – cafodd hyn ei nodi gan AGC. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau:** |
|---|
| 1. Cynllun Gweithredu Gwasanaethau Oedolion Cyngor Sir Ynys Môn<br>2. Llythyr Gwiriad Gwella Gwasanaethau Oedolion: Arolygiaeth Gofal Cymru |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| |

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# CYNLLUN GWEITHREDU ARCHWILIAD CIW – MEHEFIN 2024

| CYNLLUN GWEITHREDU – GWASANAETH OEDOLION | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **POBL 4.01-4.11** | **GWEITHREDU/TASGAU** | **CYFRIFOLDEB** | **AMSERLEN** | **CYNNYDD** |
| 1 | **Mae'r asesiadau a'r cynlluniau gofal a chymorth yn sicrhau bod lles pobl a'r hyn sy'n bwysig iddynt yn cael eu cynrychioli'n gyson.** | Sicrhau bod llais defnyddwyr yn cael ei gofnodi yn glir o fewn asesiadau. | Arweinydd Tîm / Gweithiwr Cymdeithasol | Parhaus | |
| 2 | **Caiff pobl eu hysbysu am y penderfyniadau craidd a wneir amdanynt.** | Bod cofnod cynnig clir o wasanaeth eiriolaeth a chofnod o reswm dros wrthod neu nad oedd angen. | Arweinydd Tîm | Parhaus | |
| 3 | **Caiff trefniadau ar gyfer monitro amseroedd aros eu hatgyfnerthu, a chaiff cofnodion eu cymryd yn unol â hynny.** | Cadarnhau trefniadau o clir o ran disgwyliadau ac amserlenni ymateb/aros.<br><br>Mabwysiadau a gweithredu'r Safonau Ymarfer Gwasanaeth – Oedolion. | Pennaeth | Medi 2024<br><br>Cwblhawyd | |
| 4 | **Caiff adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth eu cynnal mewn modd amserol.** | Gofalu bod trefniadau i atgoffa staff o ddyddiad adolygu achos ac i fesur cydymffurfiad gyda gofyn adolygu pob 12 mis. | Rheolwr Data<br><br>Uwch Rheolwyr | Ionawr 2024 | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Bod adolygiadau mewn fformat briodol ar gyfer defnyddwyr. | | | |
| **5** | **Cynigir asesiadau i ofalwyr yn gyson yn unol â dyletswyddau statudol.** | Gofalu bod cynnig o asesiad gofalwr yn cael ei gofnodi.<br><br>Sicrhau bod asesiad gofalwr yn cael ei ail gynnig yn rheolaidd ee yn dilyn adolygiad neu pan fo newid.<br><br>Sicrhau templed ar gyfer staff i sicrhau cysondeb o ran ansawdd asesiadau gofalwyr. | Uwch Rheolwyr<br><br>Arweinydd Tîm | Parhaus | |
| **6** | **Caiff taliadau uniongyrchol eu blaenoriaethu o hyd er mwyn sicrhau eu bod ar gael yn hwylus i bobl.** | Sicrhau bod cynnig o Daliad Uniongyrchol (a'r ymateb) yn cael ei gofnodi.<br><br>Trefnu bod fideo yn hyrwyddo ac esbonio'r cynllun yn cael ei ddosbarthu. | Rheolwr Busnes<br><br>Swyddog Taliadau | Wedi cwblhau<br><br>Wedi cwblhau | |
| **7** | **Rhoddir digon o amser i'r staff fyfyrio ar eu hymarfer a chânt gyfarwyddyd buddiol gan aelodau mwy profiadol o'r staff.** | Mabwysiadu Polisi Goruchwylio Newydd.<br><br>i. Sicrhau bod goruchwyliaeth staff wedi gofnodi ar ffurflen safonol.<br>ii. Cynyddu'r pwyslais ar ymarfer adlewyrchol. | Uwch Rheolwyr<br><br>Arweinyddion Tîm | <br><br>14/01/25 | |
| **8** | **Mae'r staff yn cyfathrebu â phobl mewn modd amserol a gall y bobl gysylltu â nhw.** | Sicrhau bod gwybodaeth cyswllt clir ar gael fel bod unigolion yn ymwybodol o sut allent gysylltu gyda staff. | Uwch Rheolwyr | Hydref 2025 | |

| | ATAL 4.12-4.14 | GWEITHREDU/TASGAU | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 9 | **Mae pobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir mewn modd amserol.** | Parhau i feithrin trefniadau cydweithio 3ydd Sector er mwyn gwella mynediad at wasanaethau dementia.<br><br>Sicrhau trefn i adolygu rhestrau aros am wasanaethau di breswyl.<br><br>Parhau i ddatblygu'r Cynllun Bregusder.<br><br>Edrych ar opsiynau i ddarparu ysbaid tymor byr yn nes at gartref yr unigolyn. | Rheolwr Strategaeth Pobl Hyn | Mawrth 2025 | |
| | **LLESIANT 4.17-4.21** | **GWEITHREDU/TASGAU** | | | |
| 10 | **Mae ansawdd a chyflawnrwydd ymarfer diogelu oedolion, gan gynnwys y broses ar gyfer cadw cofnodion, yn cydymffurfio â Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Mae hyn yn cynnwys llunio cofnodion clir o benderfyniadau ar ôl y broses sgrinio gychwynnol, ynghyd â'r rhesymeg a'r penderfyniad o ran a oes angen ymholiadau Adran 126 o dan Ddeddf 2014.** | Parhau gyda grwp ymarfer da.<br><br>Sicrhau bod trefniadau sgrinio cadarn ar gyfer cyfeiriadau.<br><br>Bod ystyriaeth o'r person mwyaf priodol i arwain.<br><br>Bod trefn o awdits achlysurol i fesur ansawdd gwaith cydymffurfiaeth ac i rannu ymarfer gorau. | Rheolwr Diogelu | Cwblhawyd | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 11 | **Mae'r ymarfer sydd ar waith yn cyflawni'r dyletswyddau statudol yn gyson yn unol â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005).** | Bod trefn glir i ystyried yr angen ar gyfer MCA<br><br>Bod adolygiad o MCA yn digwydd i gynnal safon ac annog ymarfer da. | Rheolwr Diogelu | Awdit Chwarterol<br><br>Mewn llaw | |

ARCHWILIAD WEDI CANOLBWYNTIO AR **11 MAES GAFODD EI HAMLYGU YN YR ARCHWILIAD BLAENOROL**. NID OEDD YSTYRIED MEYSYDD PARTNERIAETHOL OEDD WEDI RHAGORI

| CRYFDERAU A NODWYD |
|---|
| **CANFYDDIADAU** |
| • Tîm Arwain cryf.<br>• Tystiolaeth o newidiadau cadarnhaol.<br>• Ymwybyddiaeth o feysydd gwella.<br>• Cyfeiriad clir o ran newid.<br>• Dogfennau a chyfeiriad strategol.<br>• Ymarferwyr cymwys ac ymroddedig.<br>• Diwylliant iach a chadarnhaol – Polisi Drws Agored.<br>• Sefydlogrwydd o fewn timau staff a darparu.<br>• Cefnogaeth corfforaethol a gwleidyddol sydd angen ei gynnal. |

| CANFYDDIADAU A MEYSYDD GWEITHREDU |
| --- |
| POBL -4.01-4.12 |

- Rhestrau aros wedi lleihau a threfn i monitor angen ac i adolygu.
- Rhestrau aros Therapi Galwedigaethol yn uchel.
- Atgyfnerthu'r drws ffrynt/Teulu Môn.
- Angen sicrhau'r cymorth cywir yn amserol.
- Sicrhau trefniadau cyfathrebu clir- bod gwybodaeth yn cael ei ddarparu ac yn gyfredol.
- Rhwyddineb cysylltu a gwasanaeth/gweithiwr.
- Sicrhau trefn i rannu a mabwysiadu'r safonau ymarfer.
- Monitro gwybodaeth am amseroedd aros.
- Hyrwyddo Taliadau Uniongyrchol.
- Cryfhau llais a dewis pobl o fewn asesiadau.
- Cysondeb o ran lleisiau aelodau teulu, gofalwyr ac eiriolwyr anffurfiol.
- Egluro ran y canlyniadau personol maent yn gyflawni.
- Sicrhau bod eiriol yn cael ei cynnig yn briodol a'i esbonio.
- Bod unigolion yn cael ei grymuso i fynegi anghenion a chymryd rhan.
- Cefnogi gofalwyr di-dal trwy gynnig asesiad ar wahân.
- Sicrhau bod ansawdd asesiadau yn gyson ac yn dilyn patrwm templed.
- Sicrhau bod adolygiadau yn cael ei cynnal yn gyson o fewn - 12 mis.
- Gofalu bod fformat cyson ar gyfer goruchwyliaeth.
- Sicrhau amser i fyfyrio ar ymarfer.
- Mabwysiadau y Bolisi Goruchwylio.
- Bod llesiant staff ac anghenion hyfforddiant a datblygiad yn cael ei goruchwylio.

| |
|---|
| **ATAL - 4-12-4-14** |
| • Parhau gyda buddsoddiadau a gweithgareddau ar y cyd gyda'r 3ydd Sector.<br>• Parhau ac ymestyn trefniadau i gefnogi pobl gyda dementia.<br>• Sicrhau bod trefniadau i adolygu rhestrau aros ac adolygu sefyllfa pobl sy'n disgwyl am gymorth.<br>• Cefnogi ac ymestyn y Cynllun Bregusrwydd.<br>• Edrych ar ganfod gofal seibiant a mynediad at leoliadau arbenigol.<br>• Defnyddio dechnoleg gynorthwyol i hyrwyddo annibyniaeth a diogelwch |
| **LLESIANT 4.17-4.21** |
| • Parhau gyda grwp ymarfer da diogelu.<br>• Canllawiau ymarfer ar gyfer ymholiadau diogelu.<br>• Sicrhau trefniadau sgrinio priodol.<br>• Ymgynghori priodol a pherthnasol gyda phartneriaid.<br>• Trafod pwy yw'r gweithiwr proffesiynol gorau i arwain.<br>• Cynnal safon asesiadau galluedd meddyliol.<br>• Sicrhau bod yr angen am Asesiad Meddyliol Galluedd yn cael ei ystyried yn gyson.<br>• Cynnal archwiliadau mewnol o safon a chynnwys asesiadau gan nodi ymarfer da a meysydd i'w cryfhau. |

**TASGAU PENODOL/GWEITHREDIADAU**

i. Gwella trefniadau i adolygu **rhestr aros** a trefnu i ddiweddaru unigolion o'u statws a'u cynnydd. (4.1)
ii. Bod atgyfeiriadau Therapi Galwedigaethol yn cael eu gwirio wrth y drws ffrynt drwy gael **Therapydd Galwedigaethol ar ddyletswydd** yn Teulu Môn ac monitro'r rhestr aros yn rheolaidd i wirio unrhyw ddewisiadau eraill. (4.2)
iii. Bod gennym drefniadau i hysbysu unigolion o brosesau gwasanaeth (Fideo DP/Llawlyfr Cyllid Cleientiaid etc). (4.6)
iv. Cadarnhau bwyntiau/manylion cyswllt clir ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a bod defnyddwyr gwasanaeth yn gallu gadael negeseuon ar gyfer staff. (4.4)
v. Bod Safonau Ymarfer Gwasanaeth yn cael eu mabwysiadu a'u lansio'n ffurfiol yn y Gynhadledd Staff. (4.4)
vi. Sicrhau bod cynnig DP wedi'i gofnodi ar ffeil. (4.6)
vii. Bod **llais a dewis** defnyddiwr y gwasanaeth/teulu/ yn cael eu adlewyrchu yn glir o fewn asesiadau. (4.7)
viii. Dylai asesiadau gadarnhau canlyniadau personol. (4.7)
ix. Cadarnhau fod eiriolaeth yn cael ei gynnig yn briodol a rhesymau pam nad oes ei angen/ei wrthod. (4.8)
x. Sicrhau bod Asesiadau Gofalwyr yn cael eu cynnig drwy gyflwyno templed i sicrhau bod asesiadau'n bodloni gofynion statudol. (4.9)
xi. Sicrhau bod adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth yn cael eu cynnal yn gyson ac o fewn amserlen statudol (12 mis) a bod adolygiadau yn y fformat mwyaf priodol ar gyfer unigolion. (4.10)
xii. Mabwysiadu Polisi Goruchwylio newydd a dogfennaeth gyffredin i sicrhau bod goruchwyliaeth yn cael ei gofnodi'n gyson. (4.11)
xiii. Rhoi gwell ffocws ar adfyfyrio ac yn annog amser penodol i ystyried ymarfer trwy gadarnhau dogfennaeth trwy profforma.
xiv. Adolygu sut y darperir egwyl tymor byr ac archwilio sut y gellid darparu gwasanaethau o'r fath mor agos â phosibl at y cartref. (4.15)
xv. Ystyried â all pobl elwa o wasanaethau ataliol gan gynnwys technoleg gynorthwyol. (4.16)
xvi. Gwneud yn siŵr bod y Grŵp Arferion Da Diogelu yn cwrdd yn rheolaidd. (4.17)
xvii. Sicrhau bod cynlluniau strategol a gweithredol yn cefnogi ymarfer gweithredol diogelu.
xviii. Sicrhau sgrinio digonol o adroddiadau oedolion sy'n wynebu risg ac ystyried y gweithiwr proffesiynol gorau a llais oedolyn mewn perygl. (4.19)
xix. Sicrhau bod yr angen am Asesiad Galluedd Meddyliol yn cael ei ystyried a'i gofnodi'n gyson. (4.20)
xx. Cynnal archwiliadau gwasanaeth rheolaidd i rannu arfer da a sicrhau cydymffurfiaeth â disgwyliadau'r gwasanaeth. (4.21)

Fôn Roberts,
Cyngor Sir Ynys Môn
FonRoberts@ynysmon.llyw.cymru

Ein cyf / Our ref:

Dyddiad / Date:

Annwyl Gyfarwyddwr,

**Ymweliad Gwiriad Gwella â Chyngor Sir Ynys Môn – gwasanaethau oedolion**

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi canfyddiadau'r ymweliad Gwiriad Gwella â gwasanaethau oedolion (y gwasanaeth), Cyngor Sir Ynys Môn rhwng 24 a 26 Mehefin 2024. Roedd hwn yn dilyn yr Arolygiad Gwerthuso Perfformiad ym mis Hydref 2022.

## 1. Cyflwyniad

Rydym yn ymgymryd â gweithgarwch arolygu yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014); llinellau ymholi allweddol; a'r safonau ansawdd yn y *Cod ymarfer mewn perthynas â pherfformiad a gwella gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru*. Mae hyn yn ein helpu i bennu pa mor effeithiol yw awdurdodau lleol wrth gefnogi, mesur, a chynnal gwelliannau i bobl ac mewn gwasanaethau.

1.2 Canolbwyntiodd y Gwiriad Gwella ar y cynnydd a wnaed yn y meysydd y nodwyd bod angen eu gwella yn ystod ein Harolygiad Gwerthuso Perfformiad ym mis Hydref 2022.

| Egwyddor | Meysydd i'w gwella a nodwyd yn yr Arolygiad Gwerthuso Perfformiad ym mis Hydref 2022. | Cynnydd a nodwyd yn ystod y gwiriad gwella ym mis Mehefin 2024. |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| Pobl | Mae'r asesiadau a'r cynlluniau gofal a chymorth yn sicrhau bod lleisiau pobl a'r hyn sy'n bwysig iddynt yn cael eu cynrychioli'n gyson | Rhai gwelliannau wedi'u gwneud: angen cymryd camau pellach. |
| | Caiff pobl eu hysbysu am y penderfyniadau craidd a wneir amdanynt | Rhai gwelliannau wedi'u gwneud: angen cymryd camau pellach. |
| | Caiff trefniadau ar gyfer monitro amseroedd aros eu hatgyfnerthu, a chaiff cofnodion eu cymryd yn unol â hynny | Gwelliannau wedi'u gwneud a rhaid eu cynnal. |
| | Caiff adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth eu cynnal mewn modd amserol | Rhai gwelliannau wedi'u gwneud: angen cymryd camau pellach. |
| | Cynigir asesiadau i ofalwyr yn gyson yn unol â dyletswyddau statudol | Rhai gwelliannau wedi'u gwneud: angen cymryd camau pellach. |
| | Caiff taliadau uniongyrchol eu blaenoriaethu o hyd er mwyn sicrhau eu bod ar gael yn hwylus i bobl | Gwelliannau wedi'u gwneud a rhaid eu cynnal. |
| | Rhoddir digon o amser i'r staff fyfyrio ar eu hymarfer a chânt gyfarwyddyd buddiol gan aelodau mwy profiadol o'r staff | Rhai gwelliannau wedi'u gwneud: angen cymryd camau pellach. |
| | Mae'r staff yn cyfathrebu â phobl mewn modd amserol a gall y bobl gysylltu â nhw | Rhai gwelliannau wedi'u gwneud: angen cymryd camau pellach. |

| | | |
|---|---|---|
| Atal | Mae pobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir mewn modd amserol. | Rhai gwelliannau wedi'u gwneud: angen cymryd camau pellach. |
| Llesiant | Mae ansawdd a chyflawnrwydd ymarfer diogelu oedolion, gan gynnwys y broses ar gyfer cadw cofnodion, yn cydymffurfio â Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Mae hyn yn cynnwys llunio cofnodion clir o benderfyniadau ar ôl y broses sgrinio gychwynnol, ynghyd â'r rhesymeg a'r penderfyniad o ran a oes angen ymholiadau Adran 126 o dan Ddeddf 2014.<br><br>Mae'r ymarfer sydd ar waith yn cyflawni'r dyletswyddau statudol yn gyson yn unol â'r Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005). | Gwelliannau wedi'u gwneud a rhaid eu cynnal.<br><br>Gwelliannau wedi'u gwneud a rhaid eu cynnal. |

## 2. Rhestr Terminoleg

Ceir rhestr terminoleg yn Atodiad 1.

## 3. Crynodeb - Gwasanaethau Oedolion

3.1 Mae tîm arwain cryf yng ngwasanaethau oedolion Cyngor Sir Ynys Môn, sydd wedi cyflwyno newidiadau cadarnhaol a'u rhoi ar waith. Mae'r tîm arwain yn ymwybodol o feysydd y mae angen eu hatgyfnerthu ymhellach. Mae wedi gweithio'n galed i bennu cyfeiriad clir ar gyfer newid, gan lunio dogfennau strategol a gweithredol perthnasol, gyda chefnogaeth ymarferwyr cymwys ac ymroddedig, er mwyn rhoi'r newidiadau gofynnol ar waith yn ymarferol.

3.2 Mae'r ymarferwyr yn disgrifio aelodau'r tîm arwain fel unigolion gweladwy, hygyrch a chefnogol. Disgrifir hefyd ddiwylliant y gwasanaeth fel diwylliant iach a chadarnhaol, gyda pholisi drws agored yn cael ei hyrwyddo'n gyson. Mae'r arweinwyr yr un mor gadarnhaol ynghylch ymarfer ac ymrwymiad yr ymarferwyr.

3.3 Mae mwy o sefydlogrwydd yn y timau staff, ac ymhlith timau'r darparwyr cymorth cartref a chartrefi gofal. Mae hyn wedi arwain at wasanaeth gwell a mwy amserol i'r bobl, a hynny ar adeg lle y cafwyd cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau a chynnydd o ran cymhlethdod anghenion pobl.

3.4 Mae'r gwasanaeth wedi parhau i elwa ar gymorth corfforaethol a gwleidyddol. Mae'n hanfodol bod hyn yn parhau, er mwyn sicrhau bod y cynnydd a wneir yn cael ei gynnal, a bod y meysydd y mae angen eu gwella ymhellach yn cael cefnogaeth ddigonol. Mae hyn er mwyn sicrhau bod yr awdurdod lleol yn cyflawni ei gyfrifoldebau statudol yn gyson.

## 4.0 Canfyddiadau allweddol a thystiolaeth

Cyflwynir canfyddiadau allweddol ac enghreifftiau o dystiolaeth isod yn unol â phedair egwyddor Deddf 2014.

## Pobl

### Cryfderau

4.1 Mae'r rhestrau aros ar gyfer asesiadau gwaith cymdeithasol wedi lleihau'n sylweddol. Mae trefniadau clir ar waith bellach ar gyfer monitro rhestrau o'r fath, gyda'r awdurdod lleol yn cysylltu â phobl sy'n aros i gael asesiad fel mater o drefn i holi ynghylch eu diogelwch a'u llesiant.

4.2 Mae'r rhestrau aros ar gyfer gwasanaethau therapi galwedigaethol yn uchel o hyd. Fodd bynnag, mae'r trefniadau wrth y drws ffrynt wedi cael eu hatgyfnerthu yn ddiweddar. Mae Therapydd Galwedigaethol bellach yn craffu ar atgyfeiriadau ac yn eu goruchwylio'n fanylach. Rhoddir ystyriaeth i gadarnhau a yw'r atgyfeiriad wedi'i wneud i'r gwasanaeth cywir, neu a fyddai math arall o wybodaeth, cyngor neu gymorth o bosibl yn fwy priodol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod pobl yn cael y cymorth cywir mewn modd mwy amserol, pan fydd yr ymarfer wedi'i roi ar waith yn llawn.

4.3 Ar y cyfan, mae'r prosesau ar gyfer cyfathrebu â phobl wedi gwella. Ceir enghreifftiau o wybodaeth yn cael ei rhannu'n briodol â phobl, gan gynnwys diweddariadau cynnydd am wasanaethau, cyfarpar a newidiadau o ran gweithwyr allweddol.

4.4 O ran cysylltu â'r gwasanaeth, nododd y mwyafrif o'r ymatebwyr (68%) i arolwg pobl a gyhoeddwyd ei fod yn 'hawdd iawn' neu'n 'hawdd', gyda nifer bach (18%) yn nodi 'ddim yn hawdd nac yn anodd', a nifer bach o ymatebwyr eraill (14%) yn nodi ei fod 'ddim yn hawdd' neu'n 'anodd iawn'. Mae'r gwasanaethau drws ffrynt i blant ac oedolion bellach wedi cael eu cydleoli, gan gynnig mwy o gydnerthedd o ran gallu'r gwasanaeth i ymateb i bobl, sydd wedi cyfrannu at wella safon ac amseroldeb y broses o gyfathrebu â phobl. Mae'r sylwadau cyffredinol ynghylch cysylltu â'r awdurdod lleol yn gadarnhaol. Mae'r safonau ymarfer a luniwyd ac a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar gyfer y gwasanaeth, y cyfrannodd y staff atynt, yn esbonio'r disgwyliad o ran y terfynau amser ar gyfer ymateb i bobl. Gallai hyn lywio gwelliannau pellach mewn perthynas ag amseroldeb a safon y broses gyfathrebu.

4.5 Dangosodd canlyniadau ein harolwg hefyd fod y rhan fwyaf o bobl yn fodlon ar y broses gyfathrebu. Er enghraifft, nododd 96.5% o'r ymatebwyr eu bod yn cael eu trin ag urddas “bob amser” neu “y rhan fwyaf o'r amser”, a dywedodd 89% eu bod yn teimlo bod y staff yn gwrando arnynt “bob amser” neu “y rhan fwyaf o'r amser.”

4.6 **Yn unol â'r Cynllun Darparu Gwasanaethau, mae'r gwasanaeth wedi ehangu ei adnoddau i hyrwyddo'r opsiwn taliadau uniongyrchol sy'n ymarfer cadarnhaol.** Gwelwyd tystiolaeth bod taliadau uniongyrchol yn cael eu trafod â phobl fel opsiwn iddynt ei ddefnyddio i ddiwallu eu hanghenion cymwys. Mae nifer y bobl sy'n cael taliadau uniongyrchol wedi cynyddu. Soniodd un gofalwr y siaradwyd ag ef am fanteision taliadau uniongyrchol iddo. Mae wedi gallu nodi a dewis unigolyn y mae'n gyfarwydd ag ef i'w gefnogi ar adeg addas ac mewn lleoliad addas er mwyn diwallu anghenion y person sy'n derbyn gofal a'r gofalwr.

**Meysydd i'w Gwella**

4.7 Mae tystiolaeth o lais a dewis pobl mewn asesiadau a chynlluniau gofal a chymorth yn anghyson o hyd. Mae enghreifftiau da lle ceir cyfeiriadau amlwg at ddymuniadau, teimladau a chanlyniadau pobl. Mewn enghreifftiau eraill, mae llais a dewis unigolion yn gyfyngedig ac nid yw'n glir. Yn yr un modd, mae tystiolaeth o leisiau aelodau o'r teulu ac eiriolwyr anffurfiol hefyd yn anghyson. Os bydd yr unigolyn yn cytuno i hynny, dylai safbwyntiau'r teulu a gofalwyr di-dâl hefyd lywio'r asesiadau a'r cynlluniau gofal a chymorth. **Yn unol â'r Cod Ymarfer, Rhan 3 (asesu anghenion unigolion), rhaid i asesiadau gynnwys y pum elfen allweddol ac adlewyrchu sgyrsiau sy'n seiliedig ar gryfderau a gynhelir â phobl er mwyn nodi beth sy'n bwysig iddynt. Rhaid iddynt hefyd gynnwys y canlyniadau personol y maent am eu cyflawni a pha gyfraniad y gallan nhw a'u teulu, eu ffrindiau a'r gymuned leol ei wneud tuag at gyflawni'r canlyniadau hynny.**

4.8 Mae enghreifftiau o wasanaeth eirioli yn cael ei gynnig yn briodol i bobl. Mae'n amlwg bod pobl yn cael budd o wasanaeth eirioli proffesiynol annibynnol, gan gynnwys yng nghyd-destun materion diogelu. Fodd bynnag, nid yw'r ymarfer hwn yn gyson ac mae enghreifftiau sy'n dangos bod cyfleoedd yn cael eu colli i drafod a fyddai pobl yn cael budd o gael eiriolwr, boed hynny'n ffurfiol neu'n anffurfiol. Mae angen nodi mwy o fanylion hefyd pan gaiff cynigion o'r fath eu gwrthod. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod pobl yn cael eu grymuso'n gyson i fynegi eu hanghenion ac i gymryd rhan lawn fel partneriaid cyfartal, gyda'r opsiwn o gael eiriolaeth yn cael ei esbonio'n glir.**

4.9 Mae'r awdurdod lleol yn ymrwymedig i gefnogi gofalwyr di-dâl ac mae'n mynd ati i fonitro ei berfformiad o ran cynnig asesiadau i ofalwyr. Cafwyd cynnydd cadarnhaol yn nifer yr asesiadau a gynigir i ofalwyr. Mae cofnodion gofal cymdeithasol hefyd yn

cadarnhau bod gofalwyr yn cael cynnig asesiadau a'u bod yn cael cymorth i ddiwallu eu hanghenion cymwys. Fodd bynnag, nid yw'r ymarfer hwn yn gyson, ac mae ansawdd asesiadau gofalwyr yn amrywiol. Mae'r awdurdod lleol yn gweithio ar dempled drafft ar gyfer asesu anghenion gofalwyr, a bydd y templed diwygiedig yn helpu i sicrhau bod yr asesiadau yn bodloni'r gofynion statudol. **Rhaid i'r awdurdod lleol asesu'n fwy cyson yn unol â chanllawiau statudol a oes gan ofalwr anghenion cymorth (neu a yw'n debygol y bydd ganddo anghenion o'r fath yn y dyfodol) ac os felly, beth yw'r anghenion hynny neu'r anghenion tebygol hynny (Cod Ymarfer (Rhan 3) o Ddeddf 2014).**

4.10 Ni chaiff adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth pobl eu cynnal yn gyson o fewn y terfynau amser statudol gofynnol. **Er y cydnabyddir bod rhywfaint o waith cadarnhaol i oruchwylio a rhoi sicrwydd ynghylch amgylchiadau rhai pobl drwy drafodaethau wythnosol â darparwyr ac yn ystod cyfarfodydd wythnosol y Tîm Adnoddau Cymunedol amlddisgyblaethol, rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau nad yw'r dyddiad adolygu fwy na 12 mis yn ddiweddarach er mwyn sicrhau bod cynlluniau gofal a chymorth yn dal i fod yn briodol ac yn berthnasol i'r unigolyn.** Rhaid sicrhau hefyd y caiff adolygiadau eu cynnal gan ddefnyddio'r fformat mwyaf priodol i'r unigolyn.

4.11 Cadarnhaodd ymarferwyr eu bod yn cael amser i fyfyrio ar eu hymarfer yn ffurfiol ac yn anffurfiol. Fodd bynnag, o'r sampl o gofnodion goruchwylio ysgrifenedig a welwyd, dim ond cyfeiriadau cyfyngedig ac anghyson yr oeddent yn eu cynnwys at drafodaethau ynghylch ymarfer myfyriol, llesiant staff, anghenion datblygu a'r cynnydd a wnaed â phobl. Mae'n galonogol nodi bod Cyngor Sir Ynys Môn wedi drafftio polisi goruchwylio wedi'i ddiweddaru. Nodir bod y fersiwn ddrafft yn atgyfnerthu'r ffocws ar ymarfer myfyriol wedi'i lywio gan fframwaith cysyniadol ar gyfer goruchwyliaeth effeithiol. Mae Cynllun Darparu Gwasanaethau'r awdurdod lleol yn cyfeirio at ragor o strategaethau i wella ymarfer myfyriol ac mae'n cynnwys trefniadau ar gyfer monitro ac adolygu ffeiliau goruchwylio a hyfforddiant pellach gan ganolbwyntio ar fentora. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau tystiolaeth gyson i ddangos bod ymarfer, llesiant staff, ac anghenion hyfforddiant a datblygiad yn cael eu goruchwylio, a bod trafodaethau myfyriol yn cael eu cynnal.**

## Atal

### Cryfderau

4.12 Mae'r awdurdod lleol wedi gwneud buddsoddiadau cyfalaf sylweddol gan wella'r amrywiaeth o wasanaethau gofal a chymorth a'u hargaeledd. Mae'r rhain yn cynnwys buddsoddi mewn safleoedd byw â chymorth anableddau dysgu newydd

sy'n fwy addas i anghenion pobl nawr ac yn y dyfodol; a'r Ganolfan Dementia yng Nghanolfan Glanhwfa, Llangefni, sydd wedi cael ei hadnewyddu. **Caiff nifer o wasanaethau trydydd sector eu cyd-leoli yn y ganolfan gan gynnig gwybodaeth, cyngor a gweithgareddau gwahanol i bobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr mewn un lleoliad sy'n arfer cadarnhaol.**

4.13 Mae'r rhestrau aros ar gyfer gwasanaethau cymorth cartref wedi lleihau'n sylweddol, a cheir prosesau cadarnach ar gyfer goruchwylio sefyllfaoedd pobl sy'n aros am wasanaeth. O ganlyniad, mae mwy o bobl yn cael gofal a chymorth mwy amserol yn eu cartrefi eu hunain.

4.14 Mae un o'r Timau Adnoddau Cymunedol yn treialu prosiect bregusrwydd, gyda chefnogaeth y Gronfa Integreiddio Ranbarthol. Mae'r prosiect yn canolbwyntio'n benodol ar roi cymorth ymatebol wedi'i deilwra er mwyn atal achosion lle bydd pobl yn gorfod mynd i'r ysbyty. **Mae tystiolaeth ystadegol yn dangos bod nifer y bobl yn yr ardal y mae angen gofal brys heb ei gynllunio arnynt wedi lleihau, gyda phobl yn cael eu cefnogi i aros yn eu cartrefi gyda chymorth amlddisgyblaethol. Mae hyn yn enghraifft o arfer cadarnhaol.**

### Meysydd i'w Gwella

4.15 Mae heriau wrth ddarparu gofal seibiant byr addas, a lleoliadau arbenigol ar gyfer pobl ag anghenion nyrsio a dementia. Clywsom fod rhai pobl wedi gorfod defnyddio gwasanaethau o'r fath y tu allan i ardal yr awdurdod lleol, oherwydd diffyg argaeledd yn lleol. **Rhaid i'r awdurdod lleol barhau i weithio ar ei ddatblygiadau strategol a gweithredol mewn partneriaeth ag eraill, er mwyn sicrhau bod pobl yn cael y gofal a'r cymorth cywir mewn modd amserol a hynny mor agos â phosibl at eu cartref.**

4.16 Mae enghreifftiau o bobl yn cael budd o dechnoleg gynorthwyol i hyrwyddo eu hannibyniaeth a'u diogelwch. Fodd bynnag, mae enghreifftiau eraill lle nad oes unrhyw dystiolaeth bod hyn wedi'i ystyried. **Yn ystod y broses asesu a'r broses o gynllunio gofal a chymorth, rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod ymarferwyr yn ystyried yn gyson a fyddai gwasanaethau ataliol o fudd i bobl, gan gynnwys technoleg gynorthwyol.**

## <u>Llesiant</u>

### Cryfderau

4.17 Mae ymarfer diogelu oedolion wedi gwella. Sefydlwyd grŵp ymarfer da ym maes diogelu sydd wedi ysgogi gwelliannau mewn perthynas ag ymarfer diogelu

oedolion. Caiff gwelliannau o ran ymarfer diogelu gweithredol eu cefnogi gan gynlluniau strategol a gweithredol sy'n cynnwys y canlynol, ymhlith eraill: cynllun darparu gwasanaethau, cynllun gwella diogelu oedolion a chanllawiau ymarfer ar gyfer gwasanaethau oedolion - ymgymryd ag ymholiadau diogelu oedolion.

4.18 Caiff adroddiadau oedolion sy'n wynebu risg eu sgrinio'n briodol, a chynhelir ymholiadau mewn modd amserol yn unol ag a. 126 o Ddeddf 2014. Ymgynghorir yn briodol â phartneriaid perthnasol a chânt eu cynnwys ar gamau gwahanol o'r broses ddiogelu gan gynnwys yn ystod prosesau sgrinio, wrth ymgymryd ag ymholiadau ac yn ystod cyfarfodydd strategaeth. Mae'r cofnodion yn glir ac yn gynhwysfawr, gan ddangos cydymffurfiaeth gryfach â Gweithdrefnau Diogelu Cymru.

4.19 Ystyrir pwy yw'r gweithiwr proffesiynol gorau i arwain yr ymholiad, gan ystyried pwy sy'n gyfarwydd i'r bobl a pharhad. Ceir ffocws ar hyrwyddo diogelwch yr oedolyn sy'n wynebu risg, ar sicrhau bod ei lais yn cael ei ystyried fel rhan ganolog o'r broses a bod rhesymeg glir pan gaiff ei lais a'i ddewisiadau eu diystyru. Caiff gwasanaeth eirioli annibynnol ffurfiol ei gomisiynu, gan sicrhau dull sy'n seiliedig ar hawliau.

4.20 Mae safon a chynnwys asesiadau o alluedd meddyliol wedi gwella gan sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a'r Cod Ymarfer. Yn yr enghreifftiau gorau, defnyddir dulliau cyfathrebu priodol wedi'u teilwra at yr unigolyn, ac ystyrir pwy fyddai'r person gorau i gefnogi'r unigolyn, gan adlewyrchu dull sy'n canolbwyntio ar y person. Caiff dogfennaeth berthnasol ei hystyried ac ymgynghorir â'r bobl allweddol hefyd er mwyn helpu i wneud penderfyniadau hyddysg a chadarn. Fodd bynnag, dylid ystyried yr iaith a ddefnyddir wrth nodi'r rheswm dros yr asesiad, gan sicrhau bod pob parti perthnasol yn ei ddeall, lle y bo'n bosibl. Mewn un enghraifft, nid oedd unrhyw dystiolaeth bod asesiad o alluedd meddyliol wedi'i gynnal lle byddai wedi bod yn briodol gwneud hynny. **Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau y caiff yr angen am Asesiad o Alluedd Meddyliol ei ystyried yn gyson ac y caiff asesiad o'r fath ei gynnal pan na fydd yn glir a oes gan unigolyn y galluedd meddyliol i wneud penderfyniad penodol.**

4.21 Cynhelir archwiliadau mewnol ar safon a chynnwys asesiadau o'r fath, gan nodi meysydd o ymarfer da a meysydd i'w cryfhau, gan ysgogi rhagor o welliannau.

## 5. Y Camau Nesaf

5.1 Rydym yn disgwyl i Gyngor Sir Ynys Môn gymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r meysydd y nodwyd bod angen eu gwella. Byddwn yn monitro cynnydd drwy ein gweithgarwch adolygu perfformiad parhaus gyda'r awdurdod lleol. Rydym yn croesawu ymdrechion gan yr awdurdod lleol i rannu'r ymarfer cadarnhaol a nodwyd

gydag awdurdodau lleol eraill, er mwyn hyrwyddo'r gwersi a ddysgwyd a helpu i lywio gwelliant parhaus mewn gwasanaethau statudol ledled Cymru.

5.2 Disgwylir i'r awdurdod lleol gyflwyno'r llythyr hwn i aelodau etholedig a'i wneud yn destun proses graffu gyhoeddus drwy gyfarfod pwyllgor ffurfiol ac agored cyn gynted â phosibl. Dylid hefyd estyn gwahoddiad i AGC fynychu'r cyfarfod.

## 6. Methodoleg

**Gwaith maes**

- Casglwyd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth arolygu drwy adolygu profiadau pobl, drwy edrych ar eu cofnodion gofal cymdeithasol a'u holrhain. Gwnaethom adolygu 35 o gofnodion gofal cymdeithasol ac olrhain pedwar.
- Gall olrhain cofnod gofal cymdeithasol unigolyn gynnwys sgwrsio â'r person sy'n cael gwasanaethau gofal cymdeithasol, ei deulu neu ei ofalwyr, ei weithiwr allweddol, rheolwr y gweithiwr allweddol, a gweithwyr proffesiynol cysylltiedig eraill.
- Gwnaethom ymgysylltu, drwy gyfweliadau a/neu grwpiau ffocws, â 3 unigolyn sy'n derbyn gwasanaethau a/neu eu gofalwr.
- Gwnaethom ymgysylltu drwy gyfweliadau a/neu grwpiau ffocws â 10 o gyflogeion yr awdurdod lleol.
- Gwnaethom gyfweld â 2 eiriolwr annibynnol ffurfiol.
- Gwnaethom edrych ar sampl o ffeiliau goruchwylio staff.
- Gwnaethom edrych ar ddogfennau ategol a anfonwyd at AGC at ddiben yr arolygiad.
- Gwnaethom ddosbarthu arolygon i staff gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol, pobl a gofalwyr. Cafodd 54 o arolygon eu cwblhau gan staff gwasanaethau cymdeithasol a chafodd 56 o arolygon eu cwblhau gan bobl neu eu gofalwyr.

Mae ein Hysbysiad Preifatrwydd ar gael yn https://arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol.

## 7. Y Gymraeg

7.1 Cyflawnwyd ymrwymiad AGC i ddarparu cynnig rhagweithiol i gynnal rhannau o'r arolygiad yn Gymraeg. Roedd angen y cynnig rhagweithiol yn ystod yr arolygiad hwn.

## 8. Cydnabyddiaethau

8.1 Hoffai AGC ddiolch i'r staff, y partneriaid a'r bobl a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr arolygiad hwn.

Yn gywir,

**Lou Bushell-Bauers**
Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol
**Arolygiaeth Gofal Cymru**

# Atodiad 1

## Rhestr Terminoleg

| Term | Beth rydym yn ei olygu yn ein hadroddiadau a'n llythyrau |
|---|---|
| **Rhaid** | Ystyrir bod angen gwella i'r awdurdod lleol gyflawni dyletswydd a nodir mewn deddfwriaeth, rheoliad neu god ymarfer. Nid yw'r awdurdod lleol yn cyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau statudol ar hyn o bryd a rhaid iddo weithredu. |
| **Dylai** | Bydd gwelliant yn cynnig gwasanaeth gwell a/neu ganlyniadau gwell i'r bobl a/neu eu gofalwr. Nid yw'n cyfateb i fethiant i gyflawni dyletswydd statudol ar hyn o bryd; ond heb gymryd camau addas, mae risg y gallai'r awdurdod lleol fethu â chyflawni ei ddyletswydd/dyletswyddau cyfreithiol yn y dyfodol. |
| **Ymarfer cadarnhaol** | Meysydd o gryfder a nodwyd yn yr awdurdod lleol. Mae'n ymwneud ag ymarfer yr ystyrir ei fod yn arloesol a/neu sy'n arwain yn gyson at ganlyniadau cadarnhaol i bobl sy'n cael gwasanaethau statudol. |
| **Gwella** | Mae hyn yn ymwneud â meysydd y mae'r awdurdod lleol wedi'u hatgyfnerthu y nodwyd yn ein gweithgarwch blaenorol bod angen eu gwella er mwyn cyflawni dyletswydd a nodir mewn deddfwriaeth, rheoliad neu god ymarfer. |
| **Atal ac Ymyrryd yn Gynnar** | Un o egwyddorion Deddf 2014 sy'n anelu at sicrhau bod cymorth ar gael i atal sefyllfaoedd rhag gwaethygu, a gwella'r broses o sicrhau llesiant unigol a chyffredinol. Mae'r egwyddor hon yn canolbwyntio ar gynyddu gwasanaethau ataliol mewn cymunedau er mwyn atal anghenion critigol rhag dwysáu. |
| **Llais a Rheolaeth** | Un o egwyddorion Deddf 2014 sy'n anelu at roi unigolion a'u hanghenion wrth wraidd eu gofal a'u cymorth, a rhoi llais a rheolaeth iddynt mewn perthynas â'r canlyniadau a all eu helpu i sicrhau llesiant ac i gyflawni'r pethau sydd bwysicaf iddynt. |
| **Llesiant** | Un o egwyddorion Deddf 2014 sy'n anelu at sicrhau llesiant i bobl ym mhob rhan o'u bywydau. Mae llesiant yn golygu |

| | |
|---|---|
| | mwy na bod yn iach. Mae'n ymwneud â bod yn ddiogel ac yn hapus, cael dewis a chael y cymorth priodol, bod yn rhan o gymuned gadarn, bod â ffrindiau a chydberthnasau buddiol, a chael diddordebau, gwaith neu gyfleoedd dysgu. Mae'n ymwneud â helpu pobl i sicrhau eu llesiant eu hunain a mesur llwyddiant gofal a chymorth. |
| **Cydgynhyrchu** | Un o egwyddorion Deddf 2014 sy'n anelu at gynnwys pobl yn fwy wrth ddylunio a darparu eu gofal a'u cymorth. Mae'n golygu sicrhau bod sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda nhw a'u teulu, eu ffrindiau a'u gofalwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cael y gofal a'r cymorth gorau. |
| **Gwaith amlasiantaethol** | Un o egwyddorion Deddf 2014 sy'n anelu at atgyfnerthu'r trefniadau cydweithio rhwng sefydliadau gofal a chymorth er mwyn gwneud yn siŵr bod y mathau priodol o gymorth a gwasanaethau ar gael mewn cymunedau lleol i ddiwallu anghenion pobl. Mae crynodeb y Ddeddf yn nodi ei bod hi'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gydweithredu a gweithio mewn partneriaeth. |
| **Yr hyn sy'n bwysig** | Mae sgyrsiau am 'Yr Hyn sy'n Bwysig' yn galluogi gweithwyr proffesiynol i ddeall sefyllfa pobl, eu llesiant ar y pryd, a'r hyn y gellir ei wneud i'w helpu. Mae'n sgwrs gyfartal ac mae'n bwysig er mwyn helpu i sicrhau y caiff llais yr unigolyn neu'r gofalwr a'r 'hyn sy'n bwysig' iddynt eu clywed. |

| **CYNGOR SIR YNYS MÔN**<br>**Templed Adroddiad Sgriwtini** | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **16 Hydref, 2024** |
| **Pwnc:** | **Enwebiadau Pwyllgor – Panelau Sgriwtini Cyllid ac Addysg** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Enwebu Aelod(au) Etholedig o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i wasanaethu ar y Panelau Sgriwtini Cyllid ac Addysg** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Douglas Fowlie** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Cyng Robin Williams, Dirprwy Arweinydd a Chyllid / Tai**<br>**Cyng Dafydd Roberts, Deilydd Portffolio Addysg a'r Gymraeg** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro**<br>**Marc Jones, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151**<br>**Marc Berw Hughes, Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**07971167198**<br>**AnwenDavies@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

| **1 – Argymhelliad/Argymhellion** |
|---|
| **A1** Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol enwebu:<br>• 1 Aelod Etholedig i wasanaethu ar y **Panel Sgriwtini Cyllid**<br>• 1 Aelod Etholedig i wasanaethu ar y **Panel Sgriwtini Addysg**. |

| **2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Amherthnasol |

| **3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini** |
|---|
| **Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**<br><br>**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br><br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br><br>**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**<br><br>**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:<br>• Hirdymor<br>• Atal<br>• Integreiddio |

- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

## 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

Amherthnasol

## 5 – Cefndir / Cyd-destun

1. **Cefndir**

1.1 Bydd Aelodau'n ymwybodol y rhoddwyd ystyriaeth i nifer o banelau sydd angen cynrychiolaeth Aelod Sgriwtini mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 20 Mehefin, 2022. Cytunwyd ar enwebiadau ar gyfer y 3 Phanel Sgriwtini. Mae'r adroddiad hwn yn trafod aelodaeth y Panelau Sgriwtini Cyllid ac Addysg.

1.2 Mae cylch gorchwyl y ddau Banel ynghlwm (**Atodiad 1 a 2**) er mwyn cynorthwyo'r Aelodau yn y broses enwebu.

2. **Trafodaeth**

2.1 **Aelodaeth y Panelau Sgriwtini Cyllid ac Addysg**

Nid yw aelodaeth y panelau'n ddarostyngedig i'r egwyddorion a'r rheolau cydbwysedd gwleidyddol[1]. Mae aelodaeth graidd y Panelau yn cynnwys:

**Panel Sgriwtini Cyllid**

- **Aelodau Etholedig** – 3 Aelod o'r ddau Bwyllgor Sgriwtini[2]
- **Deilydd Portffolio ar gyfer Cyllid a Thai** – fel sylwedydd heb bleidlais
- **Swyddogion** – Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151, Rheolwr Gwasanaethau Cyllid, Rheolwr Sgriwtini.

**Panel Sgriwtini Addysg**

- **Aelodau Etholedig** – 4 Aelod o'r ddau Bwyllgor Sgriwtini
- **Deilydd Portffolio ar gyfer Addysg a'r Gymraeg** – fel sylwedydd heb bleidlais
- **Swyddogion** – Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc, Rheolwr Sgriwtini.

---

[1] Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn nodi'r prif egwyddorion sy'n rheoli cydbwysedd gwleidyddol awdurdodau lleol

[2] Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio

2.2 **Aelodaeth Gyfredol y Panelau Sgriwtini Cyllid ac Addysg**

Yn sgil ystyriaeth gan y ddau Bwyllgor Sgriwtini ym mis Mehefin 2022[3], mae aelodaeth gyfredol y Panelau fel a ganlyn:

**Panel Sgriwtini Cyllid**

- **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (3 Aelod)**
  i. Cyng Geraint ap Bebb (cadair)
  ii. Cyng Dyfed Wyn Jones
  iii. Cyng Ieuan Williams

- **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio (3 Aelod)**
  i. Cyng Dylan Rees (is-gadair)
  ii. Cyng Ken Taylor
  iii. Cyng Derek Owen.

**Panel Sgriwtini Addysg**

- **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (4 Aelod)**
  i. Cyng Dyfed Wyn Jones
  ii. Cyng Arfon Wyn
  iii. Cyng Alwen Watkin
  iv. Cyng Keith Roberts

- **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio (4 Aelod)**
  i. Cyng Gwilym Jones (cadair)
  ii. Cyng Margaret Roberts (is-gadair)
  iii. Cyng Non Dafydd
  iv. Cyng Derek Owen.

**2.3** Mae un sedd wag wedi codi ar y Panel Sgriwtini Cyllid a hefyd un sedd wag ar y Panel Sgriwtini Addysg o ganlyniad i ymddiswyddiad y Cynghorydd Dyfed Wyn Jones – yn sgil ei benodiad diweddar i'r Pwyllgor Gwaith. Daw'r seddau gwag yma o blith yr Aelodau Etholedig sy'n cynrychioli'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ar y Panelau.

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Gofynnir yn awr i'r Pwyllgor Sgriwtini enwebu un Aelod Etholedig i wasanaethu ar y Panel Sgriwtini Cyllid a hefyd un Aelod Etholedig i wasanaethu ar y Panel Sgriwtini Addysg.

| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
|---|
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| Amherthnasol |

[3] Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mehefin, 2022 a'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar 21 Mehefin, 2022

| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
|---|
| Amherthnasol |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| Amherthnasol |
| |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Cylch Gorchwyl – Panel Sgriwtini Cyllid a'r Panel Sgriwtini Addysg |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

**CYLCH GORCHWYL A *MODUS OPERANDI***

**PANEL SGRIWTINI CYLLID**

## RHAN 1 – CEFNDIR A CHYD-DESTUN

### Sgriwtini Ariannol

Yn yr hinsawdd economaidd bresennol, mae Aelodau angen sicrwydd bod y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau, sy’n prinhau, yn arbennig adnoddau ariannol:

*"… Mae craffu effeithiol yn bwysicach fyth wrth i wasanaethau cyhoeddus ymateb i her y sefyllfa ariannol fyd-eang tra’n parhau i geisio gwella gwasanaethau. Gall craffu effeithiol wella sail y dystiolaeth ar gyfer penderfyniadau ar ddyrannu adnoddau yn ogystal â sicrhau bod penderfyniadau yn dryloyw ac yn cael eu gwneud yn unol ag anghenion y gymuned leol..."*[1]

*"Sut fedrwn ni ychwanegu gwerth?"* yw’r cwestiwn allweddol y dylid ei ofyn o safbwynt sgriwtini ariannol a “sut fedrwn ni ddangos bod gwerth wedi ei ychwanegu ym mhob cam o’r broses ariannol?”   Yn y cyd-destun hwn, mae angen rhoi ystyriaeth i’r materion a ganlyn:

- Y broses o osod y gyllideb ynddi’i hun
- Penderfynu ar flaenoriaethau ymysg y gofynion sy’n cystadlu
- Defnydd effeithiol o gyllid
- Sut mae monitro a rheolaeth ariannol yn digwydd.

Mae sgriwtini ariannol yn golygu llawer mwy nag ychwanegu gwerth at benderfyniadau’r Pwyllgor Gwaith yn unig. Mae’n ymwneud â sicrhau bod proses sgriwtini briodol yn cael ei gweithredu wrth gynllunio, gweithredu a dilyn i fyny ar benderfyniadau allweddol sy’n cael effaith ar drethdalwyr a chymunedau lleol. O’r herwydd, mae Sgriwtini effeithiol yn gallu:

- Cynnig her effeithiol
- Dal y sawl sy’n gwneud penderfyniadau i gyfrif; a
- Cynorthwyo’r Pwyllgor Gwaith i ddatblygu cyllideb gadarn ar gyfer y flynddoedd sydd i ddod.

### Ein Trefniadau Lleol

Mae’r trefniadau craffu ar y broses flynyddol o sefydlu cyllideb y Cyngor wedi datblygu ac aeddfedu dros y blynyddoedd diwethaf gan osod y sylfeini ar gyfer dull gwell, mwy strategol a seiliedig ar ganlyniadau ac arfer da.  Yn wir, gwelwyd y broses yn caniatau dilyn trywydd mwy systematig o ran sgriwtini ariannol, sy’n elfen hanfodol o reolaeth a llywodraethiant ariannol cadarn.

‘Roedd y gwaith craffu gan y Panel Sgriwtini Cyllid[2] yn ystod yr Weinyddiaeth ddiwethaf hefyd yn ddatblygiad cadarnhaol yn ein trefniadau craffu ariannol, drwy:

- Ddatblygu model yn ffocysu ar grwp llai
- Aelodau’n datblygu lefel o arbenigedd
- Annog presenoldeb da a gweithio mewn tîm

[1] Craffu Da? Cwestiwn Da! Astudiaeth wella Archwilydd Cyffredinol Cymru: Craffu mewn Llywodraeth Leol, Mai 2014.  Hefyd, Disgwyliadau Uwch – craffu ariannol mewn cyfnod heriol.  Arweiniad ar gyfer awdurdodau lleol Cymru (Canolfan Graffu Cyhoeddus, Mehefin, 2014)
[2] Sefydlwyd y Panel Sgriwtini Cyllid yn yr Haf, 2017 fel is-banel o’r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol

# RHAN II - YSTOD GWAITH A SGÔP Y PANEL

## YSTOD GWAITH

Bydd y Panel Sgriwtini Cyllid yn gweithredu gyda'r amcanion allweddol canlynol:

- Datblygu model o weithio yn y maes cyllidol sy'n ffocysu ar grŵp llai er mwyn galluogi Aelodau i gymryd mwy o ran, datblygu lefel o arbenigedd pwnc, annog presenoldeb da a gweithio mewn tîm
- Fforwm i drafod gwybodaeth am risgiau ariannol y Cyngor, fel sail i lywio blaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol
- Rhyddhau gofod ar raglenni cyfarfodydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol i graffu eitemau trawsnewid a strategol
- Fforwm i ddatblygu grŵp o aelodau gyda'r arbenigedd a'r berchnogaeth i arwain trafodaethau cyllidol yn y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol

## SGÔP

| Pwnc | Rhaglen Waith | Amserlen |
|---|---|---|
| **Amwytho** | Amwytho aelodau'r Panel | 4 Gorffennaf, 2022 |
| **Monitro chwarterol y Gwariant Refeniw a Chyfalaf** | Craffu gwariant yn erbyn proffîl cyllidebau | Chwarterol |
| **Cyllideb y flwyddyn i ddod** | Rhannu gwybodaeth am risgiau ariannol y Cyngor i lywio blaen raglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Gorffennaf → Medi |
| | Cyllideb ddrafft – proses y setliad ariannol a sut mae'n gweithio | |
| | Trosolwg o'r sefyllfa ynghylch arbedion | Hydref → Tachwedd |
| | Craffu risgiau yn gysylltiedig â chynigion y gyllideb | |
| | Craffu pa mor gyraeddadwy ydy'r cynigion | |
| | Craffu lefel y Dreth Gyngor am y flwyddyn ddilynol | |
| **Cynllun Cyllidol Tymor Canol** | Craffu'r egwyddorion a rhagdybiaethau | Medi |
| **Meysydd Gwasanaeth** | Craffu ar y pwysau mewn gwasanaethau unigol | I'w rhaglennu yn ystod y cylch cyllideb blynyddol |
| **Rheoli Dyledion** | Craffu perfformiad rheolaeth dyledion (cynnwys graddfeydd casglu incwm) | I'w gadarnhau |
| **Ffioedd a Thaliadau** | Craffu ffioedd a thaliadau am y flwyddyn ariannol i ddod | I'w gadarnhau |
| **Premiwm Ail Dai** | Craffu ar yr egwyddorion, rhagdybiaethau ac argymhellion | Tachwedd / Rhagfyr (i'w gadarnhau) |

| Pwnc | Rhaglen Waith | Amserlen |
|---|---|---|
| **Cynllun Busnes HRA** | Craffu'r egwyddorion a rhagdybiaethau | Ionawr / Chwefror |
| **Balansau'r Cyngor ac arian wrth gefn** | Cwestiynu a chraffu | Mehefin / Gorffennaf |

## RHAN III – TREFNIADAU LLYWODRAETHIANT

### 1. Aelodaeth y Panel

Ni fydd aelodaeth y Panel yn amodol ar egwyddorion a rheolau cydbwysedd gwleidyddol[3].

Bydd aelodaeth graidd y Panel yn cynnwys:

i. **Aelodau Etholedig** – 3 aelod o'r ddau bwyllgor sgriwtini
ii. **Aelod Portffolio Adnoddau** – fel sylwedydd, heb bleidlais
iii. **Swyddogion** – Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog A151, Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg, Rheolwr Sgriwtini.

Bydd gwaith y Panel yn golygu y bydd angen i Aelodau Etholedig eraill (ee o'r Pwyllgor Gwaith) a / neu swyddogion o feysydd gwasanaeth eraill fynychu'r Panel.

### 2. Amlder Cyfarfodydd a Chworwm

- **Amlder cyfarfodydd** – sefydlwyd fel panel sefydlog i ystyried yr amrediad o faterion cyllidol sydd wedi'u crynhoi yn y tabl uchod. Bydd y panel felly'n cyfarfod yn rheolaidd, yn unol ag amserlenni prosesau cyllidol y Cyngor.

- **Cworwm –** ni fydd yn berthnasol i'r panel.

### 3. Cofnodi Cyfarfodydd a Threfniadau Adrodd

- Bwriedir rhedeg y panel ar ffurf cyfarfod busnes. Bydd yr Uned Sgriwtini'n coladu a dosbarthu unrhyw bapurau wrth baratoi ar gyfer pob cyfarfod a darparu rhestr o bwyntiau gweithredu yn dilyn pob cyfarfod

- **Trefn adrodd** - cyflwyno adroddiad rheolaidd gan aelodau'r panel i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

[20/06/22]

[3] Mae Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn nodi'r prif egwyddorion sy'n rheoli cydbwysedd gwleidyddol awdurdodau lleol

**CYLCH GORCHWYL a *MODUS OPERANDI***

**PANEL SGRIWTINI ADDYSG**

CYFRINACHOL - DRAFFT 1

# RHAN I – CEFNDIR A CHYD-DESTUN

## Craffu ar Addysg

Mae atebolrwydd addysg a chraffu gan Aelodau ar y system addysg ehangach yn rôl hollbwysig ac yn un sy'n gofyn i'r Awdurdod Lleol a'i bartneriaid gydweithio'n effeithiol. Yn dilyn newidiadau i sut mae ysgolion yn gweithredu a gyda mwy o ddiwygio ar y gorwel[1], mae risg bosibl o lawer llai o eglurder a dealltwriaeth o bwy sy'n atebol am beth a phwy sydd â'r trosolwg o systemau addysg lleol.

Mae'n amserol felly i ailystyried beth yw rôl Aelodau Etholedig yn y system hon. Mae angen goruchwyliaeth ac arweinyddiaeth leol glir a strwythuredig er mwyn sicrhau gwiriadau a chydbwysedd y tu allan i systemau llywodraethu ysgolion unigol o ran sut mae'r system addysg gyffredinol yn gweithredu ar lefel Sirol. I'r perwyl hwn, mae gan y Panel Sgriwtini Addysg gyfraniad pwysig i'w wneud. Mae sicrhau craffu ystyrlon a chadarn ar addysg yn elfen allweddol o rôl arweinyddiaeth Aelodau Sgriwtini. Mae craffu da yn golygu ychwanegu gwerth, cryfhau penderfyniadau a chanlyniadau.

Mae craffu ar addysg felly yn ymwneud â dwyn darparwyr lleol i gyfrif, ac ar lefel strategol:

- Edrych / craffu ar sut mae'r holl gydrannau yn cydweithio e.e. sut mae GwE yn cyflawni eu dyletswyddau, sut mae partneriaid lleol yn cydlynu gweithgareddau
- Bod pob ymdrech yn cael effaith gadarnhaol ar ddisgyblion a chymunedau.

Mae craffu ar addysg yn llawer mwy nag ychwanegu gwerth at benderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith yn unig. Mae'n ymwneud â sicrhau bod proses graffu briodol yn rhan o'r gwaith cynllunio, gweithredu a gwaith dilynol ar benderfyniadau allweddol sy'n effeithio ar drethdalwyr a chymunedau lleol. Felly, gall craffu effeithiol:

- Herio'n effeithiol
- Dal y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif; a
- Cynorthwyo'r Pwyllgor Gwaith i wneud penderfyniadau cadarn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

## Ein Trefniadau Lleol

Mae craffu ar ysgolion wedi esblygu a datblygu ers sefydlu'r Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion yn 2012[2]. Tan yn ddiweddar, roedd rôl y Panel yn canolbwyntio ar wella perfformiad pob ysgol drwy ddarparu herio cadarn i berfformiad ysgolion unigol; annog rhannu arfer dda rhwng ysgolion, gan ystyried y gwersi a ddysgwyd a phrofiad ysgolion unigol; gwella gwybodaeth Aelodau lleol am yrwyr perfformiad allweddol a'r heriau sy'n wynebu ysgolion ar Ynys Môn; dangos tystiolaeth bod perfformiad ysgolion yn cael ei fonitro gan Aelodau Etholedig.

---

[1] Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 – yn creu fframwaith deddfwriaethol i wella'r gwaith o gynllunio a darparu darpariaeth dysgu ychwanegol;
Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 – yn sefydlu Cwricwlwm i Gymru yn y gyfraith.

[2] Sefydlwyd y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion ym mis Tachwedd, 2012 gan y cyn Bwyllgor Sgriwtini Addysg a Hamdden. Deilliodd o argymhellion a wnaed gan Estyn ar y pryd ar ansawdd gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc ar Ynys Môn.

Mae'r gwaith craffu a wnaed gan y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion blaenorol yn ystod y degawd diwethaf wedi bod yn ddatblygiad cadarnhaol, gan gael effaith ar berfformiad ysgolion drwy:

- Datblygu model sy'n canolbwyntio ar grŵp llai
- Aelodau yn datblygu lefel o arbenigedd
- Annog presenoldeb da a gwaith tîm.

## RHAN II – CYLCH GWAITH A CHWMPAS Y PANEL

**Cylch Gwaith**
Mae'n **gam nesaf naturiol** i ddatblygu gwaith craffu Aelodau ar addysg ymhellach gan sicrhau cwmpas ehangach i'w waith, gyda'r manteision allweddol a ganlyn:

- Datblygu model o weithio mewn Addysg sy'n canolbwyntio ar grŵp llai er mwyn galluogi Aelodau i gymryd mwy o ran, datblygu lefel o arbenigedd pwnc ac annog presenoldeb da a gwaith tîm
- Cryfhau gallu Aelodau i herio perfformiad ymhellach drwy wella ansawdd gwybodaeth a data am ysgolion
- Fforwm i drafod gwybodaeth am risgiau Gwasanaeth fel sail i flaen rhaglen waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio
- Fforwm i ddatblygu grŵp o Aelodau gyda'r arbenigedd a pherchnogaeth i arwain trafodaethau ar faterion Addysg yn y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio

**Beth mae Estyn yn disgwyl ei weld o ran arweinyddiaeth wleidyddol a sgriwtini**

Mae gan Aelodau Etholedig wybodaeth a dealltwriaeth gynhwysfawr o'r ddarpariaeth addysg i'w galluogi i gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol:

1. **Safonau – herio perfformiad er mwyn codi safonau cyrhaeddiad addysgol**
2. **Ansawdd – dealltwriaeth o ehangder ac ansawdd y ddarpariaeth addysg**
3. **Arweinyddiaeth – dealltwriaeth o effeithiolrwydd arweinyddiaeth addysg ar bob lefel yn y Sir.**

**CWMPAS**

| Pwnc | Ffocws Rhaglen Waith | Amserlen |
|---|---|---|
| **Sgriwtini Effeithiol** | **Sesiwn Anwytho** aelodau'r Panel – fformat gweithdy. | 14 Gorffennaf, 2022 |
| Sgiliau | **Sgiliau -** mewnbwn hyfforddi a datblygu i sicrhau eglurder rôl a gwybodaeth bynciol i alluogi craffu effeithiol e.e Estyn, GwE, arweinwyr meysydd gwasanaeth. | Cyflawni drwy gydol y flwyddyn ddinesig gan sicrhau aliniad â gwaith sgriwtini'r Panel |

CYFRINACHOL - DRAFFT

| Pwnc | Ffocws Rhaglen Waith | Amserlen |
|---|---|---|
| Hunan-werthuso | **Hunan-werthuso** – Aelodau'n beirniadu eu perfformiad eu hunain er mwyn galluogi adolygu, myfyrio a dysgu. Amcanion:<br>i. Cyfrif stoc<br>ii. Adolygu, gwerthuso a myfyrio<br>iii. Sefydlu sylfaen ar gyfer y cyfnod nesaf<br>iv. Cadarnhau perchnogaeth yr Aelodau. | Yn flynynddol – i'w benderfynu gan aelodau'r Panel |
| **Safonau** | Craffu ar berfformiad:<br>• Y Gwasanaeth Dysgu<br>• Ysgolion Unigol<br><br>er mwyn codi safonau yn y Sir.<br><br>[ffynhonnell data: Canllawiau diwygiedig Llywodraeth Cymru ar ddata perfformiad] | I'w gadarnhau – trafodaeth gydag aelodau'r Panel |
| | Craffu perfformiad ar agweddau llesiant gan ganolbwyntio'n benodol ar:<br>• Presenoldeb<br>• Gwaharddiadau<br>• Ysgolion sy'n wybodus am drawma<br><br>[ffynhonnell data: data awdurdodau lleol ar bresenoldeb a gwaharddiadau] | I'w gadarnhau – trafodaeth gydag aelodau'r Panel |
| **Rhanddeiliaid** | Craffu ar:<br>• llais / dylanwad rhanddeiliaid yn y ddarpariaeth addysg ar Ynys Môn<br>• effeithiolrwydd gweithio mewn partneriaeth wrth gefnogi cyflwyno gwasanaethau addysg | I'w gadarnhau – trafodaeth gydag aelodau'r Panel |
| **Llais y Dysgwr** | Craffu effeithiolrwydd y mecanweithiau sydd yn eu lle i glywed llais y dysgwr fel rhan annatod o ddarpariaeth addysg Ynys Môn. | I'w gadarnhau – trafodaeth gydag aelodau'r Panel |
| **Effeithiolrwydd gwasanaeth** | Monitro a chraffu ar effeithiolrwydd y ddarpariaeth addysg (cryfderau a gwendidau) gan gynnwys:<br>• plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed – Anghenion Dysgu Ychwanegol, Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG), cohort Prydau Ysgol Am Ddim<br>• dysgwyr dawnus ac abl<br>• Addasu'r cwricwlwm (i gwrdd ag anghenion dysgwyr)<br>• Unrhyw flaenoriaethau allweddol eraill a nodir gan y Gwasanaeth | I'w gadarnhau – trafodaeth gydag aelodau'r Panel |

CYFRINACHOL - DRAFFT

| Pwnc | Ffocws Rhaglen Waith | Amserlen |
|---|---|---|
| | **Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018** | I'w gadarnhau – trafodaeth gydag aelodau'r Panel |
| | **Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 –** Cwricwlwm i Gymru | I'w gadarnhau – trafodaeth gydag aelodau'r Panel |
| **Arweinyddiaeth** | Craffu ar effeithiolrwydd<br>• arweinyddiaeth addysg ar bob lefel<br>• cynllunio olyniaeth<br>• datblygu a chadw staff | I'w gadarnhau – trafodaeth gydag aelodau'r Panel |
| | **Dysgu Proffesiynol** | I'w gadarnhau – trafodaeth gydag aelodau'r Panel |
| **Y Gymraeg (ffocws 10 mlynedd)** | • Craffu / monitro cyflawniad Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer Ynys Môn<br>• Monitro perfformiad lleol yn erbyn dangosyddion perfformiad cenedlaethol yn flynyddol | I'w gadarnhau – trafodaeth gydag aelodau'r Panel |

## RHAN III – TREFNIADAU LLYWODRAETHIANT

### 1. Aelodaeth y Panel

Ni fydd aelodaeth y Panel yn amodol ar egwyddorion a rheolau cydbwysedd gwleidyddol[3].

Bydd aelodaeth graidd y Panel yn cynnwys:

i. **Aelodau Etholedig** – 4 aelod o'r ddau bwyllgor sgriwtini
ii. **Aelod Portffolio Addysg** – fel sylwedydd, heb bleidlais
iii. **Swyddogion** – Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc, Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg, Rheolwr Sgriwtini.

Bydd gwaith y Panel yn golygu y bydd angen i Aelodau Etholedig eraill (ee o'r Pwyllgor Gwaith) a / neu swyddogion o feysydd gwasanaeth eraill fynychu'r Panel.

### 2. Amlder Cyfarfodydd a Chworwm

- **Amlder cyfarfodydd** – sefydlwyd fel panel sefydlog i sicrhau atebolrwydd, trosolwg a chraffu'r system addysg ar Ynys Môn, fel sydd wedi'i grynhoi yn y tabl uchod. Bydd y panel felly'n cyfarfod yn rheolaidd, yn unol ag amserlenni cyflwyno adroddiad cynnydd ar graffu addysg i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

[3] Mae Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn nodi'r prif egwyddorion sy'n rheoli cydbwysedd gwleidyddol awdurdodau lleol

CYFRINACHOL - DRAFFT

- **Cworwm –** ni fydd yn berthnasol i'r panel.

**3. Cofnodi Cyfarfodydd a Threfniadau Adrodd**

- Bwriedir rhedeg y panel ar ffurf cyfarfod busnes. Bydd yr Uned Sgriwtini'n coladu a dosbarthu unrhyw bapurau wrth baratoi ar gyfer pob cyfarfod a darparu rhestr o bwyntiau gweithredu yn dilyn pob cyfarfod

- **Trefn adrodd** - cyflwyno adroddiad rheolaidd gan aelodau'r panel i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

[23/05/22]

CYFRINACHOL - DRAFFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN<br>Templed Adroddiad Sgriwtini | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **16 Hydref, 2024** |
| **Pwnc:** | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Cynorthwyo'r Pwyllgor Sgriwtini i ystyried, cytuno ar ac adolygu ei flaen raglen ar gyfer 2024/25** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Douglas Fowlie** |
| **Aelod(au) Portfolio:** | **Amherthnasol** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **Awdur yr Adroddiad:<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini<br>07971167198<br>AnwenDavies@ynysmon.llyw.cymru** |
| **Aelodau Lleol:** | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

## 1 – Argymhelliad/Argymhellion

Gofynnir i'r Pwyllgor:

**A1** gytuno'r fersiwn gyfredol o'r flaen raglen waith ar gyfer 2024/25

**A2** nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r flaen raglen waith.

## 2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill

Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen sgriwtini effeithiol mewn llywodraeth leol. Mae ein blaen raglenni gwaith treigl ar gyfer Sgriwtini wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol y Cyngor a'r rhaglenni trawsnewid corfforaethol – ac yn sicrhau bod rôl sgriwtini Aelodau yn gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwella'r Cyngor.

## 3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgriwtini

**Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-**

**3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

**3.4** Sgriwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

**[ffocws ar lesiant]**

**3.6** Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

**[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]**

**4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol**

**5 – Cefndir / Cyd-destun**

1. **Cefndir**

1.1 Rhaglennu gwaith yn effeithiol yw sylfaen swyddogaeth sgriwtini effeithiol llywodraeth leol[1]. O'i wneud yn dda, gall rhaglennu gwaith fod o gymorth i osod y sylfeini ar gyfer gwaith amserol sydd wedi ei dargedu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n dangos ble gall sgriwtini Aelodau ychwanegu gwerth. Mae arfer dda'n hyrwyddo dau fater allweddol a ddylai fod wrth galon y flaen raglen waith sgriwtini:

i. Her mewn perthynas â blaenoriaethu ffrydiau gwaith
ii. Yr angen am ymagwedd a arweinir gan aelodau a rhyngwyneb gyda swyddogion.

**1.2 Egwyddorion sylfaenol rhaglennu gwaith yn dda[2]**

- Ni ddylai rhaglennu gwaith fod yn broses "cychwyn-stopio"
- Rhaglenni gwaith sy'n cyd-fynd â'i gilydd ar gyfer pwyllgorau sgriwtini gwahanol
- Cydbwysedd rhwng gwahanol ddulliau o weithio
- Proses effeithiol ar gyfer rhoi gwybod am / uwch gyfeirio materion i'r Pwyllgor Gwaith
- Mewnbwn a sylwadau cydranddeiliaid mewnol
- Gweithio'n agos â'r Pwyllgor Gwaith
- Cysylltiadau gyda'r Adroddiad Sgriwtini Blynyddol (teclyn ar gyfer gwerthuso a gwella)

2. **Cyd-destun Lleol**

2.1 Mae'r arfer o raglennu gwaith ymlaen llaw wedi cael ei hen sefydlu ac mae'r rhaglenni gwaith yn raglenni treigl sy'n canolbwyntio ar ansawdd y gwaith craffu ac sydd â llai o eitemau er mwyn ychwanegu gwerth. Maent yn declyn pwysig i gynorthwyo Aelodau i flaenoriaethu eu gwaith ac fe'u trafodir gyda'r Tîm Arwain a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Bydd y ddau bwyllgor yn adolygu cynnwys eu rhaglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau lleol ar gyfer cynllunio ymlaen bellach yn rhoi mwy o ffocws ar:

- Agweddau strategol
- Ymgynghori gyda dinasyddion / cydranddeiliaid eraill a chanlyniad hynny

[1] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)
[2] A Cunning Plan? Devising a scrutiny work programme, Canolfan Craffu Cyhoeddus (Mawrth 2011)

- Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor a phrosiectau trawsnewid
- Risgiau a gwaith arolygu a rheoleiddio
- Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

**Canlyniad**: rhaglenni gwaith treigl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini sydd wedi'u halinio â blaenoriaethau corfforaethol.

2.2 Cadeiryddion pwyllgor sy'n arwain ar ddatblygu blaen raglenni gwaith a'r rhaglenni hynny'n cael eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeirydd ac Is-gadeiryddion Sgriwtini yn fisol ac ar gyfer eu cymeradwyo ym mhob cyfarfod arferol o'r pwyllgorau sgriwtini. Ystyrir y Fforwm fel cyfrwng pwysig ar gyfer goruchwylio'r rhaglenni hynny a thrafod blaenoriaethau ar y cyd.

2.3 **Ymagwedd "Cyngor cyfan" tuag at Sgriwtini**: mae ein rhaglenni gwaith yn darparu sylfaen gref ar gyfer ein rhaglenni gwella gan sicrhau bod y rôl y mae Sgriwtini yn ei chwarae yn nhrefniadau llywodraethiant yr Awdurdod yn:

i. Cefnogi proses gwneud penderfyniadau sy'n gadarn ac yn effeithiol
ii. Gwneud cyfraniad go iawn i flaenoriaethau gwelliant y Cyngor
iii. Parhau i esblygu.

**3. Materion ar gyfer eu hystyried**

3.1 Mae'r Pwyllgor Sgriwtini yn derbyn diweddariadau rheolaidd ar weithrediad ei flaen raglen waith. Mae copi o'r rhaglen waith gyfredol ar gyfer 2024/25 ynghlwm fel **ATODIAD 1** i'r adroddiad hwn fel y gellir cyfeirio ati ac mae'n cynnwys newidiadau a wnaed i'r rhaglen waith ers i'r Pwyllgor ystyried y ddogfen ddiwethaf[3]

3.2 Lle mae hynny'n briodol, gellir ychwanegu eitemau at flaen raglen waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddinesig. Gellir cyflwyno ceisiadau am i eitemau ychwanegol gael eu cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer eu ystyried drwy lenwi Ffurflen Gais Aelodau yn gofyn am i eitem gael ei hystyried ar gyfer Sgriwtini. Yn y lle cyntaf, caiff y ceisiadau eu hystyried gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion, gan ddefnyddio'r meini prawf isod:

- Amcanion strategol a blaenoriaethau'r Cyngor (fel y cânt eu hamlinellu yng Nghynllun y Cyngor)
- Gallu'r Pwyllgor i ddylanwadu ar ac/neu i ychwanegu gwerth ynghylch pwnc penodol (bydd angen cwblhau Ffurflen Prawf Arwyddocâd Sgriwtini).

| |
|---|
| **6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]** |
| **6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010** |
| |
| **6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)** |
| |
| **6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg** |
| |

[3] Cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 17 Medi, 2024

| |
|---|
| Dim yn berthnasol yn achos y mater trosfwaol hwn ond bydd yn cael ei ystyried fel rhan hanfodol yn ystod y broses o baratoi ar gyfer cynigion penodol a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor eu hystyried. |
| **7 – Goblygiadau Ariannol** |
| Amherthnasol |

| **8 – Atodiadau** |
|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 2024/25 |

| **9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):** |
|---|
| Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW |

# RHAGLENNU EITEMAU AR GYFER SGRIWTINI MAI, 2024 → EBRILL, 2025
**[Fersiwn dyddiedig 07/10/24]**

## Nodyn i Randdeiliaid a’r Cyhoedd

Mae yna **Brotocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgor Sgriwtini** wedi’i gyhoeddi gan y Cyngor.
Os ydych yn dymuno siarad ar unrhyw eitem benodol mewn Pwyllgor Sgriwtini yna dylech gofrestru eich diddordeb drwy gyflwyno cais ysgrifenedig gan ddefnyddio’r ffurflen sydd ar gael cyn gynted â phosibl ac o leiaf 3 diwrnod gwaith clir cyn cyfarfod y Pwyllgor penodol. Cewch wybodaeth am y cyfarfod, a pha eitemau fydd yn cael eu trafod wrth ddarllen y Blaen Raglen Waith yma. Cysylltwch â’r Rheolwr Sgriwtini os oes gennych unrhyw ymholiadau [Anwen Davies: AnwenDavies@ynysmon.llyw.cymru ]

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | |
| **Mai, 2024 (21/05/24)** | **Mai, 2024 (21/05/24)** |
| Ethol Cadeirydd: 2024/25 | Ethol Cadeirydd: 2024/25 |
| Ethol Is-gadeirydd: 2024/25 | Ethol Is-gadeirydd: 2024/25 |
| | |
| **Mehefin, 2024 (13/06/24) – Ch4** | **Mehefin, 2024 (19/06/24) – Addysg / Y Gymraeg** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch4: 2023/24 | Y Gymraeg<br>• Adroddiad Blynyddol ar Safonau’r Gymraeg: 2023/24<br>• Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg: 2023/24 → Mesur Cynnydd |
| Dogfen Gyflawni Flynyddol: 2024/25 | Enwebu Aelod Pwyllgor ar y Panel Sgriwtini Cyllid |
| Hunan Asesiad Corfforaethol Drafft 2024 | |
| Adolygiad Sgriwtini o Ddangosydd Perfformiad 29: Gosod Tai'r Cyngor – adroddiad terfynol | |
| | |
| **Eitem er gwybodaeth:** Adroddiad Cynnydd Ch 4 2023/24 Uchelgais Gogledd Cymru | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |
| **Dim cyfarfod wedi’i raglennu** | **Gorffennaf, 2024 (10/07/24) - Gwasanaethau Brys** |
| | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn: 2023/24 |
| | |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |
| **Medi, 2024 (17/09/24) – Ch1** | **Medi, 2024 (12/09/24) - Taclo Tlodi** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch1: 2024/25 | Cyngor ar Bopeth Ynys Môn |
| Adroddiad Perfformiad Blynyddol: 2023/24 | Rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |
| **Hydref, 2024 (16/10/24)** | **Hydref, 2024 (15/10/24) – Addysg a Datblygu Cymunedol Cynaliadwy** |
| Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru (Rhan 9): 2023/24 | Adroddiad Blynyddol Ynys Môn gan GwE: 2023/24 |
| Arolygiaeth Gofal Cymru: Llythyr Gwiriad Gwella Gwasanaethau Oedolion a’r Cynllun Gweithredu | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |
| Enwebu Aelodau Pwyllgor ar y Panelau Sgriwtini Cyllid ac Addysg | Menter Môn |
| | |
| **Eitem er gwybodaeth:** Uchelgais Gogledd Cymru:<br>• Adroddiad Blynyddol: 2023/24<br>• Adroddiad Cynnydd Ch1: 2024/25 | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |
| | **Tachwedd, 2024 (13/11/24) - Iechyd** |
| | Archwilio Cymru: Adroddiad Gofal Brys ac Argyfwng: Llif allan o’r Ysbyty – Rhanbarth Gogledd Cymru |
| | Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| | |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |
| **Tachwedd, 2024 (19/11/24) - Ch2** | **Tachwedd, 2024 (20/11/24) – Trosedd ac Anhrefn** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch2: 2024/25 | Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn: 2023/24 |
| Cynllun Strategol Môn Actif | Rhaglen Ffyniant Bro Ynys Môn – Mesur Cynnydd |
| Asesiad y Farchnad Dai Leol 2024 | Cynllun Strategol Moderneiddio Gwasanaethau Oedolion |
| Cynllun Strategol Caffael a Rheolau Gweithdrefn Contractau Newydd | |
| | |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |
| **Ionawr, 2025 (15/01/25) – Cyllideb 2025/26 (bore)** | **Ionawr, 2025 (14/01/25)** |
| Sefydlu Cyllideb 2025/26 (cyllideb refeniw) - cynigion drafft cychwynnol | Diogelu Corfforaethol |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Rhaglen Cronfa Ffyniant Bro Ynys Môn – Mesur Cynnydd |
| | Medrwn Môn |
| | |
| | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |
| **Ionawr, 2025 (15/01/25) (prynhawn)** | |
| Hunan-Asesiad Corfforaethol – diweddariad 6 mis ar gynnydd | |
| Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Rhanbarthol Cynllunio at Argyfwng: 2023/24 | |
| | |
| **Eitem er gwybodaeth:** Adroddiad Cynnydd Ch2:2024/25 Uchelgais Gogledd Cymru | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 | |
| | |
| **Chwefror, 2025 (19/02/25) – Cyllideb 2025/26** | **Chwefror, 2025 (12/02/25) - Addysg** |
| Cynigion Drafft Terfynol Cyllideb 2025/26 – refeniw a chyfalaf | Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Addysg |
| Adroddiad Cynnydd Panel Sgriwtini Cyllid | Partneriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad Gwynedd ac Ynys Môn |
| | Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb: 2023/24 |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |
| **Mawrth, 2025 (11/03/25) - Ch3** | **Mawrth, 2025 (12/03/25)** |
| Monitro Perfformiad: Sgorfwrdd Corfforaethol Ch3: 2024/25 | Cynllun Strategol Tuag at Sero Net |
| Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai: 2025/2055 | Y Gronfa Ffyniant Gyffredin |
| Cynllun Strategol Rheoli Risg Llifogydd (i’w gadarnhau) | |
| | |
| | |
| **Eitem er gwybodaeth:** Adroddiad Cynnydd Ch3:2024/25 Uchelgais Gogledd Cymru | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |
| | |

| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO |
|---|---|
| **Ebrill, 2025 (10/04/25)** | **Ebrill, 2025 (09/04/25)** |
| | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus – trefniadau llywodraethiant / craffu cynnydd ar wireddu'r Cynllun Llesiant |
| | Porthladd Rhydd Ynys Môn |
| | |
| Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/25 |
| | |

**Eitemau i'w rhaglennu**

| **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
|---|---|
| Cyfrifiad 2021 | Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru / Heddlu Gogledd Cymru |
| Rhaglen Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Chryfhau'r Gymraeg | Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru |
| Cynllun Strategol Coed | Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| Cynllun Rheoli Asedau Gwasanaeth 2024-2034– Ystad Mân-ddaliadau | Craffu ar Bartneriaethau |
| Adroddiad Cynnydd Ch4:2024/25 Uchelgais Gogledd Cymru | Cynllun Gweithredu Llety Sipsiwn a Theithwyr |
| Cyd-Bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru | Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn: 2024/25 (Mehefin 2025) |
| | Rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy: Adroddiad Blynyddol 2024/25 (Mehefin-Gorffennaf, 2025) |
| | Gwella Dibynadwyedd a Gwytnwch ar draws y Fenai |
| | Effaith Twristiaeth ar Gymunedau Lleol Ynys Môn (penderfyniad gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, 21/06/2023) |
| | Cynllun Datblygu Lleol Ynys Môn (cytundeb cyflawn) |
| | Craffu Partneriaethau – adolygiad blynyddol (Mawrth 2026) |
| | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| | Cynllun Ynni Ardal Leol (i'w gadarnhau) |